

# Ceredigion

Cynllun Datblygu Lleol  
2007-2022



## Adroddiad Monitro Blynyddol 2015

Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015



Cyngor Sir Ceredigion, Hydref 2015

CYNGOR SIR  
**CEREDIGION**  
COUNTY COUNCIL

Delweddau: © Hawlfraint y Goron (2013) Croeso Cymru, © Janet Baxter, © FBA

Atgynhychir y map hwn yn seiliedig a'r Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.' Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2015.

## Cynnwys

Cynnwys	i
1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Cyflwyniad	10
3. Newidiadau yn y Cyd-destun	13
4. Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol	31
5. Fframwaith Monitro Dangosyddion AAS/AG	98
6. Casgliadau ac Argymhellion	144
Atodiad 1: Newidiadau i'r Fframwaith Monitro	150
Atodiad 2 Crynodeb o Ddangosyddion y CDLI	160
Atodiad 3 Crynodeb o'r Dangosyddion Cynaliadwyedd	168
Atodiad 4: Statws Safleoedd a Neilltuwyd	175
Atodiad 5: Rhestr o'r Canllawiau Cynllunio Atodol	188
Atodiad 6 AMRH03: Strategaeth Anheddu, Grwpiau Aneddiadau	189
Atodiad 7: AMRH04 Strategaeth Anheddu - Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt'	193
Atodiad 8: AMRH15 Rychwant o Dai - Perfformiad	198
Atodiad 9: AMRE06 Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig 2015	199



## 1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fonitro'r ffordd y mae eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) mabwysiedig yn cael eu gweithredu, trwy baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. Hwn yw'r ail AMB ar gyfer CDLI Ceredigion.
- 1.2 Mabwysiadodd y Cyngor CDLI Ceredigion yn ffurfiol ar 25 Ebrill 2013. Mae'r AMB ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015. Mae'r cynllun yn rhedeg o 2007 hyd 2022. O ganlyniad er mai dim ond yr ail AMB yw hwn ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r AMB hwn yn monitro canol cyfnod ffurfiol y cynllun er mai dim ond ar 25 Ebrill 2013 y daeth y Strategaeth a'r polisiau'n gyflawnadwy yn nhermau rheoli datblygu. Cyn 25 Ebrill 2013 ychydig o ddylanwad, neu ddim o gwbl, yr oedd y CDLI yn ei gael ar y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn y Sir, ac ni fydd nifer sylweddol o'r datblygiadau sydd wedi cael eu cwblhau a'u caniatáu ers 2007 yn cyd-fynd â Strategaeth y CDLI.
- 1.3 Mae'n ofynnol i AMB gynnwys:
- Adolygiad o'r newidiadau mewn polisiau a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol a'u goblygiadau i'r CDLI.
  - Gwaith monitro'r CDLI wedi'i seilio ar y Fframwaith Monitro CDLI (Atodiad 3 CDLI), sy'n cynnwys Dangosyddion Statudol.
  - Gwaith Monitro Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)/Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) yn seiliedig ar y Fframwaith Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AG/AAS).
  - Argymhellion ar weithredu mewn perthynas â pholisiau a'r CDLI cyfan, os oes angen.
- 1.4 Yn ychwanegol at yr uchod mae'r AMB hefyd yn ystyried dylanwadau allanol sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r CDLI yn cael ei weithredu ond sydd yn bendant y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Er hynny, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried a allai newid yn ei fframwaith polisi liniaru rhai o'r problemau y mae'r ffactorau allanol hyn yn eu codi. Yn nhermau dylanwadau allanol, rhoddwyd ystyriaeth i bolisiau / deddfwriaeth cenedlaethol, amgylchiadau allanol ac ystyriaethau lleol.

### Polisiau a deddfwriaeth cenedlaethol

- 1.5 Mae'r canllawiau a deddfwriaeth a gyhoeddwyd hyd at 31 Mawrth 2015 yn cynnwys y canlynol:
- Polisi Cynllunio Cymru (7<sup>fed</sup> Argraffiad, Gorffennaf 2014)
  - Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (Diweddariad Gorffennaf 2014)
  - Newidiadau i Ran 24: Datblygiad gan Weithredwyr Cod Electronig yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Tref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 (Hydref 2014)
  - Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (Diweddariadau i'r Mapiâu Cyngor Datblygu a Chynlluniau Rheoli Traethlin cymeradwy) (Ionawr 2015)

- Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Diwygiwyd Ionawr 2015)
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

1.6 Nid yw'r dogfennau a restrir wedi arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol yng nghyd-destun y cynllun. O ganlyniad nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu mewn perthynas â'r CDLI. Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r dogfennau hyn yn Adran 3 o'r AMB. Caiff dogfennau a gyhoeddir o 1 Ebrill 2015 ymlaen eu hystyried yn AMB y flwyddyn nesaf.

### **Amgylchiadau allanol**

- 1.7 Nodir yr amgylchiadau allanol yn llawn yn Adran 3 o'r AMB.
- 1.8 Mae'r dirywiad yn yr economi wedi cael effaith amlwg ar gyfraddau adeiladu tai ac felly ar gyflenwi pob math o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy.
- 1.9 Derbyniodd y Ddeddf Cynllunio gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015. Disgwylir llu o is-ddeddfwriaeth a chanllawiau er mwyn gweithredu'r gofynion a nodwyd yn y Ddeddf. Er nad yw Ceredigion yn debygol o fod ymysg yr ardaloedd a nodir ar gyfer cynlluniau rhanbarthol a elwir yn Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) (i'w disgwyl Gwanwyn 2017), bydd cyflwyno polisiau rheoli datblygu cenedlaethol yn effeithio ar gynnwys y CDLI maes o law. Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried goblygiadau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol pan gaiff ei gyhoeddi, er na ddisgwylir ei gyhoeddi tan y Gwanwyn 2018. Nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun ar hyn o bryd o ganlyniad i'r Ddeddf - bydd y newidiadau hynny'n codi wrth i is-ddeddfwriaeth a chanllawiau gael eu mabwysiadu.
- 1.10 Mae'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos wedi gwneud cryn dipyn o'r gwaith o baratoi eu CDLIau, ac mae rhai wedi mabwysiadu eu CDLIau. Nid yw unrhyw un o'r CDLIau hynny'n cael effaith andwyol ar y gwaith o weithredu CDLI Ceredigion.
- 1.11 Nid yw unrhyw un o'r amgylchiadau allanol a nodwyd wedi galw am newid i'r cynllun hyd yma.

### **Ystyriaethau lleol**

- 1.12 Nodir yr ystyriaethau lleol yn llawn yn Adran 3 o'r AMB. Roedd tair o'r ystyriaethau allweddol fel a ganlyn.
- 1.13 Ers mabwysiadu'r CDLI mae data o Gyfrifiad 2011 wedi cael eu cyhoeddi. Rhoddodd Cyfrifiad 2011 boblogaeth o 75,922 sydd, o'i chymharu â phoblogaeth Cyfrifiad 2001 (74,094), yn dangos cyfradd twf poblogaeth is na'r un a ragdybir yn y CDLI. Yn yr un modd mae cyfanswm yr anheddau ac aelwydydd a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn awgrymu cyfradd newid is o ran niferoedd aelwydydd, o gymharu â Chyfrifiad 2001, na'r un a ragdybir yn y CDLI. Fodd bynnag, mae rhai elfennau o'r diwygiad swyddogol hwn, ac yn arbennig ym mlynnyddoedd cynharaf y gyfres ddiwygiedig, yn anodd eu cysoni â

ffynonellau data eraill, ac mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu'r newid gwirioneddol yn y boblogaeth yn gywir. Ymddengys fod amcanestyniadau swyddogol mwy diweddar o'r boblogaeth, yn arbennig y rheiny ers 2011, yn ddangosydd gwell o'r newid yn y boblogaeth sy'n adlewyrchu elfennau fel nifer y myfyrwyr Addysg Uwch yn well. Mae rhagor o wybodaeth fanwl am y cyfrifiad wedi cael ei chyhoeddi ar ffurf amcanestyniadau o'r Boblogaeth a Chartrefi seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Mae'r Cyngor wedi ystyried yr amcanestyniadau hyn yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diwygiedig y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn yr Hydref 2015. Yn wyneb ansefydlogrwydd yr amcanestyniadau presennol, byddai'n ddoeth aros i gael amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2013 a ddisgwylir yn 2016/17 cyn ystyried yn fanwl yr effaith ar y CDLI ac unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Felly mae cyhoeddi'r amcanestyniadau hyn yn debygol o gyd-daro â'r adolygiad o'r CDLI y disgwylir iddo gael ei gynnal yn 2017. Gweler Adran 4 i gael rhagor o fanylion.

- 1.14 Gallai polisi Adolygu Ysgolion y Cyngor Sir ysgogi'r Awdurdod i adolygu rôl a statws rhai aneddiadau. Mae safle ar gyfer ysgol fro newydd yn destun Cais Cynllunio ar hyn o bryd yn yr Anheddiad Cyswllt Drefach i wasanaethu'r ardal i'r gorllewin o Lanbedr Pont Steffan. Bydd goblygiadau'r cynnig i strategaeth ddatblygu'r CDLI o gael ysgol fro newydd, ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r strategaeth ddatblygu, yn cael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad cyntaf, yn amodol ar gymeradwyo'r Cais Cynllunio.
- 1.15 Ar adeg ysgrifennu hwn roedd gwaith CDLI Ceredigion ar Gynllun Rheoli Traethlin 2 (CRhT2) hefyd ar y gweill, ond heb gael ei gwblhau. Felly nid yw'r CDLI mabwysiedig yn adlewyrchu nac yn ymdrin â dim o'r canfyddiadau ac argymhellion yn CRhT2. Ers mabwysiadu'r CDLI mae CRhT2 wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet a dylid rhoi ystyriaeth iddo bob amser wrth benderfynu ar neilltuo/datblygu tir. Mae'r CRhT2 yn nodi bod polisiâu Adlinio Dan Reolaeth yn bodoli yn awr ac yn y tymor byr-canolig ar hyd llawer o ddarnau o'r glannau ar hyd arfordir Ceredigion. Mae manau hefyd lle mai'r polisi presennol a'r polisi arfaethedig yw Dim Ymyrraeth Weithredol. Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu ar unwaith mewn perthynas â'r CDLI. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CDLI gymryd cynnwys ac argymhellion CRhT2 i ystyriaeth ac ystyried a yw hyn yn galw am newid i'r CDLI.
- 1.16 Nid yw unrhyw un o'r ystyriaethau lleol a nodwyd yn galw am newid yn y cynllun hyd yma.

### **Monitro polisiâu'r CDLI**

- 1.17 Mae gwaith monitro'r CDLI yn ystyried polisiâu'r CDLI yn ôl Fframwaith monitro'r CDLI mabwysiedig er mwyn canfod a yw'r polisiâu'n effeithiol ac i ganfod unrhyw bolisiâu nad ydynt yn cael eu gweithredu. Gellir gweld y fframwaith ym Mhennod 9 ac Atodiad 3 o'r CDLI (Cyfrol 1) ac roedd yn rhan o fabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol ac mae felly'n gyfrwymo. Mae'r Fframwaith yn cynnwys 33 o agweddau (naill ai un polisi neu nifer o bolisiâu gyda'i gilydd) y mae angen eu monitro. Mae gan bob un darged, dangosydd, ysgogydd a chamau gweithredu. Os nad yw dangosydd yn cyrraedd targed, neu os yw ffactor yn cyrraedd trothwy, gallai awgrymu nad yw'r polisi'n cael ei weithredu.

Mewn achosion o'r fath, caiff y polisi ei ystyried yn fanwl yn yr AMB. Nodir y canlyniadau'n fanwl yn Adran 4 o'r AMB hwn.

1.18 Nodir ychydig o'r canfyddiadau allweddol isod. Fodd bynnag, dylid cofio bod y rhain wedi'u seilio ar gyfnod monitro cymharol fyr yn unig, a bydd angen cymharu'r canfyddiadau â data monitro yn y dyfodol cyn y gellir dod i unrhyw gasgliadau gwirioneddol bendant.

### Y Strategaeth Anheddu

1.19 Strategaeth y CDLI yw ailganolbwyntio twf ar y Canolfannau Gwasanaethau (gweler offeryn monitro AMRH02). Ar yr adeg hon yng nghyfnod y Cynllun ni ddisgwylir i'r ganran adlewyrchu honno a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn dangos cam cadarnhaol pellach ymlaen tuag at gyrraedd y targed. Ers cyfnod monitro y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ymrwymïadau wedi:

- parhau yn 42% (targed 51%) yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol;
- codi 1%, o 15% i 16% (targed 24%) yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig; a
- gostwng 1%, o 43% i 42% (targed 25%) mewn perthynas ag Aneidiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill.

1.20 Gan fod 8 blynedd o gyfnod y cynllun, sef 15 mlynedd, eisoes wedi mynd heibio, ac mai dim ond ers ei fabwysiadu yr oedd modd dilyn y cynllun yn effeithiol, er mwyn sicrhau'r dosbarthiad targed byddwn yn dibynnu ar gyflawni'r holl ofyniad o 6000 o dai, glynu'n fwy caeth i bolisi'r cynllun mewn perthynas ag ymrwymïadau y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau, a monitro'n agos nifer y safleoedd a neilltuwyd a ddefnyddir. Dylid nodi nad yw'r gwaith o gyrraedd y targed o dan reolaeth yr ALI yn uniongyrchol oherwydd effaith grymoedd y farchnad ac ati. Felly, gweithio tuag at y cydbwysedd cywir yw nod realistig y CDLI ar hyn o bryd ac at ei gilydd mae wedi cyflawni hyn yn 2014/15. At ei gilydd, ers mabwysiadu'r CDLI cafwyd cynnydd o 1% yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig a gostyngiad o 2% yn yr Aneidiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill. Mae'n rhaid i'r gostyngiad hwn yn yr Aneidiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill a'r cynnydd yn y Canolfannau Gwasanaethau barhau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

1.21 Er bod cam cadarnhaol tuag at y targed wedi cael ei gymryd ar draws y sir, nid yw hyn wedi bod yn wir mewn perthynas â'r holl Grwpiau Aneidiadau os ydym yn edrych arnynt yn unigol (gweler AMRH03). Roedd y canlynol wedi methu â sicrhau gwelliannau yng nghymhareb ymrwymo a chwblhau yn ystod y flwyddyn fonitro hon gyda gormod o ffocws o ran ymrwymïadau yn parhau ar yr Aneidiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill ar draul y Canolfannau Gwasanaethau:

- Aberaeron/Llwyncelyn
- Castell Newydd Emlyn/Adpar
- Llanbedr Pont Steffan
- Llandysul
- Cenarth
- Llanilar
- Llanon
- Penrhyncoch



- 1.22 Fodd bynnag, ar ddiwedd y cyfnod monitro roedd rhywfaint o welliant i'w weld mewn perthynas â'r gymhareb yn achos Castell Newydd Emlyn/Adpar ac mae rhagor o welliannau'n debygol yn achos Cenarth gyda'r datblygiad y gwyddys ei fod yn mynd rhagddo yn ei Ganolfan Gwasanaethau. Er mwyn i'r Strategaeth gael ei gwireddu, mae angen i'r sefyllfa hon wella yn achos yr aneddiadau hynny a restrir uchod ac ni ddylai unrhyw Grwpiau newydd gael eu cynnwys yn y rhestr hon y flwyddyn nesaf. Mae Aberaeron/Llwyncelyn, Cenarth a Llanon yn ymddangos ar y rhestr hon am yr ail flwyddyn yn olynol; i'r gweddill dyma'r tro cyntaf iddynt ymddangos. Ni fydd rhagor o ganiatâd mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' yn y Grwpiau uchod yn cael ei roi (oni fo cyfiawnhad sylweddol dros y cais hwnnw) hyd nes y bydd y caniatadau sy'n sefyll wedi dar fod neu wedi cael eu dirymu ac y bydd yr ymrwymadau'n adlewyrchu neu'n gweithio tuag at y rhaniad cymesur a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI (Cyfrol 1).
- 1.23 Mae'r cyfraddau cwblhau mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi codi yn ystod y flwyddyn, gan awgrymu bod polisi'r CDLI o ganolbwyntio datblygiadau mewn Canolfannau Gwasanaethau yn y dyfodol, yn hytrach nag mewn aneddiadau gwasgaredig, a gwrthwynebu bancio tir, efallai wedi ysgogi'r rheiny oedd â chaniatadau eisoes i gwblhau eu cynlluniau (gweler AMRH03).
- 1.24 Mae'r CDLI yn ceisio sicrhau nad oes gormod o dwf mewn unrhyw un Anheddiad Cyswllt a allai niweidio gwedd cymdeithasol yr anheddiad hwnnw a gosod pwysau amhosibl eu rheoli ar y seilwaith lleol (gweler AMRH04). O'r 90 o Aneddiadau Cyswllt:
- cafwyd mwy na'r lefel twf a ganiateir mewn 38 ohonynt; a
  - chyrhaeddwyd y lefel twf a ganiateir mewn 4 arall.

Gyda'i gilydd mae'r cyfanswm hwn yn parhau yr un fath â'r flwyddyn ddiwethaf, sef 42 - bron hanner yr Aneddiadau Cyswllt. Felly mae'r Awdurdod wedi llwyddo i aros ar y trywydd iawn hyd yma. Byddai'n braf gweld y sefyllfa'n cael ei gwrthdroi - cael rhagor o aneddiadau sy'n cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y CDLI, fodd bynnag mae hyn yn golygu bod caniatadau yn gorfod dar fod, yn ogystal â'r Awdurdod yn peidio â rhoi caniatâd pellach yn yr Aneddiadau Cyswllt hynny. Nid yw'r caniatadau sydd wedi dar fod o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol, fodd bynnag mae peidio ag adnewyddu caniatâd pan fydd caniatâd wedi dar fod o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol, ac ni fydd adnewyddu caniatadau yn cael ei ganiatáu fel rheol. Mae peidio â rhoi caniatâd ar gyfer safleoedd newydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol, ac ni chaiff caniatadau eu rhoi oni bai bod amgylchiadau eithriadol, yn unol â Maen Prawf 2d (Polisi S04) y CDLI.

- 1.25 Felly ar hyn o bryd nid yw'r agwedd hon ar y cynllun yn cael ei chyflawni. Fodd bynnag, roedd mwy na'r twf a ganiateir wedi digwydd yn 33 o'r 38 cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu (cydnabu'r Arolygydd y sefyllfa hon ar adeg yr Archwiliad), gan olygu cynnydd net o 5 anheddiad oedd yn methu ers 2011. Felly'r cwbl y gall y Cyngor ei wneud o hyn ymlaen yw sicrhau na welir mwy byth o dwf na'r lefelau a ganiateir ac na welir mwy o dwf na'r terfynau a nodir yn Atodiad 5 o'r CDLI (Cyfrol 1) yn yr Aneddiadau Cyswllt eraill.
- 1.26 O ran y ceisiadau a ganiatawyd yn y 'Lleoliadau Eraill' roedd naw cais nad ydynt ar yr olwg gyntaf yn cydymffurfio â'r CDLI na chanllawiau cenedlaethol

(gweler AMRH05). Cafodd y rhain eu cymeradwyo yn groes i argymhellion swyddogion yn y Pwyllgor Cynllunio. Yn y flwyddyn i ddod bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod caniatadau'n cael eu cyfyngu i'r rheiny a ganiateir o dan bolisi S04 (Tai Fforddiadwy a TAN 6), ac y caiff unrhyw wyriadau eu cyfiawnhau a'u cofnodi'n llawn. Er na chafodd cyfiawnhadau eu cofnodi ar gyfer dau gais mae'r penderfyniad yn dangos bod y caniatadau yn unol â Pholisi S04, sef bod un ar gyfer annedd fforddiadwy a bod y llall ar gyfer TAN6. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i wella dulliau ffurfiol o gofnodi cyfiawnhad yn y Pwyllgor Cynllunio. Os nad yw cyfiawnhad yn bodoli neu nid yw tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno i gyd-fynd â chais am annedd fforddiadwy neu uned TAN6, bydd rhaid ceisio gwybodaeth bellach neu caiff y cais ei wrthod.

### Darpariaeth Tai

- 1.27 Mae Adroddiad Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014, a gyhoeddwyd ym Mai 2015, yn dangos cyflenwad tir o 3.7 o flynyddoedd ar gyfer Ceredigion, ac mae adroddiad Cyd-astudiaeth 2015 a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2015 yn dangos cyflenwad tir o 3.3 o flynyddoedd ar gyfer Ceredigion (gweler AMRH06). Felly nid yw'r cyflenwad tir 5 mlynedd sy'n ofynnol gan bolisi cenedlaethol yn cael ei gyflawni, a rhoddir rhesymau manwl am hyn yn Adran 4.
- 1.28 Mae'r ddarpariaeth tai ar safleoedd a neilltuwyd hyd yma'n fach ac yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond ers dwy flynedd mae'r CDLI wedi'i fabwysiadu. Cyn hynny roedd ansicrwydd ynghylch mabwysiadu safleoedd a neilltuwyd yn cyfyngu ar gynigion datblygu yn achos safleoedd a neilltuwyd (gweler AMRH07). Ar ôl mabwysiadu mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithio gyda pherchnogion safle/datblygwyr penodedig i'w hannog i baratoi'n gynnar i ddarparu'r safle/cydosod y tir ac ati, ac mae newydd recriwtio Swyddog Cyflenwi Tai i ymgymryd â'r gwaith hwn (swydd yn ei lle Medi 2015). Dros y cyfnod bras o ddwy flynedd mae'r Awdurdod yn disgwyl gweld rhyw lefel o welliant mewn darpariaeth o ganlyniad uniongyrchol i'r swydd newydd hon. Dylai nifer y trafodaethau cyn gwneud cais a gynhaliwyd eleni arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau ar safleoedd a neilltuwyd yn y flwyddyn monitro nesaf. Fodd bynnag, bydd yn cymryd ychydig o flynyddoedd i drosi hyn yn unedau wedi'u cwblhau. Felly mae'r perfformiad, at ei gilydd, yn unol â'r disgwyliadau dim ond dwy flynedd ar ôl mabwysiadu'r CDLI.
- 1.29 Mae trosi caniatadau'n unedau wedi'u cwblhau wedi bod yn destun pryder yng Ngheredigion erioed. Y gymhareb gyfartalog rhwng caniatadau sy'n sefyll ac unedau wedi'u cwblhau yw 12.3 caniatâd sy'n sefyll am bob 1 uned wedi'i chwblhau (gweler AMHH14). Mae hyn yn waeth na'r sefyllfa y flwyddyn ddiwethaf sef 9.3 am bob un. Fodd bynnag, mae'r canlyniad hwn wedi'i wyro'n sylweddol gan berfformiad gwael mewn ychydig dros hanner y Grwpiau Aneddiadau, sy'n codi'n rhannol oherwydd cyfyngiadau o ran seilwaith sydd wedi cael eu hunioni yn ddiweddar, yn rhannol o fancio tir mewn ardaloedd yng nghefn gwlad ac ar y glannau a fu'n boblogaidd yn y gorffennol ond y mae'r dirwasgiad wedi effeithio arnynt, ac yn rhannol wrth i ddatblygwyr ymrwymo i un ardal yn hytrach nag un arall. Os caiff yr aneddiadau hyn eu tynnu o'r cyfrifiad, yna'r gymhareb ar draws y sir yw 8.0 caniatâd sy'n sefyll am bob 1 uned wedi'i chwblhau. O ran yr holl unedau ychwanegol a ganiatawyd ers

mabwysiadu'r CDLI, mewn perthynas â safleoedd y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatadau byr gyda dyddiadau cwblhau fel ffordd o hybu darpariaeth tai. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn adolygu'r holl safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio a bydd yn defnyddio nifer o fecanweithiau i geisio trosi'r caniatadau hynny'n unedau wedi'u cwblhau.

- 1.30 Mae'r datblygiad sy'n digwydd ar dir llwyd yn llawer mwy na'r targed o 4%, sef 41% o'r holl ddatblygiadau tai a ganiatwyd, a 29% o'r holl ddatblygiadau tai a gwblhawyd. Bydd rhan helaeth o'r datblygiad hwn yn cael ei gyfrif amdano yn Aberystwyth (gweler AMRH09).

### **Tai fforddiadwy**

- 1.31 Nid yw'r targed, sef 70 uned o dai fforddiadwy a gwblheir bob blwyddyn, yn cael ei gyrraedd oherwydd yr arafu cyffredinol yn yr economi ledled y Deyrnas Unedig ac felly darpariaeth tai lai yn gyffredinol (ar y farchnad agored a thai fforddiadwy) yn lleol ac yn genedlaethol. 42 o unedau yw'r cyfartaledd blynyddol sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o'r holl unedau tai sy'n cael eu caniatáu a'u cwblhau, mae oddeutu 20% yn fforddiadwy ac felly mae targed y CDLI, sef bod 20% o'r holl unedau tai yn fforddiadwy, yn cael ei gyrraedd.
- 1.32 Oddeutu 3% o'r holl geisiadau preswyl yw'r ganran lle cafwyd her lwyddiannus ar sail yr honiad na fyddai'r cynllun yn talu'r ffordd (gweler AMRH10 ac AMRH11 i gael y manylion) ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chyfaddasiadau. Mae'r ganran hon yn fach iawn ac felly ar hyn o bryd nid oes angen diwygio'r polisi na'r targed tai fforddiadwy.
- 1.33 Er eu bod y tu allan i'r ystodau goddefiant sydd wedi'u bwriadu i ysgogi camau gweithredu, nid yw patrwm dosbarthiad unedau sydd wedi'u cwblhau ac ymrwymadau ar gyfer tai fforddiadwy yn ôl math wedi gweld effaith arwyddocaol eto yn sgil y CDLI mabwysiedig (gweler AMRH12). Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â thai fforddiadwy 'canolradd' a'r prif reswm yw bod y caniatadau presennol gan fwyaf wedi cael eu rhoi cyn y CDLI pan nad oedd y polisi'n caniatáu ar gyfer Rhent Canolradd. Dylid nodi ei bod yn bosibl nad yw darpariaeth unedau Rhent Canolradd yn dibynnu'n llwyr ar roi caniatadau newydd. Mae yna fecanwaith yn adran 106 ddiwygiedig sy'n caniatáu i berchennog eiddo Tai Fforddiadwy wneud cais i'r Cyngor i newid natur yr uned Tai Fforddiadwy o Ddisgownt Gwerthu i Rent Canolradd. Felly mae'n bosibl y gallai rhywfaint o'r stoc Tai Fforddiadwy Disgownt Gwerthu sy'n bodoli eisoes ddod yn unedau Tai Fforddiadwy Rhent Canolradd yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd asesiadau diwygiedig o anghenion tai fforddiadwy yn cael rhagor o effaith ar y polisi ar ôl iddynt gael eu cwblhau fel rhan o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol mae Gwasanaeth Tai'r ALL i fod i'w gyhoeddi yn yr Hydref 2015. Mae dosbarthiad bras cyffredinol Tai Fforddiadwy'n foddhaol ac felly nid yw perfformiad y polisi'n destun pryder.

### **Economi a Manwerthu**

- 1.34 Mae'r targedau economaidd fel y'u gosodir gan bolisïau S01-S04, LU11, LU12 a LU13 yn cael eu cyrraedd, gweler AMRE01-AMRE04. Mae ffryntiadau

manwerthu eilaidd yn gweithredu o fewn terfynau'r polisi, fodd bynnag nid yw prif ffryntiadau manwerthu yn perfformio fel y dymunir ac wedi cwmpo ychydig yn is na'r targedau am ddwy flynedd yn olynol, ac felly mae gwaith ymchwilio a dadansoddi wedi cael ei gychwyn a fydd yn ffurfio rhan o adolygiad o'r angen manwerthu dros y blynyddoedd nesaf (gweler AMRE07).

### **Darpariaeth mannau agored**

- 1.35 Ar yr olwg gyntaf ymddengys y methwyd â chyflawni AMRQ3 o ran creu mannau agored (testun polisiâu LU24). Fodd bynnag, roedd llawer o'r ceisiadau perthnasol sy'n cael eu caniatáu yn ystod y flwyddyn wedi cael eu negodi cyn mabwysiadu'r CDLI a gweithredu gofynion Polisi LU24. Felly ni allai'r ceisiadau hynny fod yn destun i bolisiâu'r CDLI. At hynny, ni chollwyd unrhyw fannau agored sy'n golygu bod AMRQ01 wedi cael ei gyflawni. Lle na fu modd sicrhau darpariaeth newydd yn achos rhai o'r caniatadau a roddwyd yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon bod yna gyfiawnhad clir ac felly bod y polisiâu wedi cael eu gweithredu'n briodol ac nad oes angen rhagor o newid na rhagor o gamau gweithredu.

### **Materion amgylcheddol**

- 1.36 Mae rhywfaint o bryder o hyd ynghylch AMRQ04 ac AMRQ05 sy'n mesur a yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn sicrhau nad oes unrhyw effaith sylweddol hirdymor ar yr amgylchedd ac y dylai o leiaf 85% o ganiatadau gynnwys rhyw fath o welliannau amgylcheddol (sef testun DM14 a DM15). Bu rhywfaint o welliant o'i gymharu â ffigurau 2013/14 (gyda AMRQ04 bron o fewn y targed) oherwydd newidiadau i weithdrefnau mewnol, ond mae gwelliannau pellach yn debygol o gael eu dangos yn y ffigurau ar gyfer 2016/17, yn hytrach na 2015/16. Mae newidiadau pellach i weithdrefnau mewnol yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau y caiff y targedau hyn eu cyrraedd y flwyddyn nesaf. Mae angen gweithredu i sicrhau bod ecolegydd yr ALI yn ymwneud mwy â cheisiadau perthnasol a gwella dealltwriaeth ynghylch y rhesymau dros gynnwys gwelliannau amgylcheddol yn y rhan fwyaf o ddatblygiadau, a phwysigrwyd hynny.
- 1.37 Ymddengys fod 38 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo mewn parth llifogydd C1 neu C2 (11 ac 27 yn y drefn honno) ac roedd 3 ohonynt yn ddatblygu preswyl ym mharth C2 oedd heb ddangos eu bod wedi bodloni profion TAN 15 (gweler AMRQ07). Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru i unrhyw un o'r safleoedd hyn. Er mwyn cyrraedd targed y dangosydd ar gyfer 2015/16 bydd rhaid i'r Awdurdod sicrhau, pan ganiateir cais yn y parth llifogydd C1 neu C2, bod yn rhaid rhoi cyfiawnhad ysgrifenedig ynghylch sut mae'n bodloni profion TAN 15 yn unigol. Dylid nodi'r wybodaeth hon mewn adroddiadau dirprwyedig ac adroddiadau pwyllgorau ac yng nghofnodion y Pwyllgor Cynllunio.

### **Ynni**

- 1.38 Er mwyn cysylltu datblygiad fferm wynt Ardal Chwilio Strategol D â'r Grid Cenedlaethol, mae angen gosod llinellau pŵer newydd yn Awdurdod Lleol cyfagos Powys. Mae Awdurdod Cynllunio Lleol Powys wedi gwrthod 5 fferm wynt a fyddai wedi arwain at greu'r llinellau pŵer newydd. Mae rhai o'r cynlluniau hyn a wrthodwyd yn destun ymchwiliad cyhoeddus ar hyn o bryd a

hyd nes y bydd canlyniad yr ymchwiliad yn hysbys ac, yn ôl y datblygwyr sydd am fwrw ymlaen ag SSA D, hyd nes y bydd dyfodol ynni adnewyddadwy'n gliriach yng Nghymru, mae rhagor o fuddsoddi yn SSA D wedi cael ei atal. Mae hyn y tu allan i reolaeth ALI Ceredigion.

## **Amgylcheddol Strategol/Arfarniadau o Gynaliadwyedd**

### **Monitro Asesiadau**

- 1.39 Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (2001/42/EC) yn ei gwneud yn ofynnol i ALLau gyflawni Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLI. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) gael ei gyflawni. Wrth baratoi'r CDLI cyflawnodd y Cyngor AG ac AAS ar y cyd, a chynhyrchodd a chyhoeddodd ei adroddiad AG/AAS ar y cyd gyda'r CDLI. Mae'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fonitro cyflwr yr amgylchedd trwy fonitro'r amcanion cynaliadwyedd a nodir yn yr Adroddiad AG/AAS. Mae hyn yn rhan annatod o'r AMB ac fe'i ceir yn Adran 5. Y casgliad yw bod gwaith monitro AAS/AG yn dangos newid cadarnhaol yn yr amgylchedd hyd yma yng nghyfnod y cynllun.

### **Casgliad ac Argymhellion**

- 1.40 Mae'r AMB ar gyfer 2014/15 yn nodi nifer o faterion y bydd angen i'r ALI barhau i'w monitro'n agos, materion y bydd angen eu hystyried eto yn AMB y flwyddyn nesaf, a materion sydd ar y gorwel y mae'n eithaf tebygol y byddant yn creu angen am newidiadau i'r cynllun yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r AMB hwn yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun y mae angen eu hystyried ar hyn o bryd.

### 2. Cyflwyniad

- 2.0 Yn 2004 cyflwynodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth newydd<sup>1</sup> a newidiodd y ffordd mae Cynghorau'n cynllunio ar gyfer anghenion eu cymunedau o ran datblygu yn y dyfodol. Mae'r deddfwriaeth newydd hon yn gosod dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol (ALI) yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i'w ardal.
- 2.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Ceredigion ar 25 Ebrill 2013.
- 2.2 O dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae dyletswydd ar bob Cyngor i gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar y CDLI y mae'n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn.
- 2.3 Yr adroddiad hwn yw'r ail AMB ar CDLI Cyngor Sir Ceredigion ac mae'n ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015 ac yn cyfeirio at rannau cynharach o gyfnod y cynllun, lle bo angen gwneud hynny oherwydd y dangosyddion. Mae dwy brif rôl gan yr Adroddiad - y gyntaf yw ystyried a yw'r polisiau a nodir yn y fframwaith monitro'n cael eu gweithredu, a'r ail yw ystyried a yw'r cynllun yn gyfan yn gweithio'n llwyddiannus ac os nad ydyw, a oes angen adolygiad rhannol neu lawn. Ystyriwyd a chymeradwywyd yr AMB gan y Cabinet, yn ogystal â'r Cyngor y naill ar yr 20<sup>fed</sup> a'r llall ar yr 22<sup>ain</sup> o Hydref 2015.

#### Y gofyniad i fonitro CDLI

- 2.4 Er mwyn monitro'r perfformiad mewn modd cyson, mae angen i'r cynllun gael ei ystyried yn ôl set safonol o dargedau a dangosyddion monitro. Mae'r fframwaith ar gyfer yr AMB hwn yn rhan o'r CDLI mabwysiedig ac felly bu'n destun archwiliad yn ystod Ymchwiliad y CDLI ynghyd â phob rhan arall o'r cynllun. Felly mae fframwaith yr AMB yn orfodol. Mae Adran 9 ac Atodiad 3 o Gyfrol 1 o'r CDLI yn nodi'r targedau a dangosyddion monitro a gaiff eu defnyddio fel sail i'r AMB hwn ac yn adlewyrchu'r wybodaeth mae'n ofynnol ei chynnwys mewn AMB o dan Reoliad CDLI 37. Yn y cyd-destun hwn, mae'n ofynnol i'r AMB:

- Enwi polisiau nad ydynt yn cael eu gweithredu, ac ar gyfer pob polisi o'r fath:
- nodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi hwnnw yn cael ei weithredu;
- nodi'r camau y gellir eu cymryd i'w wneud yn bosibl gweithredu'r polisi hwnnw; ac
- edrych a oes angen diwygiad i'r cynllun.
- Pennu'r cyflenwad o dir tai o'r Adroddiad Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar gyfer y flwyddyn honno, ac ar gyfer y cyfnod llawn ers mabwysiadu'r cynllun; a
- Phennu'r nifer o anheddau fforddiadwy ychwanegol net ac anheddau'r farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr Awdurdod

<sup>1</sup> Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

Cynllunio Lleol ar gyfer y flwyddyn honno, ac ar gyfer y cyfnod llawn ers mabwysiadu'r Cynllun.

2.5 Mae'r Llawlyfr CDLI yn ategu'r gofyniad uchod trwy nodi ffactorau ychwanegol a ddylai gael eu hasesu yn yr AMB (gweler Adran 6, Casgliadau, i gael y canlyniadau), sef:

- A yw'r strategaeth sylfaenol yn dal i fod yn gadarn (os nad ydyw, efallai y bydd angen adolygiad llawn o'r cynllun);
- Pa effaith mae'r polisiau'n eu cael yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol;
- A oes angen newid y polisiau i adlewyrchu newidiadau mewn polisiau cenedlaethol;
- A yw polisiau a thargedau cysylltiedig yn y CDLI wedi cael eu cyflawni neu a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at eu cyflawni, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau cynllunio atodol perthnasol;
- Os nad oes cynnydd wedi cael ei wneud, y rhesymau dros hyn a pha effeithiau canlyniadol y gall eu cael;
- Pa agweddau, os o gwbl, o'r CDLI mae angen eu haddasu, neu gyflwyno rhai newydd yn eu lle, oherwydd nad ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd neu nad ydynt yn cyflawni amcanion y strategaeth a/neu amcanion datblygu cynaliadwy; ac
- Os oes angen newid polisiau neu gynigion, beth yw'r camau gweithredu yr awgrymir y mae eu hangen i wneud hyn.

### **Y gofyniad i fonitro Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad o Gynaliadwyedd**

2.6 Mae monitro'r CDLI hefyd yn cyd-fynd â'r gofynion i fonitro perfformiad y cynllun o ran cynaliadwyedd trwy'r Asesiad Amgylcheddol Strategol / Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS/AG). Mae gorgyffwrdd rhwng y wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer gwaith monitro AAS/AG a'r wybodaeth a ddefnyddir i fonitro'r cynllun yn uniongyrchol. Felly mae'r AMB hwn hefyd yn cynnwys canlyniadau gwaith monitro'r AG/AAS ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.

### **Asesiad a Chasgliadau**

2.7 Fel y nodwyd uchod mae gan yr AMB ddwy brif rôl; yn gyntaf ystyried a yw'r polisiau a nodir yn y broses monitro'n cael eu gweithredu, ac yn ail ystyried y cynllun yn gyfan yn ôl yr holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn penderfynu a oes angen adolygiad rhannol neu llawn o'r cynllun.

2.8 Dylid nodi, er bod cryn dipyn o wybodaeth ystadegol yn cael ei chasglu a'i defnyddio yn y broses monitro, fod yn rhaid cymedroli'r wybodaeth a geir trwy'r broses hon gan arfer barn a chrebwyll trwy ystyried yn llawn y polisiau a'r materion a godir. Byddai'n amhriodol i'r wybodaeth ystadegol lywio, ar ei phen ei hun ac yn uniongyrchol, pa bryd y mae angen diwygio polisiau, neu'r cynllun yn gyfan. Ymagwedd fwy pwylllog ac ystyriol, sy'n cymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth ac ar yr un pryd yn cydnabod canfyddiadau'r wybodaeth monitro, yw'r ffordd orau o sicrhau y caiff y cynllun ei fonitro'n effeithiol.

2.9 Felly mae'n rhaid i'r AMB nodi ei ganfyddiadau'n benodol ac yn uniongyrchol. Os canfyddir bod polisiâu'n methu, caiff argymhellion clir ar yr hyn mae angen ei wneud i fynd i'r afael â hyn eu nodi yn Adran 6 o'r Adroddiad.

### **Fformat yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

2.10 Yr AMB yw'r brif ffordd o adolygu pa mor berthnasol a llwyddiannus yw'r CDLI ac o nodi unrhyw newidiadau y mae eu hangen. Prif swyddogaeth y broses monitro yw canfod pryd y dylid diwygio'r CDLI. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon mae angen i'r AMB ganolbwyntio ar bethau penodol yn hytrach na bod yn gasgliad cynhwysfawr o ystadegau yn unig.

2.11 Mae'n anochel bod y broses monitro'n golygu casglu a dehongli llawer iawn o wybodaeth. Byddai cynnwys yr wybodaeth hon, megis cofnodion cronfeydd data a thablau GIS, yn yr AMB yn arwain at adroddiad a fyddai'n rhy hir ac yn anodd ei ddefnyddio. O'r herwydd, ni fydd y dadansoddiad data sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer yr AMB i'w weld yn yr adroddiad ei hun.

2.12 Mae fformat yr AMB fel a ganlyn:

- Crynodeb Gweithredol: Crynodeb ysgrifenedig byr o'r prif ganfyddiadau.
- Cyflwyniad: Cyflwyniad i'r AMB ac esboniad ohono (yr adran hon).
- Newidiadau yn y Cyd-destun: Disgrifiad ysgrifenedig o unrhyw newidiadau yn yr amgylchiadau y tu allan i gylch gwaith y cynllun a allai effeithio ar berfformiad y fframwaith polisi.
- Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol: Canfyddiadau Fframwaith Monitro'r CDLI.
- Fframwaith Monitro Dangosyddion AAS/AG: Canfyddiadau Fframwaith Monitro'r AAS/AG.
- Casgliadau ac Argymhellion: Prif ganfyddiadau fframweithiau monitro'r CDLI a'r AAS/AG a datganiad o'r camau gweithredu y bydd angen eu cymryd mewn perthynas â chanfyddiadau'r gwaith monitro, gan gynnwys datganiad ynghylch a oes angen addasu unrhyw bolisiâu a/neu a oes angen unrhyw ddiwygiadau eraill i'r cynllun.



### 3. Newidiadau yn y Cyd-destun

3.1 Mae'n bwysig bod asesiad ynghylch a oes angen adolygiad yn cael ei lywio'n llawn gan ddealltwriaeth o'r ffordd mae ffactorau allanol yn dylanwadu ar bolisiâu yn y CDLI. Trwy geisio deall sut y mae ffactorau allanol wedi effeithio, neu sut y gallent effeithio, ar y ffordd y cyflawnir y CDLI, bydd y Cyngor yn deall yn well beth all ei wneud i hwyluso'r gwaith o weithredu'r cynllun.

3.2 Felly mae'r adran ganlynol yn edrych ar y ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu, neu a allai ddylanwadu, ar y ffordd y gweithredir y CDLI, gan ganolbwyntio ar bolisiâu/deddfwriaeth genedlaethol, amgylchiadau allanol ac ystyriaethau lleol.

#### **Polisiâu a deddfwriaeth cenedlaethol:**

3.3 Er mwyn sicrhau bod y CDLI mabwysiedig yn aros yn gyson â pholisiâu a chanllawiau cenedlaethol, mae angen ystyried arwyddocâd canllawiau neu ddeddfwriaeth newydd yn nhermau'r CDLI mabwysiedig.

3.4 Bydd rhan gyntaf yr adran hon yn nodi'r ddeddfwriaeth a chanllawiau newydd sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 gan roi crynodeb o'r prif newidiadau ac asesu pa mor arwyddocaol yw'r newidiadau yn nhermau'r CDLI. Cyfeirir hefyd at unrhyw beth a gyhoeddwyd ar ôl 31 Mawrth 2015 - fodd bynnag, bydd eu dylanwad/effaith yn berthnasol i 2015/16 ac felly cânt eu hasesu yn yr AMB nesaf (2015/16).

3.5 Diweddariad Bil Cynllunio (Cymru). Mae'r Bil Cynllunio yn cyflwyno gofyniad i roi: Rhoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn ei le erbyn y Gwanwyn 2018.

#### **Rhoi Cynlluniau Datblygu Strategol yn eu lle erbyn y Gwanwyn 2017.**

3.6 Bydd rhaid i Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol ystyried goblygiadau'r FfDC a Chynlluniau Datblygu Strategol (os ydynt yn berthnasol i Geredigion) ar gyfer CDLI Ceredigion ac efallai y bydd rhaid gwneud newidiadau i'r CDLI er mwyn iddynt gyd-fynd â'i gilydd. Mae'r Bil Cynllunio hefyd yn rhoi pŵer i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd. Mae Asesiadau Cymraeg yn ofynnol i ffurfio rhan o'r asesiad ffurfiol o'r CDLI wrth ei baratoi trwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, gofyniad sydd eisoes wedi cael ei gyflawni trwy baratoi CDLI Ceredigion. Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno dyddiad terfyn pendant i gymhwyso'r CDLI. Cafodd y Bil Cynllunio gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015 a ddaeth yn Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Rydym yn aros am is-ddeddfwriaeth a chanllawiau er mwyn gweithredu'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf a allai olygu bod angen gwneud newidiadau'r i'r CDLI.

3.7 Mae'r Bil Treftadaeth, Bil yr Amgylchedd, Bil Rhentu Tai a'r Bil Llywodraeth Leol i gyd wedi cael eu cyflwyno. Caiff unrhyw oblygiadau ar gyfer y CDLI eu hystyried maes o law pan gânt gydsyniad Brenhinol a phan fydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau wedi'u cyhoeddi.

### **Polisi Cynllunio Cymru (7<sup>fed</sup> Argraffiad, Gorffennaf 2014)**

3.8 Diwygiwyd y 7<sup>fed</sup> argraffiad o Bolisi Cynllunio Cymru o ganlyniad i newidiadau mewn deddfwriaeth gysylltiedig a oedd ynddynt eu hunain yn galw am ddiweddariad i Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Gorffennaf ac a arweiniodd at hynny. Roedd y newidiadau hynny i Bolisi Cynllunio Cymru'n ganlyniad i'r canlynol ac wedi arwain at y canlynol:

- **Llythyr Egluro Polisi CL-03-14, Cynllunio Adeiladau Cynaliadwy:** Mae'r newid hwn mewn ymateb i newidiadau i Ran 1 (yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni) y Rheoliadau Adeiladu
- Y newidiadau i **Ran L (yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni) Rheoliadau Adeiladu** sy'n dod i rym; mae'r gofyniad polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer adeiladau cynaliadwy wedi cael ei dynnu'n ôl.
- Canslo **Nodyn Cyngor Technegol 22: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy**. Cafodd ei ganslo oherwydd y newidiadau a wnaed o fewn Rhan L o'r Rheoliad Adeiladu.
- Newidiadau i **Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio**, i gynnwys elfennau allweddol o'r canllawiau ar adeiladau cynaliadwy wedi'u cynnwys o fewn TAN 22. Yn arbennig, gwybodaeth ar yr hierarchaidd ynni, atebion a ganiateir, a pholisïau adeiladau cynaliadwy ar safleoedd strategol mewn cynlluniau datblygu lleol.
- Oherwydd y newid i'r uchod, rhyddhawyd y **Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy** i ddarparu cyngor i ddatblygwyr ar integreiddio egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy i'w cynigion ac i awdurdodau cynllunio lleol ar asesu safleoedd strategol cynllun datblygu lleol.

### **Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015)**

3.9 Pwrpas y Nodyn Cyngor Technegol hwn yw darparu arweiniad ar baratoi Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mae'r newidiadau i'r TAN hwn yn effeithio'n bennaf ar amserlen yr astudiaeth a sut mae cyflenwad tir ar gyfer tai yn cael ei gyfrifo. Mae cyfnod paratoi'r astudiaeth wedi cael ei leihau i 8 mis er mwyn sicrhau y gellir casglu'r wybodaeth fwyaf diweddar a'i chyflwyno ar gyfer CMB y CDLI. Bydd y dull o gyfrifo cyflenwad tir ar gyfer tai wedi'i gyfyngu i'r dull gweddilliol, ac ni fydd defnyddio hen gyfraddau yn dderbyniol mwyach.

3.10 Mae'r prif oblygiadau ar gyfer CDLI Ceredigion yn ymwneud â'r newid i'r dull o gyfrifo cyflenwad tir ar gyfer tai.

### **Nodyn Cyngor Technegol 15: Mapiau Cyngor Datblygu a Chymeradwyo Cynllun Rheoli Traethlin (Ionawr 2015)**

3.11 Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu (MCDau) yn y ddogfen hon wedi cael eu diweddarau i gynnwys yr wybodaeth a'r data diweddaraf ar gyfer parthau llifogydd a rheoli'r arfordir.

3.12 Cafodd y CDLI ei greu gan wybod yn iawn bod angen diweddarau'r TAN 15 gwreiddiol (2013) ac felly rhagwelwyd llawer o'r hyn sydd yn y TAN newydd wrth baratoi'r CDLI. Felly mae'r CDLI yn gyson iawn â'r Mapiau Cyngor Datblygu o fewn TAN15 ac mae ei ofynion ar Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael eu bodloni. Mae'r MCDau diwygiedig wedi'u cynnwys yn ein gwiriwr cyfyngiadau ceisiadau cynllunio a ddefnyddir gan y tîm rheoli datblygu.

### **Rhan 24 'Datblygu gan Weithredwyr Cod Electronig'**

Mae'r Diwygiad yn newid Rhan 24 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir.

3.13 Prif effeithiau'r Diwygiad ac felly'r prif oblygiadau ar gyfer y CDLI yw:

- Hawliau datblygu a ganiateir mwy hyblyg ar gyfer Gweithredwyr Cod Cyfathrebu Electronig mewn perthynas â hwyluso cyflwyno Band Eang ar dir Erthygl 1(5). Mae hyn yn dileu'r broses hysbysu flaenorol ar gyfer offer band eang, e.e. blychau, polion a llinellau band eang, o fewn y 13 Ardaloedd Cadwraeth yng Ngheredigion.

3.14 Nid yw'r diwygiadau hyn yn newid y ffordd mae polisïau'r CDLI yn gweithredu. Fodd bynnag, maent yn golygu na fydd rhai datblygiadau'n ddarostyngedig i bolisïau'r CDLI mwyach. Gan fod y diwygiadau'n cyflwyno, i bob pwrpas, hawddfaint o'r hawliau datblygu a ganiateir ac nad oes gan y mathau o ddatblygiadau a nodir unrhyw oblygiadau sy'n ymwneud â chyflawni gweledigaeth, nodau ac amcanion y CDLI na'i strategaeth, effaith fach iawn (os o gwbl) mae'r Diwygiad yn ei chael mewn perthynas â'r ffordd y gweithredir y CDLI.

### **Deddf Tai (Cymru) 2014**

3.15 Y darn hwn o ddeddfwriaeth yw'r ddeddf tai gyntaf erioed yng Nghymru ac mae'n ceisio gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru. Prif elfennau'r ddeddf yw;

- cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid sector rhentu preifat ac asiantau gosod a rheoli tai
- Diwygio cyfraith digartrefedd, gan gynnwys rhoi mwy o ddyletswydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a chaniatáu iddynt ddefnyddiol llety addas yn y sector preifat;
- Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr os yw angen wedi'i nodi;
- Cyflwyno safonau ar gyfer awdurdodau lleol ar renti, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety;
- Diwygio'r system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai;
- Rhoi pŵer i awdurdodau lleol godi mwy na'r gyfradd safonol o'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor a rhai mathau o ail gartrefi;
- Cynorthwyo'r ddarpariaeth o dai gan Gymdeithasau Tai Cydweithredol;
- Diwygio'r Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993.

- 3.16 Mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn cefnogi polisïau CDLI Ceredigion o ddarparu mwy o gartrefi o ansawdd gwell sy'n bodloni anghenion poblogaeth Ceredigion. Nid yw unrhyw newidiadau i'r CDLI yn ofynnol ar hyn o bryd.

### **Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013**

- 3.17 Mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth yn diweddarau cyfraith sydd eisoes yn bod a gafodd ei chyflwyno'n wreiddiol yn y 1960au ar gyfer cartrefi symudol preswyl. Daeth y ddeddf i rym ar 1 Hydref 2014 a'i bwriad yw helpu i wella dulliau rheoli'r diwydiant er mwyn i gyflwr safleoedd cartrefi symudol wella a diogelu hawliau preswylwyr yn well. Prif nodweddion y ddeddf newydd yw:

- Mae'n ofynnol i berchnogion safle wneud cais am drwydded gan eu hawdurdod lleol i weithredu safle. Bydd y drwydded yn para hyd at 5 mlynedd;
- Bydd rhaid i reolwyr safle basio prawf 'person addas a phriodol' cyn cael trwydded;
- Ni fydd perchnogion safle yn gallu blocio gwerthu cartref symudol mwyach. Bydd perchennog y cartref symudol yn rhydd i werthu ei gartref i bwy bynnag y dymunir;
- Bydd awdurdodau lleol yn gallu archwilio safleoedd a rhoi hysbysiadau cosb benodedig i berchnogion safle os nad yw cyflwr y safle yn cael ei gadw'n briodol;
- Mewn achosion mwy difrifol, bydd awdurdodau lleol yn gallu rhoi hysbysiad cydymffurfio i berchnogion safle i sicrhau bod cyflwr y safle yn cael ei gynnal;
- Gall ffioedd llain gael eu cynyddu dim ond yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr;
- Bydd perchnogion safle a phreswylwyr yn gallu apelio i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl mewn rhai achosion.

- 3.18 Nid yw unrhyw newidiadau i'r CDLI yn ofynnol gan y Ddeddf ar hyn o bryd.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

- 3.19 Erbyn hyn mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob prosiect, polisi a chynllun ystyried pedair colofn o gynaliadwyedd: Un o'r colofnau hynny yw'r amgylchedd, ac yn fwy penodol, ecosystemau. Mae hyn yn atgyfnerthu'r polisïau o fewn y CDLI ac nid yw unrhyw newidiadau i'r CDLI yn ofynnol ar hyn o bryd.

### **Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015**

- 3.20 O 16 Chwefror 2015 mae'n rhaid i geisiadau cynllunio ar gyfer fforio, arfarnu neu echdynnu olew a nwy anghonfensiynol a fyddai'n defnyddio technegau anghonfensiynol (gan gynnwys ffracio hydraulig) gael eu cyfeirio at Weinidogion Cymru, os yw awdurdodau cynllunio lleol o blaid eu cymeradwyo. Er mewn egwyddor y gallai cerrig llaid Palalosöig Isaf Ceredigion gynnwys ychydig o nwy siâl, credir yn gyffredinol bod cerrig o'r oes honno yn llawer llai tebygol o gynnwys meintiau masnachol na chreigiau o'r oes Carbonifferaidd a Phermaidd. Lleolir Ceredigion ymhell y tu allan i unrhyw ardal a gwmpesir gan unrhyw floc trwyddedu olew a nwy presennol neu arfaethedig, felly mae'r

awdurdod yn annhebygol iawn o gael ei effeithio gan y Cyfarwyddyd hwn, ac nid yw unrhyw newidiadau i Bolisiâu'r CDLI yn ofynnol.

**Datganiad Ysgrifenedig - Cyhoeddi 'Astudiaeth o adnodd nwy anghonfensiynol posibl yng Nghymru' (Daeareg a Geoffiseg Rhanbarthol: Adroddiad wedi'i Gomisiynu CR/13/142)**

- 3.21 Mae'r astudiaeth, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflawnwyd gan Gymdeithas Ddaearegol Prydain, yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r holl wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar yr adnodd, ar y môr ac ar y tir. Mae'r Adroddiad yn cydnabod bod prinder data ar nwy siâl yng Nghymru, a bod y diddordeb yng Nghymru wedi canolbwyntio ar y sialau Carbonifferaidd canol o dan strata meysydd glo gogledd a de Cymru. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod posibilrwydd y gallai'r creigiau Palalosöig Is llawer hynach yng Nghymru a chanol Lloegr gynnwys nwy siâl (er bod hyn heb gael ei gadarnhau oherwydd ni chafodd ei werthuso'n llawn eto gan gwmnïau fforio neu Gymdeithas Ddaearegol Prydain). Mae creigiau Palalosöig Is yn bodoli ar lefel wyneb y tir yng Ngheredigion, ond maent hefyd yn debygol o fod yn bresennol yn ddwfn yn y tir ar draws Cymru gyfan. Ni ddangoswyd unrhyw ddiddordeb masnachol yn y creigiau Paleosöig Is hyn, ac ni ragwelir y bydd hynny'n digwydd yn y dyfodol agos. Nid yw unrhyw newidiadau i Bolisiâu'r CDLI yn ofynnol.

**CL-04-14 Llythyr Egluro ar y polisiâu cynllunio cenedlaethol o ran datblygiadau nwy ac olew anghonfensiynol ar y tir**

- 3.22 Mae hwn yn amlinellu bod echdynnu nwy ac olew boed trwy ddulliau confensiynol neu anghonfensiynol (h.y. ffracio hydraulig) wedi'i ddosbarthu fel datblygu mwynau. Felly mae'r llythyr yn egluro bod yr ystyriaethau polisi cyffredinol a nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru yn gymwys wrth ystyried ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru yn darparu polisi cenedlaethol sy'n drech na'r CDLI. Nid yw'r CDLI yn ailadrodd Polisi Cenedlaethol. Nid yw'r nodyn egluro hwn yn arwain at angen am unrhyw newid i bolisiâu Mwynau'r CDLI neu unrhyw newidiadau eraill i'r CDLI.

**CL-05-14 Llythyr Egluro'r Polisiâu yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN 1)**

- 3.23 Mae'r llythyr Egluro Polisi hwn yn cymeradwyo Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) ac yn cefnogi'r ymagwedd a fabwysiadir yn yr Adolygiad o ran cyfrifo'r banc tir at ddibenion proses ddosrannu'r DTRh. Nid yw unrhyw newidiadau i Bolisiâu'r CDLI yn ofynnol. Mae'r newidiadau a ddisgrifir yn deillio o'r Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi'u disgrifio'n llawn yn y dadansoddiad ar gyfer dangosydd CDLI AMRQ10: Agregau.

**Canllaw ymarferol ar gynllunio a'r Gymraeg (Mehfin 2014) - mae'n cyd-fynd â TAN20: Cynllunio a'r Gymraeg, Hydref 2013,**

- 3.24 ac mae'n amlinellu sut y dylai materion Cymraeg gael eu hystyried wrth baratoi, monitro ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r canllaw yn cynghori y dylai ystyriaethau Cymraeg gael eu cynnwys yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r CDLI, ac mae'n awgrymu rhestr o'r data perthnasol posibl a allai ffurfio sylfaen o dystiolaeth ar y Gymraeg mewn ardal gynllun. Cafodd CDLI Ceredigion ei

asesu wrth iddo gael ei baratoi trwy'r broses Asesiad o Gynaliadwyedd yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y canllaw hwn.

### **Casgliadau mewn perthynas â Pholisïau/Deddfwriaeth Cenedlaethol**

3.25 Nid yw'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod monitro'r AMB hwn wedi arwain at unrhyw newidiadau arwyddocaol yng nghyd-destun y cynllun. O ganlyniad nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu mewn perthynas â'r CDLI.

3.26 Mae rhai o'r dogfennau sydd wedi cael eu cyhoeddi ers 1 Ebrill 2015 yn cynnwys y canlynol, a chânt eu hasesu o ran eu heffeithiau posibl yn AMB y flwyddyn nesaf (2015/16):

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Bil yr Amgylchedd Hanesyddol, camau 1 & 2
- Diwygiadau i'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a llawlyfr y CDLI
- Diwygiadau i Reoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol a Gorchmynion Datblygu Lleol
- Is-ddeddfwriaeth i Reoli Datblygu (papur ymgynghorol ar hyn o bryd)
- Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth ar gyfer datblygu rheoli yn cwmpasu Ymgylchoreion Statudol, Datganiadau Dylunio a Mynediad a Thai Amlfeddiannaeth (papur ymgynghorol ar hyn o bryd)
- Strategaeth Ddŵr Cymru, Mai 2015
- Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni Cymru
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

### **Amgylchiadau allanol - y cyd-destun cenedlaethol**

3.27 Mae Cymru'n un o'r llu o genhedloedd y mae'r dirwasgiad economaidd byd-eang wedi effeithio arnynt ac mae hyn i'w weld mewn llawer o feysydd, yn fwyaf nodedig yn y marchnadoedd ariannol, busnes, masnachol ac eiddo. Mae Cymru'n dal i fynd trwy ad-drefnu maith a graddol o ran yr economi ac mae'n debygol y bydd yn cymryd yn hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol i gyrraedd y lefelau twf a ddisgwyliwyd ar ddechrau cyfnod y cynllun.

3.28 Mae dau sector o economi Cymru sy'n arbennig o berthnasol i'r CDLI. Sef y farchnad dai a'r farchnad fasnachol, y maent ill dwy'n hanfodol i'r ddarpariaeth o eiddo masnachol a thai ar lawr gwlad. Mae'r sectorau hyn yn hanfodol i sicrhau y gall pobl gael cartrefi a swyddi.

### **Tai**

3.29 Mae ystadegau Llywodraeth Cymru'n dangos bod nifer yr unedau tai a ddechreuwyd ac a gwblhawyd yng Nghymru'n gymharol sefydlog cyn y cwmpas yn 2007-08. Roedd rhwng naw a deg mil o gartrefi yn cael eu dechrau ac oddeutu wyth mil yn cael eu cwblhau bob blwyddyn. Fodd bynnag, wrth i'r dirwasgiad economaidd daro Cymru gostyngodd nifer yr unedau a ddechreuwyd yn fawr ac yn sydyn, gan gyrraedd nifer ddigynsail o fach yn 2008-09, sef 4,910.

- 3.30 Rhwng 2008-09 a 2010-11 bu cynnydd graddol yn nifer yr unedau a ddechreuwyd bob blwyddyn yng Nghymru. Dros y tair blynedd diwethaf bu cynnydd cyson yn nifer yr anheddau newydd a ddechreuodd yng Nghymru. Yn ystod 2014-15 dechreuwyd cyfanswm o 6,955 o anheddau newydd, cynnydd o 20 y cant ers y flwyddyn flaenorol, a'r nifer blynyddol uchaf a gofnodwyd ers 2007-08.
- 3.31 Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod oediad fel arfer rhwng dechrau a chwblhau unedau oherwydd yr amser a gymerir i orffen adeiladu cartref, felly dylai'r cynnydd yn nifer yr unedau a ddechreuwyd arwain at gynnydd yn nifer yr unedau a gwblheir ym mlynnyddoedd y dyfodol. Yn dilyn gostyngiad yn ystod 2012-13, mae nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd wedi cynyddu eto dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod 2014-15 cwblhawyd 6,170 o anheddau newydd yng Nghymru, sef 6 y cant yn fwy nag yn ystod 2013-14 ond mae hyn yn parhau'n is na'r lefelau blynyddol a welwyd cyn y dirywiad economaidd.

### **Economi**

- 3.32 Yn Ionawr - Mawrth 2015, mae Arolwg o'r Llafurlu yn dangos bod yna oddeutu 1.382 miliwn o bobl mewn swyddi yng Nghymru, sy'n uwch na'r nifer yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn gynt, sef 1.373 miliwn o bobl. Mae hyn yn cynrychioli 69.4% o bobl 16-64 oed yn 2015.  
(<https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/por/2013265930/report.aspx?#tabnrhi>).
- 3.33 Roedd yna 486,000 o bobl oedd yn economaidd anweithgar yng Nghymru rhwng Ionawr a Mawrth 2015, sy'n uwch na'r ffigur ar gyfer y flwyddyn gynt, sef 468,000. Mae hyn yn 25.4% o'r bobl 16-64 oed yn 2015, sy'n uwch na'r ffigur yn 2014, sef 24.8%.
- 3.34 Yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer swyddi'r gweithlu yn ôl diwydiant (SIC 2007) - wedi'u haddasu yn ôl swyddi tymhorol, y sector cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru. Roedd 446,000 o bobl (31.2% o'r gweithlu) yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus (a ddiffinnir fel gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn, addysg, iechyd dynol a gwaith cymdeithasol). Manwerthu (a ddiffinnir fel masnach, cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau) yw'r cyflogwr mwyaf yn y sector preifat yng Nghymru, gan gyflogi 209,000 o bobl (14.6% o'r gweithlu).
- 3.35 Yn ôl Ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth gweithle yn ôl diwydiant yng Nghymru, 2001 i 2003, wrth gymharu strwythur diwydiannol Cymru â strwythur diwydiannol y DU, roedd cyfran uwch o gyflogaeth yng Nghymru ym maes gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd (sy'n wahanol i'r sector cyhoeddus); cyfran uwch yn y diwydiannu cynhyrchu ac amaethyddiaeth; a chyfran is mewn gweithgareddau cyllid a busnes.
- 3.36 Mae manwerthu ar gyrion trefi'n dal i dyfu ledled Cymru, yn bennaf oherwydd y ddirnadaeth o fynediad a pharcio haws, gwell cyfleustra, prisiau cystadleuol a diogelwch mae'r safleoedd yn eu cynnig.

- 3.37 Mae niferoedd ymwelwyr a chyfraddau siopau gwag ledled Cymru wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yn 2011, ac ar yr un adeg aeth canran y siopau gwag uwchben 13%. Ers hynny, gwelwyd cynnydd sylweddol, uwch na'r hyn a gafwyd ledled y Deyrnas Unedig.
- 3.38 Fel y nodir uchod, mae'r economi yng Nghymru'n dibynnu'n fawr ar y sector cyhoeddus ac mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn a manwerthu. Bydd toriadau gan y llywodraeth a cholli swyddi yn y sector cyhoeddus o ganlyniad yn cyfyngu'n sylweddol ar dwf. Yn ôl ystadegau 2001-2013 cyflogaeth yn y gweithle yn ôl diwydiant yng Nghymru, mae economi Ceredigion yn dibynnu'n fawr ar y sector cyhoeddus; mae 34% o'i gweithlu'n cael ei chyflogi yn y sector. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd yng Nghymru o 31% a chyfartaledd yn y Deyrnas Unedig o 26%. Felly mae'n agored iawn i effeithiau toriadau yn y sector cyhoeddus, a fyddai'n effeithio ar agweddau eraill ar yr economi.
- 3.39 Mae'r Asesiad Anghenion Economaidd (DTZ, 2010) sy'n sail i'r CDLI yn nodi y dylid darparu cyfleoedd ar gyfer o leiaf 4,000 o swyddi ychwanegol yn economi Ceredigion. Dylid nodi bod llawer o'r dadansoddiad hwn wedi cael ei wneud yn nyddiau cynnar y dirwasgiad economaidd, felly mae'n bosibl na chymerodd i ystyriaeth pa mor ddwfn a hirfaith y bu'r dirwasgiad. Mae'n bosibl y bydd rhagor o doriadau mewn gwariant cyhoeddus yn peryglu gwireddu'r amcanestyniadau hyn yn fwy byth, yn enwedig yn y sectorau hynny sy'n dibynnu'n fawr ar gaffael newyddau neu wasanaethau gan y Cyngor er mwyn talu'r ffordd.
- 3.40 Bydd darparu'r swyddi hyn yn cael effaith ar gyflenwi'r tir cyflogaeth a neilltuwyd, oherwydd os na chaiff y 4,000 o swyddi eu creu, ni fydd galw i ddatblygu'r tir a neilltuwyd i ddarparu 27% o'r swyddi hyn.

### **Amgylchiadau allanol - y cyd-destun rhanbarthol**

- 3.41 Ar ddiwedd 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nifer o ddogfennau oedd yn nodi'r newidiadau posibl y mae eu hangen i'r system gynllunio yng Nghymru. Roedd rhai camau gweithredu i gael eu cyflawni trwy ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes ac roedd eraill i'w cyflawni trwy'r Ddeddf Cynllunio newydd i Gymru. Wrth i'r Ddeddf Cynllunio, ac yn wir newidiadau eraill, gael eu cyflwyno bydd angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried sut, os o gwbl, y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar Geredigion. Er enghraifft, ar sail geiriad presennol y dogfennau hyn mae'n annhebygol y bydd y gofyniad arfaethedig i gael fframwaith statudol ar gyfer cynllunio rhanbarthol (Cynlluniau Strategol) yn cynnwys pob ALI a bod Ceredigion yn annhebygol o gael ei chynnwys yn un o'r Cynlluniau Datblygu Strategol rhanbarthol newydd hyn. Pe bai'n cael ei chynnwys, fodd bynnag, byddai gan hyn oblygiadau ymhellach i'r dyfodol o ran materion fel nifer tai, seilwaith trafndiaeth a safleoedd cyflogaeth strategol - a allai gael eu pennu ar lefel rhanbarthol yn hytrach nag ar lefel lleol, ac a fyddai felly'n eistedd uwchben cynllun datblygu lleol ac yn dylanwadu ar gynnwys y CDLI. Un o'r newidiadau arfaethedig a fydd, fodd bynnag, yn effeithio ar y CDLI yw cyflwyno set genedlaethol o bolisiâu rheoli datblygu a allai ymdrin â materion fel draenio tir, bioamrywiaeth, perygl llifogydd ac ati. Y newid allweddol arall yw y bydd dyddiadau terfyn penodol gan Gynlluniau Datblygu



Lleol - er mwyn annog ALLau i sicrhau eu bod yn diweddarau eu cynlluniau ac yn eu hadolygu a'u newid fel y bo angen.

- 3.42 Cytunodd Aelodau Etholedig yr Awdurdod Lleol oedd ar fwrdd TraCC ym mis Mehefin 2014 i barhau â Chydbwyllgor TraCC am 12 mis arall er mwyn cwblhau'r gofynion archwilio oedd yn gysylltiedig â'r cyllid grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013/14, ac i gyd-gynhyrchu ei Gynllun Trafnidiaeth Lleol 5 mlynedd nesaf sydd i fod yn weithredol o fis Ebrill 2015 ymlaen. Cymeradwywyd Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd Canolbarth Cymru (CTLI) 2015 gan Lywodraeth Cymru ar 20 Mai 2015. Mae'r cynllun yn cynnwys rhaglen 5 mlynedd yn cwmpasu'r cyfnod 2015-2020.
- 3.43 Mae CTLI TraCC yn ceisio cyflwyno prosiectau trafndiaeth integredig yng Ngheredigion, trwy Ardal Aberystwyth, Prosiect Teithio Llesol Lleol, Parcio a Theithio Aberystwyth, Cynllun Troetffordd Pontarfynach Cam 3, Bwcabus a'r prosiect gwella trafndiaeth gymunedol, yn ogystal â nifer o gynlluniau i wella ac estyn llwybrau beicio. Canolbwyntiodd y gwaith Datblygu a Rheoli Rhaglenni ar ddatblygu polisïau a rhaglenni gan gynnwys Strategaeth Reilffyrdd TraCC, Strategaeth Briffyrdd a Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol.
- 3.44 Mae CTLI TraCC yn cynnwys Cynllun Gwella Priffordd Cam 2 A486 Post Bach i Synod Inn, Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) Arfarniad Technegol Llanbadarn Fawr A44/A4120, Arwyddion Strategol Dyffryn Teifi a phrosiectau Pont Rheidol, Rhiwarthen, Capel Bangor.
- 3.45 Er bod Ceredigion yn gymharol annibynnol o ran llawer o agweddau ar gynllunio, mae ganddi rai perthnasoedd trawsffiniol gyda Phowys mewn perthynas ag ynni (ffermydd gwynt) a threfniadau gwastraff ac â Sir Penfro a Sir Gâr mewn perthynas â marchnadoedd tai/cyflogaeth/siopa. Mae'r holl Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos wedi mabwysiadu eu CDLlau neu'n tynnu at ddiwedd y gwaith o'u paratoi. Yn ddiweddar mae Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Chyngor Sir Gâr wedi mabwysiadu eu CDLlau. Cymerodd Cyngor Sir Ceredigion ran yn eu proses llunio CDLI a chymerodd yr awdurdodau hynny ran yn y gwaith o lunio CDLI Ceredigion. Nid oes unrhyw beth yn y cynlluniau hynny sy'n achosi unrhyw broblem hyd yma o ran cyflawni CDLI Ceredigion. Mae Gwynedd a Sir Fôn yn cynhyrchu CDLI ar y cyd ac wedi ymgynghori ar eu fersiwn adneuo. Yn ddiweddar mae Cyngor Powys wedi ail-gynghori ar ei fersiwn adneuo. Yn gyffredinol felly nid yw CDLlau ALLau cyfagos yn debygol o effeithio ar y gwaith o gyflawni CDLI Ceredigion.
- 3.46 Rhoddir mwy o ystyriaeth yn y dyfodol agos i weld a oes cyfleoedd i gael ymagwedd ranbarthol yn ardal wledig Canol Cymru o ran ymdrin â materion ym meysydd trafndiaeth, adfywio a defnyddio tir.
- 3.47 Nid oedd gan Grŵp Ymgynghorol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion unrhyw faterion neilltuol i dynnu sylw iddynt yr oedd angen eu cynnwys yn yr AMB hwn o ran amgylchiadau allanol.

### **Casgliadau o ran amgylchiadau allanol**

- 3.48 Mae nifer o faterion allanol wedi cael eu nodi y bydd angen eu monitro'n rheolaidd a'u hystyried ymhellach fel rhan o unrhyw adolygiad o CDLI Ceredigion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni fyddai unrhyw un ohonynt yn creu angen am adolygiad cynnar. Caiff y materion a nodwyd eu monitro dros y flwyddyn i ddod i weld a fydd y sefyllfa hon yn newid.

### **Ystyriaethau Lleol**

#### **Data Poblogaeth ac Aelwydydd**

- 3.49 Cafodd y CDLI ei seilio ar y data poblogaeth ac aelwydydd a'r amcanestyniadau ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd oedd ar gael ar adeg ei ddrafftio. Mae'r CDLI yn rhagdybio y bydd y boblogaeth yn tyfu oddeutu 7,600 o ddechrau cyfnod y cynllun hyd ei ddiwedd yn 2022. Dros yr un cyfnod byddai nifer yr aelwydydd yn codi oddeutu 5,600.
- 3.50 Roedd yr amcanestyniadau ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd i'r CDLI wedi'u seilio ar y fethodoleg a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer amcanestyniadau ardaloedd lleol sail-2008 o niferoedd poblogaeth ac aelwydydd, ac yn defnyddio'r un ffynonellau data swyddogol ag amcanestyniadau Llywodraeth Cymru. Roedd yr amcanestyniadau a gynhyrwyd ar gyfer y CDLI yn wahanol i amcanestyniadau swyddogol sail-2008 Llywodraeth Cymru gan eu bod wedi defnyddio tuedd poblogaeth hanesyddol hirach, ac wedi ymdrin â'r boblogaeth myfyrwyr a'r boblogaeth rhai nad ydynt yn fyfyrwyr ar wahân.
- 3.51 Ers mabwysiadu'r CDLI mae data o Gyfrifiad 2011 wedi cael eu cyhoeddi. Rhoddodd Cyfrifiad 2011 boblogaeth o 75,922 sydd, o'i chymharu â phoblogaeth Cyfrifiad 2001 (74,094), yn dangos cyfradd twf poblogaeth is na'r un a ragdybir yn y CDLI. Yn yr un modd mae cyfanswm yr anheddau ac aelwydydd a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn awgrymu cyfradd newid is o ran niferoedd aelwydydd, o gymharu â Chyfrifiad 2001, na'r un a ragdybir yn y CDLI.
- 3.52 Cymhlethodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 y darlun a roddwyd gan ddata blaenorol, ac arweiniasant at ddiwygio'r amcanestyniadau poblogaeth hanesyddol swyddogol ar gyfer Ceredigion am y cyfnod 2001 i 2011. Y data diwygiedig hyn yw sail amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sail-2011 mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru sydd, o ganlyniad, yn dangos twf sylweddol is o ran poblogaeth ac aelwydydd na'r un a ragdybir gan y CDLI.
- 3.53 Fodd bynnag, mae rhai elfennau o'r diwygiad swyddogol hwn, ac yn arbennig ym mlynnyddoedd cynharaf y gyfres ddiwygiedig, yn anodd eu cysoni â ffynonellau data eraill, ac mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu'r newid gwirioneddol yn y boblogaeth yn gywir. Ymddengys fod rhagamcanion poblogaeth swyddogol mwy diweddar, yn enwedig y rhai ers 2011, yn rhoi awgrym gwell o'r newid yn y boblogaeth sy'n adlewyrchu elfennau fel nifer y myfyrwyr addysg uwch yn well.

- 3.54 Mae'r newid yn y boblogaeth myfyrwyr yn dal i gymhlethu'r data ar newidiadau yn y boblogaeth ac aelwydydd yn yr ardal leol. Mae effeithiau hyn i'w gweld yn amcanestyniadau diweddaraf sail-2011 Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn absenoldeb data arall, mae'r ffigurau hyn wedi cael eu derbyn fel yr amcanestyniadau gorau sydd ar gael o'r boblogaeth ac wedi cael eu defnyddio yn y model o dai a gyflwynwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf y disgwylir ei gyhoeddi yn 2015.
- 3.55 Mae canlyniadau'r dadansoddiad pellach hwn wedi cael eu bwydo i'r Asesiad diwygiedig o'r Farchnad Dai Leol sy'n cael ei baratoi'n derfynol ar hyn o bryd. Adeg ysgrifennu, disgwylir i'r Asesiad diwygiedig o'r Farchnad Dai Leol gael ei gyhoeddi yn yr Hydref 2015, fodd bynnag, mae canlyniadau a dadansoddiad dangosol wedi cael eu hystyried yn AMB 2015. Mae'r Asesiad diwygiedig o'r Farchnad Dai Leol 2015 yn dod i'r casgliad, er bod y gofyniad a'r angen cyffredinol am dai yn llai na'r hyn a awgrymwyd mewn asesiadau blaenorol, ac mae'n bosib bod y math o angen am dai o ran tenantiaeth a maint wedi newid hefyd, mae'n ymddangos nad yw amcanestyniadau LIC o'r boblogaeth yn darparu sylfaen ddigon cryf i gyfiawnhau gwneud newidiadau polisi sylweddol ar hyn o bryd.
- 3.56 Yn wyneb ansefydlogrwydd yr amcanestyniadau, byddai'n ddoeth aros i amcanestyniadau sail-2013 a ddisgwylir yn 2016/17. Felly mae cyhoeddi'r amcanestyniadau hyn yn debygol o gyd-daro â'r adolygiad o'r CDLI sydd i'w ddisgwyl yn 2017.

### **Darpariaeth Tai**

- 3.57 Mae Polisi S01 yn dangos bod angen darparu 6000 o anheddau newydd er mwyn diwallu'r angen cydnabyddedig dros gyfnod y cynllun. Er mwyn diwallu'r anghenion hyn mae angen cwblhau 400 o anheddau bob blwyddyn ar gyfartaledd. Hyd yma mae 1546 o unedau (Mawrth 2015) wedi cael eu cwblhau, sef 26% o'r holl dai y mae eu hangen. Os cymerir caniatadau sy'n sefyll i ystyriaeth hefyd (1538 ym mis Mawrth 2015 yn ôl arolwg preswyl blynyddol y Cyngor), mae nifer y caniatadau a'r tai a gwblhawyd (cyfanswm ymrwymadau 3084 ym mis Mawrth 2015) yn dangos bod 50% o'r tai y mae eu hangen wedi'u hymrwymo hyd yma. Felly nid yw unedau tai newydd wedi cael eu darparu yn y niferoedd y mae eu hangen yn ystod hanner cyntaf cyfnod y cynllun.
- 3.58 Cydnabyddir, fodd bynnag, y bydd cyfnod cynllun 15 mlynedd yn cynnwys cyfnodau o ffyniant a methiant, felly mae'n bwysig ystyried y sefyllfa hon ochr yn ochr â ffactorau eraill. Yn seiliedig ar y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015 mae cyfraddau cwblhau yn y gorffennol (2008-2014) yn awgrymu bod cyfraddau cwblhau yn y dyfodol yn debygol o barhau i fod ar gyfradd is, sef 201 o unedau bob blwyddyn ar gyfartaledd, o gymharu â'r nifer gyfartalog flynyddol y disgwylir y bydd ei hangen, sef 400. Felly yn ôl y rhagolygon presennol, dim ond 3012 o anheddau ychwanegol fyddai'n cael eu darparu erbyn 2022 o'i gymharu â'r nifer a ragwelwyd sef 6,000 o anheddau. Fodd bynnag, nid yw'r duedd hon o bryder mawr ar hyn o bryd oherwydd mae

llai o alw oherwydd, er enghraifft, twf is yn y boblogaeth a chyfraddau ffurfio aelwydydd.

- 3.59 Mae Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2011/12 a 2012/13 yn dangos, o ddefnyddio'r fethodoleg a ragnodir yn y canllawiau, mai 5.3 blynedd a 6.5 blynedd yn y drefn honno fu'r cyflenwad tir 5 mlynedd yng Ngheredigion (mae gofyniad yn y canllawiau am gyflenwad blynyddol o 5 mlynedd o leiaf). Fodd bynnag, yn dilyn newid yn y fethodoleg i ddull cyflenwad tir gweddilliol, mae'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2013/14 a 2014/15 yn dangos cyflenwad tir o 3.7 o flynyddoedd a 3.3 o flynyddoedd yn y drefn honno.
- 3.60 Mae'n werth nodi yma bod absenoldeb diddordeb gan ddatblygwyr safleoedd lluosog yng Ngheredigion yn effeithio ar y cyflenwad tir sy'n cael ei ddefnyddio. Mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried beth y gall y CDLI ei wneud i helpu i ddatblygu tai ac mae wedi gwneud ymrwymiad newydd o adnoddau ar ffurf Swyddog Cyflenwi Tai. Dylai'r rôl Swyddog Cyflenwi Tai, a ddechreuodd ym Medi 2015, arwain at welliant dros y blynyddoedd nesaf o ran datblygu'r caniatadau sy'n bod ar safleoedd lle mae'r gwaith wedi cael ei oedi neu heb ddechrau eto am amryw o resymau. Cydnabyddir y bydd yn cymryd sawl blwyddyn i'r gwelliant mewn ffigurau cwblhau trwy ymyrraeth y Swyddog dreiddio trwyddo i'r ffigurau oherwydd bydd yn cymryd amser i feithrin perthnasoedd, adnabod achos neu achosion diffyg darparu tai ac (os yw'n bosibl) rhoi sylw i'r materion hynny er mwyn i'r datblygiad allu cychwyn/mynd yn ei flaen. Bydd cynnydd hyd yma yn cael ei adrodd yn AMB 2016 ynghyd ag unrhyw fanylion pellach ynghylch materion i'w targedu y flwyddyn ganlynol. Mae'r mater o ddarpariaeth yn ymddangos i fod yn un y bydd pob un os nad y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn ei wynebu ar yr adeg hon, gyda'r rhan fwyaf ohonynt sydd wedi mabwysiadu CDLI heb gyrraedd eu targedau cwblhau disgwylidig blynyddol a nodir yn y CDLI.
- 3.61 Felly mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrthi eisoes yn ceisio sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth tai. Un o'r llwybrau sy'n cael eu defnyddio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw trafod safleoedd a neilltuwyd â pherchnogion/datblygwyr safle a hyd yma mae hyn wedi arwain at nifer o drafodaethau manwl cyn gwneud cais. Dylai lefel y drafodaeth gynyddu gan fod Swyddog dynodedig ar gael i ystyried y materion hyn yn fwy manwl (y Swyddog Cyflenwi Tai). Cyn mabwysiadu'r CDLI roedd y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn amharod i ddechrau trafod oherwydd nad oedd sicrwydd y byddai eu safleoedd yn cael eu cynnwys yn y CDLI mabwysiedig. Roedd yr amharodrydd hwn yn deillio o faint y gwariant ymlaen llaw o ran gwaith mesur tir, lluniadau a ffioedd y mae ei angen i fwrw ymlaen yn effeithiol â thrafodaethau cyn gwneud cais. Mae hyn yn newid erbyn hyn o gofio bod y cynllun bellach wedi cael ei fabwysiadu, ac fel y nodir mae trafodaethau cyn gwneud cais ar y gweill ynghylch nifer o'r safleoedd a neilltuwyd.
- 3.62 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn gwneud darn o waith ar hyn o bryd mewn perthynas â chaniatadau cyfredol er mwyn canfod beth, os unrhyw beth, y gellir ei wneud ynghylch safleoedd lle mae gwaith wedi dechrau ond wedi cael ei atal. Y nod yw canfod pam mae'r gwaith wedi cael ei atal a beth, os unrhyw beth, y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei wneud i gynorthwyo â

chwblhau'r safle (e.e. newid y gofynion o ran cyfnodau os ymddengys fod hyn yn gyfyngiad, edrych ar ddewisiadau mewn perthynas â thair fforddiadwy os yw amseru'r unedau fforddiadwy'n achosi problemau gyda thalu'r ffordd, rhoi hysbysiadau cwblhau os ymddengys nad oes unrhyw reswm gwirioneddol dros beidio â bwrw ymlaen, ac ati). Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod mai'r broblem, mewn llawer o achosion, yw'r diffyg rhoddwyr benthyciadau sy'n fodlon cefnogi safleoedd yn ariannol. Pa un bynnag, bydd y gwaith yn darparu gwybodaeth a data defnyddiol ar wir faint y broblem hon yng Ngheredigion. Bydd Swyddog Cyflenwi Tai y Cyngor yn cydweithio â datblygwyr i oresgyn unrhyw rwystrau i ddatblygu.

### Tai Fforddiadwy

- 3.63 Nid yw unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio'n cael eu darparu yn y niferoedd gofynnol ar yr adeg hon yng nghyfnod y cynllun. Nid yw hyn yn peri syndod o gofio nad yw unedau tai yn gyffredinol yn cael eu darparu yn y niferoedd a ddisgwyliwyd. Nid yw'r broblem hon yn gyfyngedig i Geredigion fel sy'n amlwg o Adroddiadau Monitro Blynyddol ALLau eraill ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r caniatadau cynllunio ar gyfer tai fforddiadwy fel cyfran o'r caniatadau ar gyfer tai cyffredinol o ddechrau cyfnod y cynllun yn rhagori ar y targed, sef 20% (caniatâd am 686 o gartrefi fforddiadwy a 3081 o gartrefi'r farchnad gyffredinol) ac mae nifer y tai sy'n cael eu darparu (cwblhau) yn ganran targed o dai'r farchnad gyffredinol sy'n cael eu hadeiladu (bron 19%) (292 o gartrefi fforddiadwy a 1,546 o gartrefi'r farchnad gyffredinol wedi cael eu cwblhau). Nid yw'r CDLI mabwysiedig wedi cael effaith arwyddocaol eto ar gymysgedd a dosbarthiad tai fforddiadwy yn ôl math a daliadaeth, a dim ond yn awr mae ceisiadau cynllunio manwl yn dechrau dod i law. Mae cytundebau cyfreithiol ar gyfer cyfraniadau Symiau Gohiriedig at dai fforddiadwy wedi cael eu cymeradwyo ar nifer o unedau unigol y farchnad agored. Nid yw unrhyw un o'r symiau hyn yn daladwy eto. Mae'r heriau a ddaeth i law ar y sail na fyddai'r safle'n talu'r ffordd yn gysylltiedig gan fwyaf â chynigion i addasu. Efallai y bydd cyfle wrth adolygu i ystyried manteision neu anfanteision cymhwyso ffi Swm Gohiriedig Tai Fforddiadwy i addasiadau preswyl a wneir fel rhan o ddatblygu portffolio sector rhent proffesiynol. Mae hon yn agwedd ar gymhwyso polisi S05 yn ymarferol y gellid ei hadolygu ochr yn ochr â diweddarau'r asesiad strategol i weld pa lefel o dai fforddiadwy y gellid ei disgwyl yn ymarferol ar safleoedd.

### Ysgolion

- 3.64 Nod cyffredinol Rhaglen Addysg Ceredigion yw creu system addysg gynaliadwy trwy ddefnyddio adnoddau'n well er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystâd addysg a sicrhau bod ysgolion yn addas i'r 21ain ganrif.
- 3.65 Gallai polisi Adolygu Ysgolion y Cyngor Sir ysgogi'r Awdurdod i adolygu rôl a statws rhai aneddiadau. Mae'r ddogfen **Datblygu Addysg yng Ngheredigion: Cynllunio'r Ddarpariaeth Addysg hyd 2020** yn hanfodol i weledigaeth y Cyngor ar gyfer addysg yn y sir. Mae'r nodau tymor byr a thymor canolig, i'w cwblhau erbyn 2011 a 2015 yn y drefn honno, yn cynnwys y canlynol:

- cynhyrchu dogfennau Strategaeth;
- gweithredu polisiau adolygu ysgolion;
- sefydlu ffederasiynau, ysgolion ardal a chlystyrau

Mae'r nod tymor hir ar gyfer 2020 yn cynnwys:

- cysyniad Cymunedau Dysgu Integredig;
- cydweithredu rhwng ysgolion;
- darpariaeth gwasanaethau amlasiantaethol gan gynnwys cyfleusterau gofal plant; a
- gweithgareddau dysgu gydol oes i'r gymuned.

3.66 Mae'r **Polisi Adolygu Ysgolion (2006, 2009, 2010, 2012)** yn symud i: gau unrhyw ysgol lle mae nifer y disgyblion yn gostwng o dan 20; adolygu unrhyw ysgolion sydd â llai na 50 o ddisgyblion, lle bo'n briodol, er mwyn mynd i bartneriaeth gydag ysgolion eraill; a gostwng nifer yr ysgolion lle mae gan brifathrawon ymrwymadau addysgu. Hefyd, mae'r Polisi'n dweud y dylid ystyried y canlynol:

- Sicrhau bod yna ddull rhagweithiol o reoli newid a datblygiad yng ngoleuni amgylchiadau economaidd, demograffig ac addysgol;
- Lleihau nifer y lleoedd dros ben; a,
- Pharhau i osgoi trefniant 'unffurf' a rhoi ystyriaeth ofalus i amgylchiadau a chyd-destun lleol.

3.67 Mae addysg yn flaenoriaeth i'r Cyngor Sir, fel y dangosir yn ei gynlluniau lefel uchel a'i Fanifesto, ac yn cynnig cyfle i adeiladu ar brosiectau addysgol llwyddiannus blaenorol yn y sir, sef yr ysgolion fro 3-11 sydd newydd gael eu hadeiladu, Bro Siôn Cwilt a T. Llew Jones.

3.68 Mae ysgol fro newydd yn cael ei chynnig yn yr ardal i'r gorllewin o Lanbedr Pont Steffan, gan effeithio ar ddalgylchoedd ysgol presennol Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd, i'w lleoli o fewn yr anheddiad cyswllt o Drefach. Mae'r Cyngor yn barnu y byddai ysgol fro newydd yn Drefach yn unol ag amcanion rhaglen genedlaethol Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, yna fel sy'n ofynnol gan Adroddiad yr Arolygydd (paragraff 4.15) bydd angen ystyried unrhyw oblygiadau y bydd ysgol fro newydd yn eu creu i strategaeth ddatblygu'r CDLI a, thrwy adolygiad, a oes angen unrhyw newidiadau i'r strategaeth ddatblygu. Cydnabu'r Arolygydd na ellid o angenrheidrwydd ddiwallu anghenion addysg mewn Canolfan Gwasanaethau presennol. Byddai angen ystyried Brynhoffnant a Synod Inn hefyd ac a ddylai rôl yr aneddiadau hynny yn y dyfodol aros yr un fath neu a oes angen ei newid o ganlyniad i'r ysgolion newydd.

### Ynni Adnewyddadwy

3.69 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflawni asesiad o'r holl adnoddau ynni adnewyddadwy posibl a chyfleoedd ynni carbon isel yn eu hardal fel rhan o'r broses o lunio'r CDLI. Roedd llawer iawn o'r gwaith o lunio CDLI Ceredigion wedi'i wneud (roedd y

Cynllun wedi cael ei Adneuo) pan gyhoeddwyd y gofyniad ac felly, yn unol â chanllawiau, nid oedd yn ofynnol i'r ALI Iunio Asesiad Ynni Adnewyddadwy cyn mabwysiadu'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'n ofynnol cyflawni Asesiad Ynni Adnewyddadwy fel rhan o'r adolygiad cyntaf o'r Cynllun. Felly, mae Cyngor Ceredigion eisoes wedi cychwyn ar y gwaith o gynhyrchu ei Asesiad Ynni Adnewyddadwy, ac wedi gwneud cynnydd sylweddol. Mae cam olaf yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy ar y gweill ar hyn o bryd, sef asesiad o'r potensial ar gyfer rhwydwaith gwres rhanbarthol. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi sicrhau cyllid gan HNDU i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Rhwydwaith Gwres Rhanbarthol yn Aberystwyth a Thregaron a bydd y canlyniadau yn llywio pennod olaf yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy.

- 3.70 Bydd Asesiadau Ynni Adnewyddadwy'n amrywio rhwng awdurdodau lleol gan ddibynnu ar faterion fel daearyddiaeth, argaeledd tir a hefyd y blaenoriaethau mae cynghorau a chymunedau yn eu rhoi i wahanol amcanion polisi. Bydd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn rhoi canlyniadau ymarfer trylwyr, gan ddilyn Llawlyfr i Gynllunwyr Llywodraeth Cymru ar Asesiadau Ynni Adnewyddadwy, er mwyn canfod y potensial o ran adnoddau a galw am ynni adnewyddadwy yn y sir, a fyddai'n cynorthwyo â'r gwaith o ddewis amcanion polisi. Gellid hefyd roi sylw i lawer o'r rhain trwy weithredu corfforaethol. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau bydd angen penderfynu a fydd angen cyflwyno newidiadau i'r CDLI presennol. Deallir hefyd y disgwylir i'r llawlyfr cymorth gael ei ddiwygio yn y dyfodol agos a all fod â goblygiadau pellach o ran yr asesiad sydd eisoes wedi'i gwblhau'n sylweddol.
- 3.71 O ran Ardal Chwilio Strategol D, er mwyn cysylltu datblygiad fferm wynt yn SSA D â'r Grid Cenedlaethol, mae angen gosod llinellau pŵer newydd yn Awdurdod Lleol cyfagos Powys. Mae Awdurdod Cynllunio Powys wedi gwrthod ffermydd gwynt a fyddai wedi arwain at greu'r llinellau pŵer newydd. Mae'r cynlluniau hyn a wrthodwyd yn destun ymchwiliad cyhoeddus ar hyn o bryd a hyd nes y bydd canlyniad yr ymchwiliad yn hysbys ac, yn ôl datblygwyr SSA D, cwmni SSE, hyd nes y bydd dyfodol ynni adnewyddadwy'n gliriach yng Nghymru, mae rhagor o fuddsoddi yn SSA D wedi cael ei atal. Ar hyn o bryd nid yw hyn yn golygu bod angen adolygiad cynnar o CDLI Ceredigion.

## Yr Economi

- 3.72 Mabwysiadodd y Cyngor ei strategaeth Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adnewyddu Economaidd ym Mehefin 2015. Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol sy'n amlwg yn y sir, sef:

- Anhygyrchedd,
- Poblogaeth sy'n heneiddio,
- Gostyngiad sylweddol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TAW a chynnydd yn nifer y datgofrestriadau,
- Y gyfran leiaf o fusnesau gwybodaeth-ddwys yng Nghymru gyfan,
- Lefelau cynhyrchiant isel,
- Cyflogau bach, a
- Diffyg arweinyddiaeth gref a chyfeiriad clir.

- 3.73 Mae'r strategaeth hon yn ceisio canfod ac integreiddio ei hasedau allweddol mewn ymgais i droi'r problemau economaidd-gymdeithasol hyn yn gyfleoedd i'r sir. Er bod y Strategaeth wedi cymryd cynnwys y CDLI i ystyriaeth ac wedi cydnabod y gall y CDLI helpu i hwyluso ei nodau, ar hyn o bryd nid yw'n creu angen i ddiwygio'r CDLI ei hun. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y sefyllfa hon yn newid yn y dyfodol ac y bydd cynnwys y Strategaeth yn ystyriaeth pan ddaw'n bryd adolygu'r CDLI.
- 3.74 Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2013 i asesu pa mor ymarferol fyddai Ardal Twf Lleol yn Nyffryn Teifi ac i nodi amrywiaeth o argymhellion ar gyfer yr Ardal Twf Lleol. Gofynnwyd i'r grŵp awgrymu polisïau a fyddai'n hybu a chefnogi swyddi, twf economaidd, heriau i dwf, a defnydd o'r Gymraeg. Daeth y Grŵp i'r casgliad bod sefydlu Ardal Twf Lleol yn Nyffryn Teifi'n cynnig cyfleoedd sylweddol. Un o brif ganfyddiadau'r Grŵp yw bod llawer o'r gefnogaeth y bernir bod ei angen i hwyluso twf economaidd yn Nyffryn Teifi yn bodoli eisoes, yn enwedig yn nhermau rhoi cymorth i fusnesau lleol. Fodd bynnag, mae'r arloesedd yn dod o'r ymagwedd *ragweithiol* ac *integredig* sy'n cael ei hargymhell; creu'r cysylltiadau rhwng datblygu busnesau, datblygu pobl a datblygu ardal ar lefel leol a mynd ati i *sicrhau ei fod yn digwydd*. Cydnabu'r Grŵp gryfderau'r ardal, yn arbennig y dirwedd leol a'r amgylchedd naturiol eithriadol a chryfder y Gymraeg yn yr ardal. Mae'r ardal yn ymestyn dros 3 Awdurdod Lleol ac felly'n galw am gydweithio ond hefyd am gynnwys rhanddeiliaid eraill, yn enwedig y sector preifat, er mwyn i'r syniadau/argymhellion a gynigiwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gael eu gwireddu. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi sylw i rai o'r argymhellion yn yr adroddiad, a bydd yn gweithredu ar rai eraill. Mae hefyd yn llunio cynllun gweithredu ar hyn o bryd. Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn ystyried pa argymhellion y gall fwrw ymlaen â hwy (e.e. a all weithredu ardrethi cymorth busnes arloesol yn Nyffryn Teifi). Mae angen i unrhyw waith datblygu pellach ar yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad terfynol, ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau pellach o ran bwrw ymlaen ag Ardal Twf Lleol, gael eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o'r CDLI. Ar hyn o bryd nid oes angen cyflawni adolygiad cynnar er mwyn ymdrin â'r mater hwn.
- 3.75 Roedd y Grŵp Gorchwyl o'r farn bod Dyffryn Teifi'n bwysig o safbwynt strategol oherwydd ei gysylltiadau â *Dinas-ranbarth Bae Abertawe* a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2013; felly mae gan yr ardal ran allweddol i'w chwarae yn nhermau gwasgaru'r ffyniant economaidd a gaiff ei greu gan y Dinas-ranbarth i'r ardal fwy gwledig i'r gogledd ond hefyd yn nhermau cefnogi twf y Dinas-ranbarth trwy greu'r cysylltiad hwnnw â Chanolbarth Cymru ac Arfordir y Gorllewin.

### **Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (Mehafin 2012)**

- 3.76 Ar adeg ysgrifennu hwn roedd gwaith CDLI Ceredigion ar Gynllun Rheoli Traethlin 2 (CRhT2) hefyd ar y gweill, ond heb gael ei gwblhau. Felly nid yw'r CDLI mabwysiedig yn adlewyrchu nac yn ymdrin â dim o'r canfyddiadau ac argymhellion yn CRhT2. Ers mabwysiadu'r CDLI mae CRhT2 wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet a dylid rhoi ystyriaeth iddo bob amser wrth benderfynu ar neilltuo/datblygu tir.



- 3.77 Mae CRhT2 yn nodi bod polisïau Adlinio dan Reolaeth (AdR) yn bodoli ar hyn o bryd ac yn y tymor byr/canolig ar hyd llawer o ddarnau o'r glannau ar hyd arfordir Ceredigion. Mae hefyd manau lle mai'r polisi presennol ac arfaethedig yw Dim Ymyrraeth Weithredol (DYW).
- 3.78 Mae'r manau hyn yn cynnwys Llangrannog (AdR o 2025 ymlaen), Tresaith (AdR o 2025 ymlaen), Penbryn (DYW ar hyn o bryd), Ceinewydd/Traeth Dolau (AdR ar hyn o bryd), Bae Ceinewydd (AdR ar hyn o bryd), Aberaeron i Aberarth (DYW ar hyn o bryd), Aberarth (AdR o 2025 ymlaen), Llanon a Llansanffraid (AdR ar hyn o bryd), Tanybwlich (AdR ar hyn o bryd), Bae Clarach (AdR ar hyn o bryd), Y Borth Uchaf (AdR ar hyn o bryd) ac Ynyslas (AdR ar hyn o bryd).
- 3.79 Dylid nodi hefyd bod 'dangosydd' 2025 yn ddim ond dangosydd, ac y bydd newidiadau ym mholisïau CRhT2 yn cael eu hysgogi gan ddigwyddiadau ar yr arfordir a chodiad yn lefel y môr - gall newidiadau yn y polisïau ddigwydd ar unrhyw adeg o nawr hyd 2025, neu'n wir unrhyw bryd ar ôl hynny.
- 3.80 Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu ar unwaith mewn perthynas â'r CDLI. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CDLI gymryd cynnwys ac argymhellion CRhT2 i ystyriaeth ac ystyried a yw hyn yn galw am newid i'r CDLI.

### **Darpariaeth manau agored**

- 3.81 Cychwynnodd Llywodraeth Cymru ran gyntaf y ddyletswydd o dan adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ym mis Tachwedd 2012. Mae'r rhan hon o'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd bob 3 blynedd a datblygu ac adolygu Cynllun Gweithredu Chwarae bob blwyddyn. Cychwynnwyd ail ran y ddyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardaloedd, ym mis Gorffennaf 2014.
- 3.82 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gwblhau asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio Asesiadau o Fannau Agored sy'n bodoli eisoes i fapio manau sy'n cael eu defnyddio, neu a allai gael eu defnyddio, ar gyfer chwarae.
- 3.83 Canfu Asesiad Ceredigion o Fannau Agored fod yna ddiffyg manau i blant chwarae ac felly cafodd Polisi LU24: Darparu Manau Agored Newydd, ei gynnwys yn y CDLI i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.
- 3.84 Wedi hynny lluniwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fannau Agored, gyda chynghor a mewnbwn oddi wrth Chwarae Cymru a RAY Ceredigion, i gynorthwyo datblygwyr i feddwl am fannau agored, gyda phwyslais ar chwarae, wrth gyflwyno eu ceisiadau cynllunio. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Chwarae 2013/14 a bydd y gwaith o fonitro gweithrediad y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn wedi cael ei gynnwys yng Nghynlluniau Gweithredu Chwarae'r dyfodol. Mae'r Cynghor wrthi'n paratoi Asesiad Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 ar hyn o bryd.

## Adroddiad yr Arolygydd

- 3.85 Mae Adroddiad yr Arolygydd ar CDLI Ceredigion (Adroddiad ar yr Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022, Mawrth 2013) yn cyfeirio at nifer o faterion y barnwyd y bydd angen edrych arnynt fel rhan o adolygiad. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Ystyried rôl Aberaeron yn y tymor hirach. A yw'n aros yn Ganolfan Gwasanaethau? Os ydyw, byddai angen dynodi mwy o safleoedd. Gallai rôl Llwynceilyn leihau.
  - Mae'n bosibl y bydd gofynion o ran gwaredu/ailgylchu gwastraff a bennir yn genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol newid y CDLI.
  - A fydd rhai Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yn cael eu cadw? Yn benodol a ddylai Cenarth, Pontarfynach a Cheinewydd aros yn Ganolfannau Gwasanaethau Gwledig?
  - A oes angen diwygio Strategaeth y CDLI, neu ran ohoni, i adlewyrchu Strategaeth Addysg y Cyngor?
- 3.86 Felly mae'r Cyngor yn cofio y bydd angen i'r uchod fod yn rhan o adolygiad a dylid edrych, yn gynnar, ar ddealltwriaeth o beth sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau y gellir neilltuo amser ac adnoddau i gyflawni'r tasgau hyn.

## Ystyriaethau lleol: Casgliadau

- 3.87 Nid oedd gan Grŵp Ymgynghorol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion unrhyw faterion neilltuol i dynnu sylw atynt yr oedd angen eu cynnwys yn yr AMB hwn o ran ystyriaethau lleol.
- 3.88 Mae nifer o faterion lleol wedi cael eu nodi uchod fel rhai y mae angen eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o CDLI Ceredigion. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni fyddai dim ohonynt yn creu angen am adolygiad cynnar. Caiff y materion a nodwyd eu monitro dros y flwyddyn i ddod i weld a fydd y sefyllfa hon yn newid.

#### 4. Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

- 4.0 Mae dangosyddion, targedau a lefelau ysgogi wedi cael eu nodi er mwyn asesu perfformiad polisiau ac amcanion. Mae dylanwadau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod yn cael eu nodi hefyd. Bydd yr ysgogyddion sydd wedi'u cynnwys yn y drefn monitro yn rhoi awgrym cynnar o berfformiad y Cynllun ac o bosibl pa mor eang y bydd angen i gwmpas adolygiad o'r Cynllun fod.
- 4.1 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Arwyddocâd perfformiad	Disgrifiad
+	Mae'r targedau'n cael eu cyrraedd.
?	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.
0	Nid yw'r targedau wedi cael eu cyrraedd ond nid oes pryderon ynghylch gweithrediad y polisi / polisiau.
-	Nid yw'r targedau'n cael eu cyrraedd ac mae pryderon ynghylch gweithrediad y polisi / polisiau.

- 4.2 Rhoddwyd ystyriaeth i'r dangosyddion craidd perthnasol a nodir yn Llawlyfr Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Mehefin 2006). Mae rhai ohonynt wedi cael eu cynnwys ac mae eraill wedi cael eu haddasu fel dangosyddion lleol i gyd-fynd â'r amgylchiadau lleol. Dangosir y dangosyddion statudol hyn yn y tablau monitro trwy gynnwys y geiriau "Dangosydd Statudol" nesaf at gyfeirnod yr AMB. Cytunwyd ar yr holl ddangosyddion monitro yn ystod Archwiliad y Cynllun yn 2011/2012.
- 4.3 Mae'r fframwaith monitro'n cynnwys cyfeiriadau at sefydliadau eraill a chynlluniau a strategaethau eraill a all fod â dylanwad rhagweithiol ar weithrediad y polisiau.

- 4.4 Mae'r broses monitro'n dibynnu ar amrywiaeth fawr o wybodaeth ystadegol a ddaw o ffynonellau'r awdurdod lleol a ffynonellau allanol. Er y gall y cyngor reoli'r wybodaeth y mae'n ei chyflenwi, mae risg sylweddol y bydd newid yn achos data allanol gan fod y wybodaeth honno y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol. Wrth gyflawni gwaith monitro'r CDLI, felly, canfuwyd bod angen ychwanegu, tynnu allan neu newid rhai dangosyddion am wahanol resymau. Felly cymerwyd un o dri cham gweithredu:
- Newid: Caiff y Dangosydd ei newid i'w adlinio â'r data perthnasol. Ni fydd y newid yn newid natur neu gwmpas y Dangosydd/Ffactor yn fawr, ond bydd yn caniatáu ei ystyried yn ôl set ddata wahanol neu ddiwygiedig.
  - Disodli: Ni fydd y Dangosydd yn cael ei ddefnyddio mwyach a bydd yn cael ei ddisodli gan ddangosydd sy'n monitro mater tebyg i'r un gwreiddiol.
  - Hepgor: Mae'r Dangosydd yn peidio â chael ei arfer mwyach ac yn cael ei hepgor gan nad oes unrhyw ffactorau neu setiau data tebyg eraill ar gael i fonitro'r mater hwnnw. Cam pan fetho popeth arall yw hwn a bydd Dangosyddion sy'n cael eu hepgor yn cael eu hadolygu bob blwyddyn er mwyn canfod a oes setiau data newydd ar gael bellach y gellid eu defnyddio i fonitro ei bolisi.
- 4.5 Gellir gweld manylion sy'n esbonio'r newid a'r rhesymau drosto yn Atodiad 1.
- 4.6 Cyflawnwyd dadansoddiad hefyd ar y ffordd mae'r Cynllun yn cyfrannu at yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol. Caiff hyn ei gynnwys fel Adran 5.

**Tai**

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH01 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Newid yn y boblogaeth <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob 5 mlynedd <b>Ffynhonnell:</b> Cyngor Sir Ceredigion (CSC) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a data eraill				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bydd newid yn y boblogaeth yn y sir dros gyfnod y CDLI yn cyd-fynd yn fras â'r newid a oedd wedi ei ddarogan ar sail yr amcanestyniadau poblogaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Niferoedd cyffredinol y boblogaeth;</li> <li>Y rhai sydd mewn addysg uwch ac nad ydynt mewn addysg uwch;</li> <li>Ymfudo cyfartalog net</li> </ul>	Gwneir dadansoddiad llawn o'r newid yn y boblogaeth gan gynnwys amcanestyniadau newydd bob pum mlynedd o gyfnod y cynllun. Caiff y newid yn y boblogaeth ei asesu ynghyd â'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y newid yn nifer yr aelwydydd ac ystyrir y wybodaeth ddemograffig hon yn ôl amcanion polisi'r CDLI i weld a oes angen cymryd camau neilltuol.	Nid yw'r dangosydd hwn i gael ei fesur yn y flwyddyn monitro hon.	Amh.
<b>Dadansoddiad</b> Er nad yw'n ofynnol at ddibenion y CDLI, mae Awdurdod Cynllunio Lleol Ceredigion yn cynnal adolygiad yn awr o'r ffigurau ar gyfer y Sir mewn perthynas â swyddogaethau cyffredinol y Cyngor. Mae data newydd wedi cael eu cyhoeddi'n genedlaethol yn ddiweddar ac yn cael eu dadansoddi. Bydd casgliadau interim yn cael eu hadrodd i'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a ddisgwylir yn yr Hydref eleni. Defnyddir asesiad mwy manwl i lywio'r adolygiad o'r CDLI yn 2017. Mae'n werth nodi, er enghraifft, bod Amcangyfrifon Canol Blwyddyn swyddogol diweddar o'r boblogaeth yn dangos sensitifrwydd data poblogaeth leol sylfaenol i newidiadau yn y sector addysg uwch.				

Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd seiliedig ar Gyfrifiad 2011 yn awgrymu lefelau llawer is o dwf yn y boblogaeth ac aelwydydd na'r hyn a ragwelwyd yn amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2008 y mae gofyniad aneddiadau'r CDLI yn seiliedig arno. Os yw amcanestyniadau 2011 i'w cymryd yn rhai manwl-gywir a chadarn, byddai hynny'n golygu fod yr angen am dai yn debygol o fod yn llai, ac o ganlyniad, bydd llai o alw am anheddau newydd; fodd bynnag, nid yw'n ddoeth dyfalu pa mor is y bydd ar y cam hwn oherwydd mae'r tuedd newydd hwn yn parhau i sefydlu a bydd yn fwy sicr dim ond yn dilyn cyfres bellach o amcanestyniadau. Felly mae'n bwysig peidio ag ymateb yn rhy gyflym drwy leihau'r gofyniad am anheddau ar gyfer y cynllun hyd nes bod mwy o sicrwydd ynghylch faint yw unrhyw leihad mewn niferoedd. Pe byddem yn lleihau'r gofyniad am anheddau nawr, mae'n bosib y byddwn yn ei leihau gormod.

Mae'r gyfradd cyflenwi yn ystod cyfnod y cynllun cyn belled yn ystyriaeth bwysig arall. Rhwng 2007 a 2014 (hanner cyfnod y cynllun) cwblhawyd 1685 o unedau. Os yw'r gyfradd cyflenwi yn parhau yr un fath am hanner olaf cyfnod y cynllun, byddai bron 3400 o anheddau wedi'u cwblhau, sy'n fwy na'r lefelau twf a awgrymir yn yr amcanestyniadau diweddaraf o'r boblogaeth ac aelwydydd. Felly mae'r ddarpariaeth eisoes yn fwy na'r hyn y mae'r amcanestyniadau yn dweud y byddai ei hangen arnom am y 15 mlynedd lawn ar ôl dim ond 7 mlynedd. At hynny, os yw'r gyfradd cyflenwi yn gwella, fel y gobeithiwn y bydd, byddai hyn yn cynyddu'r lefel cyflenwi gyffredinol i ffigur hyd yn oed yn uwch.

Nid yw'r ganran o gartrefi gwag a gafodd ei hystyried wrth nodi'r gofyniad am anheddau wedi cynyddu, sy'n awgrymu na fu unrhyw newid tuedd tuag at adael cartrefi presennol a symud i gartrefi newydd, sy'n cefnogi'r ddatl bod yr angen am gartrefi newydd yn parhau.

Mae angen dadansoddiad manwl pellach o faint a'r mathau o gartrefi sydd eu hangen ac i ba raddau y gellid diwallu'r anghenion gyda'r stoc bresennol.

Roedd sesiynau olaf yr Archwiliad o'r CDLI yn cydnabod y gall amcanestyniadau newid yn y dyfodol, ac y gallent yn wir fod yn is. Gofynnodd yr Arolygiaeth Gynllunio am y farn ddiweddaraf gan fod canlyniadau Cyfrifiad 2011 wedi'u rhyddhau ar ddiwedd proses baratoi'r CDLI. Daeth yr Arolygiaeth Gynllunio i'r casgliad:

- Os yw'r amcanestyniadau sy'n cael eu defnyddio yn rhy uchel, ni fyddai hyn yn broblem fawr, ond byddai goblygiadau sylweddol pe bai'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd yn rhy isel. Mewn geiriau eraill, mae'n well bod mewn sefyllfa o or-ddarparu yn hytrach na than-ddarparu.
- Os nad yw'r angen am dai yn bresennol, ni fydd y farchnad yn cyflenwi, ac ni fydd nifer fawr o dai dros ben, sy'n debygol o adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol.
- Waeth beth fo lefelau amcanestyniadau, y peth pwysicaf yw bod y Strategaeth yn parhau i gael ei gweithredu (er mwyn unioni'r cydbwysedd rhwng canolfannau gwasanaeth a'u hardaloedd gwledig yn unol â phatrwm cynaliadwy o ddatblygu). Os yw'r angen yn llai na'r hyn a ragfynegwyd yn flaenorol, mae'r mater o gydbwysedd hyd yn oed yn bwysicach os yw'r Strategaeth am gael ei gwireddu.
- Os yw'r angen yn llai, byddai'n rhaid newid amserlen y cynllun (cyfnod y cynllun) yn yr Adolygiad Cyntaf. Byddai hyn yn golygu cadw'r strategaeth a'r dyraniadau, ond cydnabod y bydd yn cymryd yn hwy i gyflenwi. Yn ymarferol byddai hyn yn golygu symud cyfnod y cynllun ymlaen a newid dyddiad diwedd

y cynllun.

- Mae LIC wedi argymhell y dylid bod yn ofalus i beidio â 'gor-ymateb' i'r amcanestyniadau newydd gan ddweud na ddylai Awdurdodau Lleol fod yn cynllunio ar gyfer amcanestyniadau sydd wedi cael eu dylanwadu'n helaeth gan y dirywiad yn yr economi (gweler y llythyr a gyhoeddwyd i Awdurdodau Lleol gan Carl Sargeant ar 10 Ebrill 2014).

Bydd trafodaethau ac ystyriaethau pellach o ganlyniadau'r wybodaeth hon wedi'u cynnwys yn AMB y flwyddyn nesaf (2016), fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes ym mharagraff 3.46-3.48 o'r AMB, yn wyneb ansefydlogrwydd yr amcanestyniadau, byddai'n ddoeth aros i ystyried yr amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2013 a ddisgwylir yn 2016/17. Felly mae cyhoeddi'r amcanestyniadau hyn yn debygol o gyd-fynd â'r adolygiad o'r CDLI y disgwylir iddo gael ei gynnal yn 2017.

### **Casgliadau**

Nid yw cyhoeddi amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2011 yn ysgogi adolygiad cynnar o'r CDLI.

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH02 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Y Strategaeth Anheddu ledled y Sir <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y cynllun: <ul style="list-style-type: none"> <li>• O leiaf 51% yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol;</li> <li>• 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig; ac</li> <li>• Uchafswm o 25% yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' a dim mwy na 1522 o unedau ar y mwyaf.</li> </ul>	O'r dyddiad mabwysiadu dylai'r gymhareb rhwng yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y Sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.	O'r dyddiad mabwysiadu dylai'r gymhareb rhwng yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau ledled y Sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.  Os na fydd y rhaniad canrannol blynyddol yn dynesu at y % a geisir ledled y Sir mewn unrhyw flwyddyn yng nghyfnod y Cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Os nad oes cyfiawnhad dros y rhesymau yna ystyrir cymryd camau fel bo angen.  Oherwydd y cesglir gwybodaeth ar lefel y Grwpiau Aneddiadau bydd yn bosibl nodi ai eithriadau daearyddol (er enghraifft, os yw pob un o'r Grwpiau Aneddiadau yn symud tuag	O'r AMB blaenorol, mae cyfanswm yr ymrwymadau mewn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfannau Gwasanaethau Trefol wedi parhau yn 42%;</li> <li>• Canolfannau Gwasanaethau Gwledig wedi codi 1% o 15% i 16%;</li> <li>• Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi gostwng 1% o 43% i 42%</li> </ul> O'r AMB blaenorol, mae cyfanswm yr unedau a gwblhawyd mewn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfannau Gwasanaethau Trefol wedi codi 1% o 43% i 44%;</li> </ul>	0



		at y cydbwysedd a ddymunir heblaw am un neu ddau o eithriadau) sy'n peri nad yw'r cydbwysedd yn cael ei gyflawni ledled y sir.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfannau Gwasanaethau Gwledig wedi aros yr un peth sef 13%;</li> <li>• Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi parhau yn 43%.</li> </ul>	
--	--	--	--	--

### Dadansoddiad

Strategaeth y CDLI yw ailganolbwyntio twf yn y Canolfannau Gwasanaethau. Mae'r gymhariaeth rhwng y targedau taflywyr a'r gwir ffigurau fel a ganlyn:

- 46% yw targed taflywyr cyfnod y cynllun Canolfannau Gwasanaethau Trefol ar gyfer ymrwymadau hyd 31/03/15: mae gwir ffigur ymrwymadau'n is na'r targed (42%),
- 21% yw targed taflywyr Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ar gyfer ymrwymadau hyd 31/03/15: mae gwir ffigur ymrwymadau'n is na'r targed (16%), a
- 34% yw targed taflywyr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill ar gyfer ymrwymadau hyd 31/03/15: mae gwir ffigur ymrwymadau (42%) yn uwch na'r targed.

Mae canfyddiadau'r dadansoddiad hwn mewn perthynas ag ymrwymadau, fodd bynnag, yn gadarnhaol yn yr ystyr bod y rhaniad cymesurol o ymrwymadau tai a nifer yr unedau a gwblhawyd yn symud tuag at fwriadau Strategaeth y CDLI ers ei ddyddiad mabwysiadu yn 2013.

Gan fod 8 blynedd o gyfnod y cynllun, sef 15 mlynedd, eisoes wedi mynd heibio, ac mai dim ond yn y 30 mis diwethaf yn fras (ers ei fabwysiadu, neu ers 24 mis o ystyried y cyfnod monitro yn unig) yr oedd modd dilyn y cynllun yn effeithiol, er mwyn sicrhau'r dosbarthiad targed byddwn yn dibynnu ar gyflawni'r holl ofyniad o 6000 o dai, glynu'n fwy caeth i bolisi'r cynllun mewn perthynas ag ymrwymadau y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau, a monitro'n agos nifer y safleoedd mwy a neilltuwyd a ddefnyddir. Dylid nodi nad yw'r gwaith o gyrraedd y targed o dan reolaeth yr Awdurdod Lleol yn uniongyrchol oherwydd effaith grymoedd y farchnad ac ati. Felly, gweithio tuag at y cydbwysedd cywir yw nod realistig y CDLI ar hyn o bryd.

Mae'r cynnydd yn nifer y tai a gwblhawyd mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill o'r dyddiad mabwysiadu (1% yn 2013/14) yn awgrymu bod polisi'r CDLI o ganolbwyntio datblygiadau mewn Canolfannau Gwasanaethau yn y dyfodol, yn hytrach nag mewn aneddiadau gwasgaredig, ac o wrthwynebu bancio tir, efallai wedi ysgogi'r rheiny oedd â chaniatadau cynllunio eisoes ar gyfer unedau sengl cyn mabwysiadu'r CDLI i gwblhau eu cynlluniau. Efallai hefyd fod y ffaith nad yw safleoedd mwy'n cael eu datblygu'n gyflym neu mewn niferoedd mawr yn adlewyrchu ffactorau fel natur fwy cymhleth gofynion ariannu, diffyg cwmnïau sy'n adeiladu niferoedd mawr o dai, y cyllid masnachol cyfyngedig sydd ar gael i gwmnïau adeiladu bach, ac agwedd ragofalus cwmnïau morgeisi at brynwyr tai.

At hynny, mae'r cyfnod paratoi ar gyfer datblygu safleoedd mwy yn hirach nag ar gyfer safleoedd bach ac felly mae'n rhy gynnar i farnu llwyddiant safleoedd a neilltuwyd. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn monitro'r sefyllfa hon yn ofalus trwy gysylltu'n rheolaidd â pherchnogion/datblygwyr safleoedd mwy a neilltuwyd; mae nifer y cyfarfodydd a thrafodaethau cyn gwneud cais gyda thirfeddianwyr yn awgrymu y bydd nifer o'r safleoedd hyn yn cael eu datblygu cyn bo hir.

### **Casgliadau**

Mae 'cyfeiriad y daith' tuag at y nodau polisi o ailganolbwyntio twf a ddangosir yn y canlyniadau'n gadarnhaol ac felly nid oes unrhyw bryderon sylweddol ynghylch gweithrediad y polisiau ar hyn o bryd.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH03 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Grwpiau Aneddiadau'r Strategaeth Anheddu <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Tai a gwblhawyd ac ymrwymadau i adlewyrchu rhaniad canrannol pob un o'r Grwpiau Aneddiadau unigol fel y nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI erbyn diwedd cyfnod y cynllun.	O'r dyddiad mabwysiadu, yn y Grwpiau Aneddiadau unigol, dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymadau rhwng y Ganolfan Gwasanaethau a'r 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' fod yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodiad 2 Cyfrol 1 y CDLI, neu'n gweithio tuag atynt.	Os bydd y twf cymesurrol yn uwch na'r disgwyl yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', gwrthodir rhagor o ddatblygu preswyl yn y Grŵp Aneddiadau hwnnw, ar gyfer yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', nes bydd y caniatadau sy'n sefyll wedi darfod neu wedi cael eu dirymu ac y bydd yr ymrwymadau'n adlewyrchu neu'n dynesu at y rhaniad cymesurrol a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI.	Gweler Atodiad 6.	0
<b>Dadansoddiad</b> Ar yr adeg hon yng nghyfnod y Cynllun ni ddisgwylir i'r ganran adlewyrchu honno a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n awgrymu gwelliant bras ar draws y Grwpiau Aneddiadau wrth weithio tuag at y gofynion a nodir yn Atodiad 2, Cyfrol 1 o'r CDLI. Dim ond 8 Grŵp Aneddiadau a fethodd â sicrhau gwelliannau yn y ganran rhaniad o'r tai a gwblhawyd a'r ymrwymadau mewn Canolfannau Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn monitro hon, sef Aberaeron/Llwyncelyn, Castell Newydd Emlyn/Adpar, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Cenarth, Llanilar, Llanon, Penrhyncoch. Fodd bynnag, nid oedd grwpiau aneddiadau Aberaeron/Llwyncelyn a Llanon wedi gweld gwelliannau yn nifer y tai a gwblhawyd mewn Canolfannau Gwasanaethau yn ystod y cyfnod monitro. Roedd 11 o grwpiau aneddiadau wedi gwneud symudiad cadarnhaol tuag at gyrraedd eu targedau ac roedd 3 grŵp aneddiadau heb weld unrhyw newid o'r cyfnod monitro blaenorol.				

### **Casgliadau**

Mae perfformiad y CDLI yn ôl y dangosydd hwn yn foddhaol yn yr ystyr bod y data'n dangos symudiad cadarnhaol at ei gilydd tuag at y targedau yn y rhan fwyaf o'r Grwpiau Aneddiadau. Bydd rhaid i'r canlyniad y flwyddyn nesaf ddangos rhagor o welliant gyda nifer y Grwpiau Aneddiadau sydd heb symud tuag at y cydbwysedd gofynnol yn 8 neu'n llai.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH04 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Strategaeth Anheddu - Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt' <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 ac S04 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (25 Ebrill 2013 - 31 Mawrth 2014)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ni fydd yr ymrwymadau'n peri bod unrhyw un o'r Aneddiadau Cyswllt yn tyfu mwy na 12% o'i faint fel yr oedd ar 1 Ebrill 2007 (fel y'i nodir yn Atodiad 5 i Gyfrol 1 o'r CDLI).	O 1 Ebrill 2007, ar lefel y Grwpiau Aneddiadau, twf yr holl stoc tai a ymrwymwyd yn yr Aneddiadau Cyswllt unigol.	<p>Os cyrhaeddir y 12% ni chaniateir rhagor o ddatblygu onid oes cyfiawnhad dros hynny o dan Bolisi S04.</p> <p>Os na chyrhaeddir y 12% ond bod cyfradd y twf yn uwch na 4% fel y nodir yn DM01 bydd dadansoddiad ynghylch a oes cyfiawnhad dilys dros fynd dros ben y 4% (e.e. tai fforddiadwy yn unol ag S04).</p>	<p>O gyfanswm o 90 o Aneddiadau Cyswllt, mewn 22 Grŵp Aneddiadau, mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 38 o Aneddiadau Cyswllt lle mae'r twf wedi bod yn uwch na 12% o ran ymrwymadau; a</li> <li>• 4 o Aneddiadau Cyswllt sydd wedi cyrraedd y terfyn twf o 12% o ran ymrwymadau; a</li> <li>• 3 o Aneddiadau Cyswllt wedi cwmpo yn ôl i'r terfyn twf 12%.</li> </ul> <p>Mewn dim ond dau o'r Grwpiau Aneddiadau, mae'r twf wedi bod yn uwch na 12% ar draws eu holl Aneddiadau Cyswllt.</p> <p>Gweler Atodiad 7 i gael y manylion llawn.</p>	0

### Dadansoddiad

Etifeddodd y CDLI ganiatadau cynllunio a roddwyd o dan drefn gynllunio flaenorol; hyn sy'n gyfrifol am y twf gormodol mewn 38 o Aneddiadau Cyswllt fel mater o ffaith, gan fod 33 eisoes wedi gweld twf uwch na 12%. Ers AMB y flwyddyn ddiwethaf, mae caniatadau cynllunio sydd wedi darfod yn golygu bod 3 o'r 37 o Aneddiadau Cyswllt a nodwyd yn AMB 2013/14 wedi cwmpo yn ôl i'w terfyn o 12%, fodd bynnag, roedd 4 arall wedi mynd yn uwch na'r terfyn yn y cyfnod (2014/15). Felly bu cynnydd net o 1 anheddiad gan fod y twf yn 2012 yn y canlynol yn uwch na'r terfyn 12%:

- Drefach
- Horeb
- Rhydowen
- Llanfihangel-y-Creuddyn

Ac yn yr aneddiadau canlynol cwmpodd y twf yn ôl i'r terfyn 12%:

- Sarnau (heb fod yn uwch na'r terfyn mwyach, capasiti wedi'i gyrraedd oherwydd ceisiadau sydd wedi darfod)
- Llandre (heb fod yn uwch na'r terfyn mwyach, capasiti ar gyfer 2)
- Mydroilyn

Felly ni fu unrhyw newid yn statws y rhan fwyaf o'r Aneddiadau Cyswllt, gyda dim ond 3 sydd wedi gwella ar eu sefyllfa flaenorol (cwmpo yn ôl i'r terfyn twf 12%) a 4 arall sy'n uwch na'u twf posibl o 12%. Mae cyfanswm yr Aneddiadau Cysylltiedig sydd yn uwch na'u terfyn 12% wedi cynyddu gan 1 ers y flwyddyn ddiwethaf, o 37 o Aneddiadau Cyswllt i 38. Er bod 1 anheddiad cyswllt ychwanegol yn uwch na'r twf 12% yn ystod y cyfnod monitro, roedd nifer y grwpiau aneddiadau lle'r oedd yr holl Aneddiadau Cyswllt o fewn y Grŵp Aneddiadau hwnnw yn uwch na'r twf 12% wedi gostwng o 6 i 2 - mae hwn yn gam cadarnhaol o fewn y Grwpiau Aneddiadau hynny. Er mwyn i'r sefyllfa hon wella eto, bydd angen adfer mwy o'r twf posibl hwn sydd wedi'i ymrwymo ar hyn o bryd drwy ganiatadau cynllunio sydd wedi darfod, ac ni ellir caniatáu rhagor o dwf yn y 38 o aneddiadau dan sylw (a restrir yn Atodiad 7) oni bai bod cyfiawnhad eithriadol drosto.

### Casgliadau

O gofio faint o ddatblygu a ganiatawyd mewn Aneddiadau Cyswllt, cyn mabwysiadu'r cynllun a gweithredu Polisi S04, bernir eu bod yn rhy gynnar i wneud casgliadau am berfformia/gweithrediad y polisi a dylid parhau i'w fonitro'n agos yn y dyfodol.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH05 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Strategaeth Anheddu - Natur y datblygu yn y 'Lleoliadau Eraill' <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 ac S04 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Seilir ymrwymadau ar angen clir am dai fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 yn unig.	O'r dyddiad mabwysiadu, y math o ddatblygu a ganiateir.	<p>Lle bo datblygu'n digwydd nad yw'n fforddiadwy mewn lleoliadau sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru neu unedau o dan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6, cynhelir ymchwiliad ynghylch y cyfiawnhad dros unedau o'r fath.</p> <p>Sicrhau y cyfyngir datblygu yn y dyfodol i'r hyn a ganiateir o dan bolisi S04 (Tai Fforddiadwy a TAN 6).</p>	<p>Mae'r math o ddatblygu a ganiatwyd mewn lleoliadau eraill yn ystod y cyfnod monitro fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 9 cais sy'n cydymffurfio â TAN 6 ar gyfer Aneddiadau i Weithwyr Mentrau Gwledig,</li> <li>• 5 cais sy'n cydymffurfio â pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru ar gyfer Tai Fforddiadwy,</li> <li>• 1 chais materion a gadwyd yn ôl am ganiatâd amlinellol a gymeradwywyd o dan y Cynllun Datblygu Unedol,</li> <li>• 10 cais ar gyfer annedd cyfnewid - felly dim cynnydd net mewn unedau.</li> <li>• 9 chais a gymeradwywyd yn groes i argymhellion</li> </ul>	0

			<p>swyddogion yn y Pwyllgor Cynllunio nad ydynt yn cyd-fynd â'r CDLI, TAN 6, na pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru (Tai Fforddiadwy) sy'n ysgogi'r angen am ymchwiliad pellach.</p>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau ar gyfer datblygu mewn lleoliadau eraill ar gyfer aneddiadau cyfnewid (nid yw'r rhain yn creu cynnydd net mewn nifer yr unedau), Tai Fforddiadwy yn unol â Pharagraff 9.2.22, neu Aneddiadau i Weithwyr Mentrau Gwledig yn unol â TAN 6. Felly ni ellir barnu bod unrhyw un o'r rhain wedi cael eu cymeradwyo'n groes i'r CDLI.</p> <p>Fodd bynnag, roedd 9 cais nad ydynt, ar yr olwg gyntaf, yn cyd-fynd â'r CDLI na chanllawiau cenedlaethol. Cafodd y rhain eu cymeradwyo'n groes i argymhellion swyddogion yn y Pwyllgor Cynllunio ac nid ydynt yn cyd-fynd â'r CDLI, TAN 6, na pharagraff 9.2.22 Polisi Cynllunio Cymru (Tai Fforddiadwy).</p>				
<p><b>Casgliadau</b></p> <p>Roedd y datblygu a ddigwyddodd y tu allan i'r hyn a ganiateir gan Strategaeth y CDLI, TAN 6 a Pholisi Cynllunio Cymru 9.2.22 yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad y Swyddog. Cafodd y cyfiawnhad ei gofnodi ym mhob un ond 2 o'r 9 penderfyniad hyn. Mae'r Awdurdod Lleol wedi newid gweithdrefnau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a bydd pwyslais ar gadw cofnodion cynhwysfawr a chofnodi'r cyfiawnhad dros unrhyw wyro yn parhau i gael ei annog, gan geisio sicrhau bod pob cyfiawnhad o'r fath a roddir gerbron y pwyllgor yn cael ei gofnodi'n gywir. Ar yr amod bod cyfiawnhad cynllunio da yn cael ei gyflwyno, gall ceisiadau gael eu caniatáu mewn achosion eithriadol. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau pan fydd cyfiawnhad yn cael ei gyflwyno bod hwnnw'n seiliedig ar ymresymu cynllunio, a lle y bo modd, ar dystiolaeth gadarn a gyflwynwyd yn unol â S04 a S05 (e.e. o angen lleol os yw'r cais yn ymwneud â thai fforddiadwy). Felly nid yw unrhyw bryderon polisi yn deillio o'r dangosydd hwn.</p>				



<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH06 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Cyflenwad Tir ar gyfer Tai <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04 ac LU05 <b>Lefel:</b> Gorfodol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC (trwy'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai)				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Champau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn unol â Nodyn Cyngor technegol (TAN) 1.	Cyflenwad Tir ar gyfer Tai ar 1 Ebrill bob blwyddyn	Os bydd diffyg yn y cyflenwad tir 5 mlynedd, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu pa gamau i'w cymryd ac yn ymgynghori â'i bartneriaid yn y Gyd-astudiaeth. Efallai y bydd angen ystyried a oes angen cynnwys mwy o dir yn y CDLI.	<p>Mae Adroddiad Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2014, a gyhoeddwyd ym Mai 2015, yn dangos bod cyflenwad 3.7 mlynedd o dir ar gyfer Ceredigion.</p> <p>Mae Adroddiad Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015, yn dangos bod cyflenwad 3.3 mlynedd o dir ar gyfer Ceredigion.</p>	0
<b>Dadansoddiad</b> Y prif reswm dros ostyngiad yn y ffigur cyflenwad tir o 2013 i 2014 yw newid yn y dull o gyfrifo'r cyflenwad tir i gyflenwad tir gweddilliol yn hytrach na'r dull unedau a gwblhawyd a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Yn seiliedig ar ddull cyflenwad tir gweddilliol, mae'n rhesymol i ddisgwyl lefel is o gyflenwad tir wrth i chi ddod at ddiwedd cyfnod y cynllun.  Mae astudiaeth 2015 yn dangos gostyngiad pellach yn y cyflenwad tir i 3.3 o flynyddoedd, sydd yn is na'r cyflenwad 5 mlynedd sy'n ofynnol gan TAN1. Er bod y cynllun heb gyrraedd ei darged ar hyn o bryd, ni ystyrir bod adolygiad yn ofynnol ar y cam hwn am y rhesymau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Darpariaeth Tai i lawr ar draws Cymru ac nid yw'n broblem sy'n unigryw i Geredigion. Mae'r farchnad yn cyfyngu ar y ddarpariaeth tai am</li> </ul>				

amrywiaeth o resymau sydd y tu allan i reolaeth y system gynllunio, gan gynnwys diffyg cyllid datblygu, argaeledd morgeisiau a phrinder sgiliau yn y diwydiant datblygu lleol

- Mae'r targed tai ar gyfer y cynllun yn uchel, felly yn dilyn y newid mewn methodoleg, mae ein ffigurau cyfenwad wedi gostwng. Mae nifer y caniatadau yn y Sir yr un fath â'r nifer yn 2013, sy'n awgrymu na fu unrhyw newid yn nifer y safleoedd sydd ar gael i'w datblygu.
- Cafodd safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI eu cynnwys yn y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai am y tro cyntaf yn 2014 yn dilyn mabwysiadu'r cynllun ar 25 Ebrill 2013 (ar ôl dyddiad sylfaen astudiaeth 2013). O ganlyniad mae mwy o gyflenwad o safleoedd tai ac unedau yn gyffredinol. Mewn gwirionedd, er bod y ffigur cyflenwad tir ar gyfer tai wedi gostwng, mae'r cyflenwad tir wedi cynyddu mewn gwirionedd. Nid yw'r safleoedd a gynhwyswyd fel rhai a neilltuwyd yn waeth yn gyffredinol neu'n fwy anodd i'w cyflenwi; hefyd mae mwy ohonynt.

Mae'r dewisiadau canlynol wedi cael eu hystyried i roi sylw i fethu â chyrraedd y targed:

- Oherwydd dull cyfrifo'r cyflenwad tir, pe bai gofyniad am anheddau'r cynllun yn cael ei leihau o 6000, byddai'n hynny yn y cynyddu'r cyflenwad tir. Fodd bynnag, byddai risgiau sylweddol i weithredu o'r fath oherwydd ni wyddom ar hyn o bryd gan faint y gallem ni leihau'r gofyniad am anheddau er mwyn iddo beidio ag arwain at dan-ddarpariaeth. At hynny, mae'r Gweinidog Carl Sargeant wedi rhybuddio yn erbyn seilio gofynion am anheddau dim ond ar amcanestyniadau yn seiliedig ar gyfnod o ddirywiad yn yr economi (gweler Adran AMRH01 uchod sy'n trafod canlyniadau'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai).
- Ni fyddai cynyddu'r cyflenwad tir yn briodol oherwydd nid argaeledd safleoedd y gellir eu datblygu yw'r broblem, ond yn hytrach y gallu i gyflenwi'r safleoedd. Mae Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn cytuno na fyddai hyn yn ateb y broblem yng Ngheredigion (nodwyd yn ystod trafodaethau cyfarfod Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015 rhwng CSC a rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi).
- Fodd bynnag, mae'n bwysig cynyddu'r ddarpariaeth os ydym am wireddu'r Strategaeth. Fodd bynnag, bydd hyn yn anodd iawn os nad oes angen a galw yn y farchnad fel yr awgrymir gan yr amcanestyniadau diweddaraf o boblogaeth ac aelwydydd

Nid yw'r targed yn cael ei gyrraedd, felly mae'n ofynnol i ni esbonio pa gamau, os oes, y gellir eu cymryd i geisio gwella'r ddarpariaeth tai:

- Bydd y Cyngor yn cysylltu ac yn cysylltu'n rheolaidd â datblygwyr tiffeddianwyr/ymgeiswyr. Bydd hyn yn rhan o rôl y Swyddog Cyflenwi Tai newydd a ddechreuodd yn ei swydd ym Medi 2015.
- Bydd y Swyddog Cyflenwi Tai hefyd yn targedu:
- Safleoedd sydd â chaniatadau ond sydd wedi cael eu hoedi,
- Safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI sydd â chaniatâd ond sydd heb ddechrau neu nid oes ganddynt ganiatâd, dim cysylltiad, a dim rheswm pam nad ydynt wedi cael eu datblygu. Bydd y Swyddog Cyflenwi Tai yn ceisio sefydlu amserlenni ar gyfer cyflenwi ac yn pwysleisio os nad oes tystiolaeth o unrhyw symudiad tuag at ddatblygu, mae posibilrwydd i'r safle gael ei ddileu yn ystod proses adolygu a diwygio CDLI 2017. Bydd y Swyddog Cyflenwi

Tai yn canolbwyntio i gychwyn ar y Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig er mwyn ceisio cael y strategaeth yn ôl ar y trywydd iawn.

- Bydd y Swyddog Cyflenwi Tai yn adnabod unrhyw broblemau gyda safleoedd nad ydynt yn cael eu datblygu i weld sut y gall y Cyngor helpu i ddatrys unrhyw broblemau. Gall rôl y Cyngor mewn ymateb i broblemau gynnwys newid gofynion datblygu fesul cam, cysylltu â chwmnïau cyllid, a hwyluso cyfranogiad Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

### **Casgliadau**

Nid yw'r targed cyflenwad tir o 5 mlynedd yn cael ei gyrraedd, fodd bynnag, mae camau gweithredu i wella'r ddarpariaeth wedi cael eu nodi, ac yn wyneb ansicrwydd lefelau'r angen am dai, ni ystyrir ei fod yn ysgogydd ar gyfer adolygiad ar hyn o bryd.

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH07(Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Cyflenwi Safleoedd Tai a Neilltuwyd <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC (trwy'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>40% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2017.</p> <p>100% o gyfanswm yr anheddau y rhagwelir eu cyflenwi ar safleoedd a neilltuwyd i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022.</p>	<p>1. Maint y datblygiadau tai sy'n cael caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a hectarau) fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Ar 31 Mawrth 2015, 40%</li> <li>ii. Ar 31 Mawrth 2017, 60%</li> <li>iii. Ar 31 Mawrth 2019, 84%</li> <li>iv. Ar 31 Mawrth 2021, 100%</li> </ul> <p>2. Maint y datblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a hectarau) fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Ar 31 Mawrth 2015, 20%</li> <li>ii. Ar 31 Mawrth 2017, 40%</li> <li>iii. Ar 31 Mawrth 2019, 64%</li> <li>iv. Ar 31 Mawrth 2021, 88%</li> </ul>	<p>Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi eu cyflawni yn unol â'r hyn a ragamcanwyd yna cynhelir ymchwiliad i'r achosion. Bydd hynny'n cynnwys dadansoddiad o'r berthynas rhwng caniatadau cynllunio a'r unedau a gwblhawyd.</p>	<p>Mae maint y datblygiadau tai a gafodd ganiatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unedau: 145 o unedau, sef 4.2% o'r unedau a ragwelwyd ar safleoedd a neilltuwyd.</li> <li>• Arwynebedd: 5.83ha, sef 4.3% o holl arwynebedd safleoedd a neilltuwyd.</li> </ul> <p>Mae maint y datblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unedau: 27 o unedau, sef 0.8% o'r unedau a ragwelwyd ar safleoedd a neilltuwyd.</li> <li>• Arwynebedd: 0.88 hecтар, sef</li> </ul>	0

			0.7% o holl arwynebedd safleoedd a neilltuwyd.	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu'r ffaith mai dim ond ers dwy flynedd y mae'r CDLI wedi cael ei fabwysiadu. Cyn hynny roedd ansicrwydd yn cyfyngu ar gynigion datblygu ar gyfer safleoedd a neilltuwyd. Maent hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod mabwysiadu'r Cynllun yn cyd-daro â marchnad dai gymharol farwaidd. Yn ychwanegu at hyn mae'r ffaith bod yna gyfnod paratoi cymharol hir ar gyfer safleoedd mwy a neilltuwyd a dim ond nifer gyfyngedig o adeiladwyr lleol sydd â'r gallu i fentro ar ddatblygiad o'r maint arfaethedig. Hefyd mae diffyg diddordeb yng Ngheredigion gan adeiladwyr safleoedd lluosog. Mae ymchwiliad wedi cael ei gynnal (Mawrth 2015) i'r berthynas rhwng caniatadau ac unedau a gwblhawyd. Er bod yr ymchwiliad wedi canfod cymhareb uchel rhwng caniatadau ac unedau a gwblhawyd, mae hwn yn debyg i awdurdodau gwledig cyfagos yn ardal Gorllewin Cymru ac yn symptom o amodau economaidd ehangach y farchnad ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithio gyda pherchnogion/datblygwyr safleoedd a neilltuwyd i hybu gwaith buan i baratoi ar gyfer cyflenwi safleoedd/casglu tiroedd ynghyd ac ati lle bo angen. Dylai nifer y trafodaethau cyn gwneud cais arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau ar safleoedd a neilltuwyd yn y flwyddyn fonitro nesaf. Wrth gwrs, bydd yn cymryd ychydig o flynyddoedd i drosi hyn yn unedau tai a gwblhawyd. Mae'r perfformiad wedi cynyddu ers y flwyddyn ddiwethaf ac er nad yw'r targedau wedi cael eu cyrraedd, maent yn dangos cam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn.</p>				
<p><b>Casgliadau</b></p> <p>Mae perfformiad wedi gwella ers y flwyddyn ddiwethaf ac er nad yw'r targedau wedi cael eu cyrraedd, maent yn dangos cam cadarnhaol i'r cyfeiriad iawn. Mae angen gwneud gwaith pellach y flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf i hwyluso cynnydd pellach mewn ymrwymiad a chyflenwi safleoedd a ddyrannwyd - bydd hyn yn amcan allweddol i'r Swyddog Cyflenwi Tai newydd - a disgwylir gweld gwelliannau dros y 18 mis nesaf.</p>				

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH08 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Datblygu Tai mewn Lleoliadau Priodol <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S03 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC (trwy'r Cyd-astudiaethau Tir ar gyfer Tai)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Diwallu 90 - 100% o'r angen am ddatblygu preswyl mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig ar safleoedd a neilltuwyd, heblaw am Aberystwyth lle dylai 80-90% fod ar safleoedd a neilltuwyd, ar ôl mabwysiadu'r CDLI.	1. Maint y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI). 2. Maint y datblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).	Os bydd y canrannau'n cwmpo o dan y targed am 2 flynedd yn olynol mewn unrhyw Grŵp Aneddiadau penodol, cynhelir dadansoddiad o'r ysgogyddion posibl er mwyn deall y sefyllfa a chymryd camau lle bo'n briodol i wydroi'r duedd.	Mae maint y datblygiadau tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau fel a ganlyn:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unedau: 68 uned, sef 21.5% o'r unedau a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI.</li> <li>• Arwynebedd: 1.83 ha, sef 3.6% o'r arwynebedd tir a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI.</li> </ul> Mae maint y datblygiadau tai a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd yn y	0

			<p>Canolfannau Gwasanaethau fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Unedau: 18 uned, sef 11% o'r unedau a gwblhawyd yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI.</li> <li>• Arwynebedd: 0.55 ha sef 9% o'r arwynebedd tir a gwblhawyd yn y Canolfannau Gwasanaethau ers mabwysiadu'r CDLI.</li> </ul>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Mae'r canlyniadau yn gymedrol iawn o'i gymharu â'r targed, ond mae'r CDLI wedi cael ei fabwysiadu am ddwy flynedd yn unig. Mae'r canlyniadau yn dangos gwelliant arwyddocaol tuag at gyrraedd y targed ers y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer datblygiadau a ganiateir. Er bod y canlyniadau yn sylweddol is na'r targed ar gyfer ddatblygiadau a gwblhawyd, mae hyn yn adlewyrchu'r nifer isel o unedau a gwblhawyd ar draws y Sir gan gynnwys o fewn y Canolfannau Gwasanaethau. Dylid hefyd nodi bod y dangosydd hwn yn ymdrin â chaniatadau ar ôl mabwysiadu'r CDLI yn unig, a bod gan nifer o safleoedd a neilltuwyd ganiatadau cynllunio a gymeradwywyd cyn mabwysiadu'r CDLI. Y rhai a ganiatawyd neu y rhoddwyd penderfyniad i'w cymeradwyo cyn mabwysiadu'r CDLI yw H0301, H0802 ac H1502.</p>				
<p><b>Casgliadau</b></p> <p>Dim achos i bryderu ar hyn o bryd. Er bod y canlyniadau yn sylweddol is na'r targed ar gyfer datblygiadau a gwblhawyd, mae hyn yn adlewyrchu'r nifer isel o unedau a gwblhawyd ar draws y Sir gan gynnwys o fewn y Canolfannau Gwasanaethau. Camau gweithredu ar gyfer darparu tai i'w rhoi yn eu lle i weld a ellir cynyddu cyfraddau cyflenwi (rôl allweddol i'r Swyddog Cyflenwi Tai yn ystod rhan olaf 2014/15), a allai ddechrau dylanwadu ar ganlyniadau yn yr AMB nesaf, er mewn gwirionedd, ni fyddem yn disgwyl gweld gwahaniaeth tan 2016/17.</p>				

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH09 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Datblygu Tai ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S03 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC (trwy'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai)				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
5% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd).	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir. 2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Oni fydd o leiaf 4% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiateir ac a gwblheir wedi ei gyflawni ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir ymchwiliad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol ymdrin â'r rhwystrau.	Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiatawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir: 8.7ha (41%)  Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblhawyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd: 2.1ha (29%)	+
<b>Dadansoddiad</b> Mae maint y datblygu a ganiatawyd ac a gwblhawyd ar dir llwyd yn llawer mwy na'r targed o 4% - cyfrifir am hyn yn bennaf gan eiddo sy'n cael eu cyfaddasu a'u troi'n fflatiau, gyda bron hanner ohonynt yn Aberystwyth.				
<b>Casgliadau</b> Cyrhaeddir y targedau yn rhwydd ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryder ynghylch gweithrediad y polisiâu.				



<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH10 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Tai Fforddiadwy <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S05 <b>Lefel:</b> Gorfodol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
1,100 o Dai Fforddiadwy wedi eu cwblhau (70 y flwyddyn) erbyn 2022	1. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a ganiatawyd ers (1 Ebrill) 2007. 2. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a gwblhawyd ers (1 Ebrill) 2007.	Cynhelir ymchwiliadau pellach ar y dangosydd hwn os bydd nifer y caniatadau sy'n sefyll/unedau o dai fforddiadwy a gwblhawyd dros gyfnod o 2 flynedd yn cwmpo o dan y lefel flynyddol sy'n ofynnol.  Bydd dealltwriaeth o'r cyflenwad tai cyffredinol yn hanfodol i'r ymchwiliad hwn (gweler AMRH06 uchod).  Efallai y bydd angen ymateb i'r targed hwn ar y cyd â'r Adran Dai a rhanddeiliaid eraill ym maes tai megis landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.	Ers 1 Ebrill 2007 mae nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a ganiatawyd ac a gwblhawyd fel a ganlyn:  <b>A ganiatawyd</b>  Cartrefi Fforddiadwy: 686 Cyfanswm Cartrefi: 3081  <b>A gwblhawyd</b>  Cartrefi Fforddiadwy: 292 Cyfanswm Cartrefi: 1,546	0
<b>Dadansoddiad</b> Y gofyniad polisi ar gyfer tai fforddiadwy yw i 20% o'r holl unedau fod yn fforddiadwy. Fel y dengys y ffigurau uchod, mae niferoedd y cartrefi fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn 686 a ganiatawyd a 292 a gwblhawyd. Mae twf y farchnad dai gyffredinol wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol ac mae hyn yn effeithio ar allu'r polisi i gyflenwi tai (gan gynnwys, felly, tai fforddiadwy). Gan fod nifer tai'r farchnad gyffredinol				

a gwblhawyd o flwyddyn i flwyddyn i lawr o darged y CDLI, felly hefyd mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd. Y targed yw cwblhau 70 o unedau tai fforddiadwy bob blwyddyn (ar sail cyflenwi 400 o unedau'r farchnad gyffredinol bob blwyddyn yn y CDLI). Yr hyn mae'r ffigurau hyn yn ei ddangos yw bod 292 o unedau tai fforddiadwy wedi cael eu cwblhau, sy'n gyfwerth, o'i gyfartaledd dros 7 mlynedd, â chwblhau 42 o unedau tai fforddiadwy bob blwyddyn. Mae hyn yn dangos, er bod y polisi'n sicrhau bod 20% o'r holl dai yn unedau tai fforddiadwy, ei bod yn debygol na fydd y targed blynyddol, sef cwblhau 70 o unedau tai fforddiadwy, yn cael ei gyrraedd hyd nes i gyfradd cwblhau tai'r farchnad gyffredinol wella. Mae'r polisi ei hun yn llwyddo i gyflawni ei uchelgais ond mae grymoedd y farchnad allanol yn milwrio yn erbyn cyflawni'r targed a nodir o 400 o unedau bob blwyddyn, gan effeithio ar y targed tai fforddiadwy (70 o unedau tai fforddiadwy bob blwyddyn).

### **Casgliadau**

Nid yw'r targed, sef cwblhau 70 o unedau o dai fforddiadwy bob blwyddyn, yn cael ei gyrraedd oherwydd arafu cyffredinol yn yr economi, a welwyd ledled y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, o'r unedau sy'n cael eu caniatáu a'u cwblhau, mae oddeutu 20% yn fforddiadwy. Felly, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH11 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Tai Fforddiadwy <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S05 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Ers mabwysiadu'r CDLI, mae o leiaf 20% o'r holl anheddau a ganiateir yn unedau fforddiadwy	1. Canran y ceisiadau preswyl lle cyflwynir her dichonoldeb. 2. Nifer y safleoedd lle cyflwynir her a hynny'n llwyddiannus i leihau nifer y Tai Fforddiadwy fel cyfran o nifer yr heriau.	<p>Os bydd mwy nag 20% o'r safleoedd a ganiateir yn methu â darparu'r tai fforddiadwy sy'n ofynnol mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y Cynllun, yna cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny.</p> <p>Os bydd yr holl safleoedd yn darparu 20% neu fwy o dai fforddiadwy mewn unrhyw flwyddyn neilltuol o gyfnod y Cynllun, yna cynhelir asesiad i weld a yw'r gofyniad am 20% o dai fforddiadwy'n rhy fach ac a ddylid ei godi.</p> <p>Gwneir hynny trwy gynnal ymarferiad dichonoldeb newydd. Bydd yr ymarferiad yn argymhell nifer ddichonol o Dai Fforddiadwy fel</p>	<p>Anheddau fforddiadwy yw 22.3% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiatwyd yn ystod cyfnod y CDLI.</p> <p>Nifer y ceisiadau preswyl lle cyflwynwyd her dichonoldeb: 12, sy'n gyfwerth ag oddeutu 3% o'r holl ganiatadau preswyl (371 o unedau yn ystod y cyfnod monitro).</p> <p>Nifer y safleoedd lle cyflwynwyd her lwyddiannus i leihau nifer y Tai Fforddiadwy fel cyfran o nifer yr heriau: 12, sy'n gyfwerth â 100% o'r ceisiadau preswyl lle cyflwynwyd her dichonoldeb.</p>	+

		canran. Bydd angen i'r Prisiwr Dosbarth fwrw cyfrif hefyd o'r canran o'r Gwerth Datblygu Gros.		
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Cyflwynwyd 12 her dichonoldeb i bolisi tai fforddiadwy S05 ynghylch ceisiadau cyfaddasu, newid defnydd ac adnewyddu. O'r heriau dichonoldeb roedd 100% yn llwyddiannus. Cydnabyddir bod cyfaddasiadau yn gostus i'w cwblhau, ac felly nid yw'n syndod bod dichonoldeb y cynlluniau hyn wedi'i gyfaddawdu. Ni chafwyd unrhyw heriau dichonoldeb ar safleoedd tir glas a chan ystyried bod yr heriau dichonoldeb yn 3% yn unig o'r holl ganiatadau preswyl, ni ystyrir bod angen cynnal asesiad dichonoldeb wedi'i ddiweddarau ar hyn o bryd.</p> <p>Yn bwysig iawn, mae 22.3% o'r holl ddatblygu preswyl a ganiatawyd yn ystod cyfnod y CDLI (2007 i 2015) wedi bod ar gyfer anheddau fforddiadwy.</p>				
<p><b>Casgliadau</b></p> <p>Cyrhaeddir y targedau ar hyn o bryd ac nid oes pryder ynghylch gweithrediad polisiau'r CDLI.</p>				

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH12 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Mathau o Dai Fforddiadwy <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S05 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Ers dechrau cyfnod y CDLI: 9% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o werth y farchnad</p> <p>32% o'r unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o werth y farchnad (i'w gwerthu'n syth i'r preswylwyr ac i'w darparu i landlordiaid i'w gosod ar renti canolradd)</p> <p>59% o'r unedau tai fforddiadwy ar gyfer rhenti cymdeithasol, a ddarperir gan y sector preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>	Unedau a Gwblheir ac Ymrwymadau yn ôl eu math	<p>Os yw canrannau'r unedau a gwblheir a'r ymrwymadau o ran:</p> <p>Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 70% o werth y farchnad yn cwmpo o dan 8-10% o'r tai fforddiadwy a ganiateir.</p> <p>Unedau fforddiadwy ar werth ar ostyngiad am 50% o werth y farchnad yn cwmpo o dan 28-35%.</p> <p>Unedau fforddiadwy a drawsgludir am 35% o werth y farchnad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar rent cymdeithasol yn cwmpo o dan 53-66%.</p> <p>Efallai y bydd angen cyfyngu/hybu rhai mathau o ddatblygiadau preswyl er mwyn sicrhau bod y canrannau'n agosach at yr</p>	<p>Ers dechrau cyfnod y CDLI, roedd yr unedau a gwblhawyd ac ymrwymadau tai fforddiadwy yn ôl eu math fel a ganlyn:</p> <p><b>Ar werth ar ostyngiad 70%</b>          Unedau a gwblhawyd: 150 (52% o'r holl anheddau fforddiadwy)          Ymrwymadau: 366 (55% o'r holl anheddau fforddiadwy)          Ar werth ar ostyngiad Arall          Unedau a gwblhawyd: 0          Ymrwymadau: 2 (1% o'r holl anheddau fforddiadwy)</p> <p><b>Ar werth ar ostyngiad 50% / Rhent Canolradd</b>          Unedau a gwblhawyd: 2 (1% o'r holl anheddau fforddiadwy)          Ymrwymadau: 5 (1% o'r holl anheddau fforddiadwy)</p>	0

		<p>anghenion a nodwyd. Bydd yn rhaid cymryd camau o'r fath ar y cyd â'r Adran Dai a rhanddeiliaid eraill ym maes tai, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</p>	<p><b>Ar rent cymdeithasol (a drawsgludwyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig)</b>                  Unedau a gwblhawyd: 22 (8% o'r holl anheddau fforddiadwy)                  Ymrwymadau: 37 (6% o'r holl anheddau fforddiadwy)</p> <p><b>Ar rent cymdeithasol (a gomisiynwyd 100% gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig):</b>                  Unedau a gwblhawyd 114 (39% o'r holl anheddau fforddiadwy)                  Ymrwymadau: 261 (39% o'r holl anheddau fforddiadwy)</p>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Mae patrwm dosbarthiad unedau a gwblhawyd, ac ymrwymadau ar gyfer tai fforddiadwy yn ôl eu math, y tu allan i'r ystodau goddefiant y bwriedir iddynt ysgogi camau gweithredu. Serch hynny, nid yw'r CDLI mabwysiedig wedi effeithio arnynt eto mewn ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn arbennig o glir mewn perthynas â thai fforddiadwy 'canolradd' (1% ar hyn o bryd) yn enwedig gan nad oedd unedau Rhent Canolradd yn rhan o ofynion polisi cyn y CDLI (dim ond ar werth ar ostyngiad ac ar rent cymdeithasol). Fodd bynnag, dyma'r flwyddyn gyntaf y mae anheddau 50% ar werth ar ostyngiad wedi cael eu cymeradwyo a'u cwblhau sy'n dangos bod tenantiaethau Canolradd yn cael eu negodi a bod galw amdanynt. Mae'r mwyafrif o'r tai fforddiadwy a gwblhawyd ac ymrwymadau wedi cael eu comisiynu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac felly'n debygol o fod wedi elwa ar gymorth Grant Tai Cymdeithasol.</p> <p>Dylid nodi ei bod yn bosibl nad yw darpariaeth unedau Rhent Canolradd yn dibynnu'n llwyr ar roi caniatadau newydd. Mae yna fecanwaith yn adran 106 ddiwygiedig sy'n caniatáu i berchennog eiddo Tai Fforddiadwy wneud cais i'r Cyngor i newid natur yr uned Tai Fforddiadwy o Ar Werth ar Ostyngiad i Rent Canolradd. Felly mae'n bosibl y gallai rhywfaint o'r stoc Tai Fforddiadwy Ar Werth ar Ostyngiad sy'n bodoli eisoes ddod yn unedau Tai Fforddiadwy Rhent Canolradd yn y dyfodol.</p>				
<p><b>Casgliadau</b></p> <p>Mae dosbarthiad bras Tai Fforddiadwy yn foddhaol. Felly nid yw perfformiad y polisi o bryder mawr ar hyn o bryd. Dylai cyflenwi tenantiaethau canolradd gael ei fonitro'n agos yn y dyfodol.</p>				

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH13 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Dwysedd Tai <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> LU06 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Yn cydymffurfio â'r dwysedd neu'n uwch nag ef, yn unol â Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd neu Ddatganiad y Grŵp Aneddiadau	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd yn y cynllun datblygu	<p>Oni fydd safle'n cyflenwi dwysedd canllaw, yna cynhelir ymchwiliad i weld a oes angen tir ychwanegol i gyflawni'r ddarpariaeth dai a ganiateir yn y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.</p> <p>Os bydd safleoedd mewn Canolfan Gwasanaethau'n methu â chyflawni'r dwysedd canllaw'n rheolaidd, yna cynhelir ymchwiliad i weld a fydd angen newid dwysedd canllaw safleoedd y Ganolfan Gwasanaethau dan sylw.</p>	<p>21 uned yr hectar yw dwysedd cyfartalog datblygiadau tai (sydd â chaniatâd cynllunio yn awr ers dechrau cyfnod y cynllun) ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.</p> <p>23 uned yr hectar yw dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.</p>	0
<b>Dadansoddiad</b> Yn nhermau dwysedd, caniatwyd 9 cais ar safleoedd a neilltuwyd (er bod 2 ar gyfer yr un safle felly wedi cael eu cyfrifo gyda'i gilydd isod), ers dechrau cyfnod y cynllun, y mae dwyseddau rhai ohonynt wedi bod yn wahanol i ddwyseddau canllaw'r CDLI.				
<ul style="list-style-type: none"> <li>• mae 2 ganiatâd wedi cydymffurfio â dwysedd canllaw'r CDLI;</li> <li>• mae 3 chaniatâd wedi bod yn uwch na dwysedd canllaw'r CDLI (20 i 35, 15 i 29, 18 i 33 uned yr hectar); ac</li> </ul>				

- mae 3 chaniatâd wedi methu â chydymffurfio â dwysedd canllaw'r CDLI (35 i 20, 20 i 6 a 37 i 5 uned yr hectar).

Dim ond rhannau bach o safleoedd a neilltuwyd yw rhai o'r ceisiadau hyn ac felly, pan gyflwynir ceisiadau pellach ar gyfer gweddill y safleoedd hyn, mae dwyseddau terfynol y safleoedd yn debygol o newid ac mae'n bosibl y byddant yn cydymffurfio'n agosach â dwyseddau canllaw'r CDLI. Mae'n arwyddocaol bod y gwahaniaeth rhwng y dwysedd cyfartalog a ganiatawyd (21 uned yr hectar) a dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI (20 uned yr hectar) yn agos iawn. O gofio natur y ceisiadau a ganiatawyd, y ffaith fod y rhan fwyaf yn ymwneud â rhan fach o arwynebedd cyfan safle a neilltuwyd a'r ffaith fod digon o le o hyd (gan gynnwys lwfans wrth gefn) yn y grwpiau aneddiadau i ddiwallu'r angen dynodedig am dai, nid oes pryder ynghylch y 3 safle (rhoddwyd caniatâd i un ohonynt cyn mabwysiadu'r CDLI a rhoddwyd caniatâd i ddau ohonynt ar gyfer rhan fach yn unig o safle a neilltuwyd yn achos y llall) lle na chydymffurfiwyd â dwysedd canllaw'r CDLI.

### **Casgliadau**

Mae'r rhan fwyaf o ganiatadau'n cydymffurfio â'r dwysedd canllaw, neu'n uwch nag ef, yn unol â Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd neu Ddatganiad y Grŵp Aneddiadau. Er bod 3 chaniatâd yn methu â chydymffurfio â'r dwysedd canllaw a bod y dwysedd cyfartalog a ganiatawyd yn is na dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI, ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi hwn.



<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH14 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Cyflenwi Tai <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> LU05 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau a gwblhawyd, o gymhareb ddechreuol o 6.5 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd.	Y gymhareb rhwng caniatadau a roddir ac unedau a gwblhawyd ar gyfer datblygiadau preswyl "Y gymhareb rhwng caniatadau unedau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd."	Oni fydd y gymhareb rhwng y caniatadau preswyl sy'n sefyll a'r unedau a gwblhawyd mewn Grŵp Aneddiadau'n gostwng o flwyddyn i flwyddyn, bydd angen cynyddu'r defnydd o ganiatadau byrrach, dyddiadau cwblhau gorfodol a hysbysiadau cwblhau. Os yw amseroedd adeiladu hir yn arwydd o ddiffyg galw, efallai y bydd angen lleihau nifer y caniatadau a roddir, oherwydd dylai caniatadau fodoli i ddiwallu'r anghenion cyfredol.	Y gymhareb rhwng caniatadau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd yn 2015:  12.3 caniatâd sy'n sefyll i bob 1 uned a gwblhawyd.	0
<b>Dadansoddiad</b> Mae'r gymhareb gyfartalog rhwng caniatadau sy'n sefyll ac unedau a gwblhawyd ar draws y sir yn cael ei gwyo'n sylweddol gan berfformiad gwael mewn rhyw 9 Grŵp Aneddiadau (Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llanarth, Bow Street, Ceinewydd, Aberporth/Parcllyn, Llanilar, Llandysul a Thalybont) sy'n codi'n rhannol oherwydd cyfyngiadau o ran seilwaith sydd wedi cael eu hunioni yn ddiweddar, yn rhannol o fancio tir mewn ardaloedd yng ngefn gwlad ac ar y glannau a fu'n boblogaidd yn y gorffennol ond y mae'r dirwasgiad wedi effeithio arnynt, ac yn rhannol wrth i ddatblygwyr ymrwymo i un ardal yn hytrach nag un arall. Os caiff y grwpiau aneddiadau hyn a'r grwpiau aneddiadau heb unrhyw unedau wedi'u cwblhau eu tynnu o'r cyfrifiad, yna'r gymhareb ar draws y sir yw 8.0 caniatâd sy'n sefyll am bob 1 uned wedi'i chwblhau. At hynny, mae safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI, y disgwyli'r iddynt gyfrannu cyfran helaeth o'r unedau cynllunio a gwblheir gan ddatblygwyr masnachol, gan fwyaf yn dal i fod yn destun trafodaethau cyn gwneud cais a bydd nifer ohonynt, er eu bod yn debygol o gyflenwi tai				

cyn pen 5 mlynedd, yn destun amserau paratoi cymharol hir oherwydd yr angen am seilwaith ar y safle. Nid oes unrhyw wahaniaeth ychwaith rhwng perfformiad Canolfannau Gwasanaethau ac Aneddiadau Cyswllt a lleoliadau eraill, gyda chymhareb o 12.3 o ganiatadau sy'n sefyll i bob 1 uned sydd wedi'i chwblhau. O ran yr holl unedau ychwanegol a ganiatawyd ers mabwysiadu'r CDLI, mewn perthynas â safleoedd y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatadau byr gyda dyddiadau cwblhau fel ffordd o hybu darpariaeth tai.

Mae'r patrwm o gynnydd yn y gymhareb rhwng caniatadau ac unedau a gwblhawyd, yn hytrach na llai o ganiatadau i unedau a gwblhawyd yn adlewyrchiad o'r lefelau cyflenwi tai cyffredinol isel yn y DU ac yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae'n amlwg bod yr awdurdod yn parhau i roi caniatadau sy'n awgrymu nad yw strategaeth a pholisiau cynllunio a'r CDLI yn rhwystr i ddatblygu. Yn wir, y prif rwystrau i gyflenwi tai a nodwyd drwy ymgysylltu â'r diwydiant datblygu wrth baratoi'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014 oedd cael cyllid a gweithwyr medrus. Mae'r rhwystrau hyn y tu allan i reolaeth y CDLI, fodd bynnag, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi recriwtio Swyddog Cyflenwi Tai i geisio helpu datblygwyr i oresgyn yr holl rwystrau a nodwyd.

### **Casgliadau**

Perfformiad siomedig yn ôl y targed ond rhesymau dros fod yn optimistaidd y bydd cynnydd digonol mewn mannau lle bu problemau fel y gellir disgwyl canlyniad mwy cadarnhaol yn y dyfodol. Rôl allweddol i'r Swyddog Cyflenwi Tai o ran helpu i wella'r ddarpariaeth tai dros amser.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRH15 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Rhychwant o Dai <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> LU02 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Cymysgedd o fathau o dai ac ystafelloedd gwely'n unol ag adroddiad cyfredol Asesiad o'r Angen Lleol am Dai yng Ngheredigion	<p>Nifer y Caniatadau Llawn neu Ganiatâd Materion a Gadwyd yn Ôl ar sail y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun.</p> <p>Nifer yr unedau a gwblheir yn ôl y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun.</p>	<p>Os yw'r ffigurau cyfunedig yn wahanol i'r canrannau a bennir yn yr Asesiad o'r Angen Lleol am Dai.</p> <p>Cymerir camau ar y cyd gydag Adran Dai'r Cyngor, a gellid canolbwyntio mwy ar gyflenwi mwy o'r math o annedd mae ei angen.</p>	Gweler Atodiad 8	0
<b>Dadansoddiad</b> Wrth gymharu nifer yr ystafelloedd gwely mewn anheddau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ers mabwysiadu'r cynllun â'r anghenion tai a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2008, mae'n ymddangos bod tangyflenwad o lety 1, 4 a 5 ystafell wely, a gorgyflenwad o lety 2 a 3 ystafell wely. Fodd bynnag, mae'r Asesiad wrthi'n cael ei ddiweddarau ac mae canlyniadau dros dro yn dangos bod angen cynyddol yn debygol o barhau ar gyfer tai 3 ystafell wely yn 2011-2016. Caiff Atodiad 8 ei ddiwygio yn AMB y flwyddyn nesaf i adlewyrchu canlyniadau Asesiad 2015 yn dilyn eu cyhoeddiad terfynol. Mae swyddogion cynllunio yn parhau i gydweithio â'r Swyddog Tai Fforddiadwy a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod y math o dai ar y farchnad a'r tai fforddiadwy a sicrhau ar safleoedd yn cyfateb ag anghenion y gymuned leol.				
<b>Casgliadau</b> Ni chyrhaeddir y targed ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi. Disgwylir i'r targed gael ei newid a'i adlewyrchu yn AMB y flwyddyn nesaf - mae perfformiad cyfredol i'w weld yn unol â'r canlyniadau sy'n deillio o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2015.				

**Yr Economi**

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRE01 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Cyflenwad Tir Cyflogaeth <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04 ac LU13 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim colledion net o ran tir cyflogaeth/arwynebedd llawr onid yw'n unol â Pholisi LU13.	Cyflenwad/datblygiad net y tir economaidd (hectarau/metrau sgwâr)	Os oes colled net o 1 safle neu ddarn o dir o fewn dosbarth defnydd B1, B2 neu B8 nad yw'n unol â Pholisi LU13 cynhelir ymchwiliad i'r achosion.  Mae nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, ac oherwydd hynny cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.	Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, bu newid yn arwynebedd y tir a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth, sef:  1.94ha	+
<b>Dadansoddiad</b> Ychydig o ddatblygu economaidd sydd wedi bod yn ystod y cyfnod monitro. Gwrthbwysswyd cynnydd gros o ryw 2.72ha (4 caniatâd) mewn tir cyflogaeth gan gollod gros o 0.78ha (4 caniatâd). Fodd bynnag mae'n beth cadarnhaol bod hyn wedi arwain at gynnydd net bach o 1.94ha mewn arwynebedd llawr economaidd.				
<b>Casgliadau</b> Cyrhaeddir y targed ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisiâu.				

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRE02 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Cyflenwad Tir Cyflogaeth <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04 ac LU13 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Dylai 66% o'r tir a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael ei gwblhau ar adeg mabwysiadu'r CDLI.</p> <p>Dylai 83% o'r safleoedd a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2017.</p> <p>Dylai 100% o'r safleoedd a neilltuwyd fod wedi cael caniatâd neu wedi cael eu cwblhau erbyn 2022.</p>	<p>1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).</p> <p>2. Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau).</p>	<p>Os na fydd y safleoedd a neilltuwyd wedi eu cyflawni yn unol â'r hyn a ragamcanwyd yna cynhelir ymchwiliad i'r achosion.</p> <p>Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.</p>	<p>1. Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau): 75.1% (107.04Ha)</p> <p>2. Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau): 58.1% (82.88Ha)</p>	+
<b>Dadansoddiad</b> Erbyn hyn mae 75.1% o safleoedd y CDLI wedi'u hymrwymo ar gyfer datblygu, er mai dim ond 58.1% sydd wedi cael eu cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r safleoedd a gwblhawyd a gofnodwyd eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu dynodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu a/neu ad-drefnu eu defnyddiau presennol mewn modd cydgysylltiedig. Mae 2 flynedd arall nes bod rhaid cyrraedd targed 2017, fodd bynnag, mae canlyniadau'r flwyddyn hon yn awgrymu bod y targed o fewn cyrraedd.				
<b>Casgliadau</b> Cyrhaeddir y targedau ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisiâu.				

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRE03 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Datblygu Economaidd mewn Lleoliadau Addas <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosyddion	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Hyd at 40% o'r datblygu economaidd i'w leoli ar safleoedd a neilltuwyd.	1. Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir (hectarau ac unedau). 2. Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir (hectarau ac unedau).	Os methir â lleoli 35% neu lai o'r holl ddatblygu economaidd a ganiateir neu a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd am 2 flynedd yn olynol cynhelir dadansoddiad o achosion y diffyg er mwyn gweld a allai'r Awdurdod Lleol fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.  Oherwydd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar y tir cyflogaeth a neilltuir sy'n cael ei ddatblygu, cymerir camau sy'n ymwneud â'r dangosydd blynyddol ar y cyd ag Adran Datblygu Economaidd y Cyngor ac Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru.	Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun:  Unedau: 52.2% (60 o unedau)*  Hectarau: 79.4% (38.11ha)  Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu economaidd a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun:  Unedau: 55.6% (40 o unedau)  Hectarau: 36.2% (3.48ha)	+

			*Nid yw hyn yn cynnwys caniatadau cynllunio amlinellol	
<p><b>Dadansoddiad</b>                  Yn ôl Aseiad Anghenion Economaidd Ceredigion (DTZ, 2010), nid yw oddeutu 63% o'r swyddi y rhagwelir y cânt eu creu dros gyfnod y CDLI yn galw am safle cyflogaeth a neilltuwyd i fodoli. O ganlyniad, disgwylir y bydd cyfran fawr o ddatblygu economaidd yn digwydd ar leoliadau oddi ar safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, o ran caniatadau a safleoedd a gwblhawyd, cyrhaeddwyd yr holl dargedau ar gyfer y dangosydd hwn, gan awgrymu bod y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI yn gweithredu fel y dymunir ar hyn o bryd.</p>				
<p><b>Casgliadau</b>                  Cyrhaeddir y targedau ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisïau.</p>				

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b>	AMRE04 (Dangosydd Statudol)			
<b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b>	Datblygu Economaidd ar Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen			
<b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b>	S01 - S04, LU11, LU12 ac LU13			
<b>Lefel:</b>	Craidd			
<b>Pa mor aml:</b>	Bob blwyddyn			
<b>Ffynhonnell:</b>	CSC			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiateir ac a gwblheir i'w leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd)	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.</li> <li>2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.</li> </ol>	Oni chaiff o leiaf 30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiateir ac a gwblheir ei leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd) cynhelir dadansoddiad i achosion y diffyg er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r rhwystrau.	<p>Canran y datblygu yn y dosbarthiadau B1, B2, B8 a Sui Generis perthnasol a leolwyd ar dir llwyd, ers dechrau proses y CDLI:</p> <p>A ganiatawyd: 19.8% (9.52ha)</p> <p>A gwblhawyd: 51.5% (4.94ha)</p>	0
<b>Dadansoddiad</b>				
<p>Gan mai sir wledig yw Ceredigion, ac nad oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir maes glas yn cyfrannu cyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Felly mae'r ffaith fod dros hanner yr holl ddatblygu economaidd a gwblhawyd yn ystod cyfnod y cynllun wedi bod ar dir llwyd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, o ran y datblygu a ganiatawyd ers 2007, ni chyrraeddwyd targed y dangosydd, gan gwmpo dros 10% yn fyr o'r targed o 30%. Mae cyfran y datblygiadau a ganiatawyd ar dir llwyd wedi gwella gan gynyddu o 17.5% i 19.8% ers y cyfnod monitro diwethaf, gan awgrymu bod y polisi yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Mae'n fwy anodd dylanwadu ar gyfran y datblygu a gwblhawyd oherwydd byddai'n rhaid i gyfran sylweddol o'r datblygu a gwblhawyd fod wedi cael ei chaniatáu cyn mabwysiadu'r CDLI. Fodd bynnag, mae'r targed yn cael ei gyrraedd a'i ragori ar gyfer cyfran y datblygu a gwblhawyd, sef 51.5%.</p> <p>Mae dadansoddiad o'r ceisiadau cynllunio perthnasol yn dangos mai achos y methiant hwn yw'r diffyg darpariaeth mewn perthynas â chaniatâd amlinellol ar</p>				



gyfer Parc Busnes Capel Bangor (A031074), sydd wedi'i neilltuo yn y CDLI fel E0305. Rhagwelir y bydd y caniatâd yn darfod yn ystod y flwyddyn nesaf. Os nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael cais cynllunio newydd cyn i'r caniatâd ddod i ben, bydd rhaid ailystyried cynnwys y dyraniad hwn yn y cynllun ar sail y gallu i'w ddatblygu. Pe na bai'r caniatâd hwn yn bodoli yna byddid bron â chyrraedd y targed o 30%. Fodd bynnag, Parc Busnes Capel Bangor yw un o safleoedd cyflogaeth strategol Ceredigion ac mae ei fodolaeth yn bwysig i hwyluso twf economaidd Ceredigion. Dynodwyd ei safle fel yr unig leoliad addas ar gyfer parc busnes o'r math hwn ac felly barnwyd bod ei fuddion yn bwysicach na cholli tir maes glas.

Dylid nodi hefyd, gan mai caniatâd amlinellol yw hwn ar hyn o bryd, mai gros yw'r arwynebedd mae'n ei feddiannu, sef 14.4ha. Felly ni fyddai'r arwynebedd gros yn cael ei ddatblygu'n gyfan gwbl a byddai manau agored yn ofynnol fel rhan o'r datblygu. O ganlyniad, mae ei hyd a lled, sef 14.4ha, yn fwy nag arwynebedd y tir maes glas a gâi ei gollu.

O ganlyniad, er bod taged y dangosydd heb ei gyrraedd yn llawn o ran datblygu a ganiateir, mae'r rhesymau yn glir a bydd trafodaethau pellach yn digwydd yn ystod y flwyddyn i ystyried datblygu Capel Bangor. Felly, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi eto.

### **Casgliadau**

Nid yw hanner cyntaf y dangosydd yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd ond mae'r ail ran yn cael ei chyflawni'n gyfforddus. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad polisiâu'r CDLI.

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRE05 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Canol Trefi <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21 ac LU22 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Lleoli o leiaf 80% o'r holl ddatblygiadau swyddfeydd, manwerthu a hamdden mawr (datblygu uwch nag 800 o fetrau sgwâr gros) yng Nghanol Trefi.	Maint y datblygiadau mawr (datblygiadau mwy nag 800 o fetrau sgwâr gros) o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden a ganiateir yng nghanol trefi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir.	Os bydd llai na 70% o ddatblygiadau mawr (o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden) yn digwydd yng nghanol trefi am 2 flynedd yn olynol, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau ac a oes angen i'r Awdurdod Lleol fynd ati i ddileu'r rhwystrau, naill ai drwy'r CDLI neu ddulliau eraill, er mwyn i'r datblygiad ddigwydd.	Mae maint y datblygiadau mawr a ganiatwyd yng nghanol trefi rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 fel a ganlyn:  Unedau: 0% (0 o unedau)  Arwynebedd: 0% (0 m sg)	?
<b>Dadansoddiad</b> Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, ni chafodd unrhyw unedau newydd yr ystyrir eu bod yn ddatblygiadau mawr eu caniatáu yng Nghanol Trefi yng Ngheredigion.				
<b>Casgliadau</b> Gan nad oedd unrhyw geisiadau ar gyfer y math hwn o ddatblygiad wedi'u penderfynu eleni, nid oes unrhyw ganlyniadau i'w hadrodd yn yr AMB. Felly, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisiâu.				

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRE06 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S04, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21 ac LU22 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer sefydlog neu gynyddol o gyfleusterau mewn Canolfan Gwasanaethau.	Faint o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd mewn Canolfan Gwasanaethau Wledig	Os collir un o'r 6 chyfleuster allweddol mewn Canolfan Gwasanaethau cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny. Fodd bynnag, gan fod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar ddarpariaeth y cyfleusterau, byddai angen ystyried unrhyw golledion net yn y cyd-destun ehangach.	Gweler Atodiad 9	+
<b>Dadansoddiad</b> Un o brif nodau canolbwyntio tai a thwf economaidd mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig (CGGau) yw ei fod yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau a chyfleusterau a leolir yno. O'i gymharu â chanlyniadau sylfaen y flwyddyn ddiwethaf, mewn rhai CGGau gwelwyd cynnydd yn nifer y siopau bwyd, a bu gostyngiad mewn rhai eraill. Yn CGG Pontarfynach, mae'n ymddangos bod y siop fwyd sy'n gyfleuster allweddol wedi cael ei cholli'n llwyr. Fodd bynnag o ddadansoddi'r canlyniadau yn fanwl, gwelwyd mai un eiddo gafodd ei gyfrif fel siop fwyd yng nghanlyniadau sylfaen 2013 er bod y dadansoddiad o'r canlyniadau'r flwyddyn hon wedi dod i'r casgliad nad yw'r eiddo hwn yn siop fwyd yn bennaf, er ei fod yn gaffi/bwyty sy'n gwerthu ychydig o fwydydd Cymreig fel rhoddion. Felly ni ddylai'r dosbarthiad diwygiedig hwn ysgogi ymchwiliad oherwydd newid yn unig yw hwn i'r sylfaen a adroddwyd yn anghywir yn 2013. Nid yw'r cyfleuster siop fwd wedi cael ei goli'n llwyr mewn unrhyw CGG arall.  Ni chafwyd unrhyw newid yn nifer y swyddfeydd post, gorsafoedd petrol, tafarndai, neuaddau pentref neu ysgolion cynradd yn y CGGau ac felly ystyrir bod y ddarpariaeth yn sefydlog.				
<b>Casgliadau</b> Ni chafwyd llawer o newid i'r ddarpariaeth o gyfleusterau allweddol yn y CGGau, felly nid oes unrhyw bryderon mawr ynghylch gweithrediad polisiâu'r CDLI ar hyn o bryd.				

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRE07 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Ffryntiadau Manwerthu <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S01 - S02, LU19 ac LU21 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Brif Ffryntiadau Manwerthu Aberystwyth ac Aberteifi.</p> <p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd Aberystwyth ac Aberteifi.</p>	<p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Brif Ffryntiadau Manwerthu Cynradd Aberystwyth ac Aberteifi.</p> <p>Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd Aberystwyth ac Aberteifi.</p>	<p>Os bydd y lefelau'n cwmpo o dan y trothwyon a nodir ym Mholisi LU21 am 2 flynedd yn olynol cynhelir dadansoddiad er mwyn deall y sefyllfa a chymryd camau fel bo'n briodol i gyfyngu ar golledion pellach.</p>	<p>Arolygwyd Mawrth 2015</p> <p>Prif Ffryntiadau Manwerthu (mae 75% A1 yn ofynnol o dan y polisi):</p> <p>Aberteifi</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• P0201 Gorllewin y Stryd Fawr: 65.4%</li> <li>• P0202 Dwyrain y Stryd Fawr: 76.0%</li> <li>• Cyfun: 70.6%</li> </ul> <p>Aberystwyth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• P0301 Gogledd y Stryd Fawr: 63.2%</li> <li>• P0302 De'r Stryd Fawr: 81%</li> <li>• P0303 Gogledd Sgwâr Owain Glyndŵr: 57.1%</li> <li>• P0304 De Sgwâr Owain</li> </ul>	0

			<p>Glyndŵr: 70.0%</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• P0305 Dwyrain Heol y Wig: 50%</li> <li>• P0306 Gorllewin Heol y Wig: 83.3%</li> <li>• P0307 Gorllewin y Ffynnon Haearn: 66.7%</li> <li>• P0308 Gorllewin Ffordd y Môr: 70%</li> <li>• P0309 Dwyrain Ffordd y Môr: 77.8%</li> <li>• Cyfun: 69.5%</li> </ul> <p>Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd (mae 50% A1 yn ofynnol o dan y polisi):</p> <p>Aberteifi</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• S0201 Gorllewin y Stryd Fawr: 42.9%</li> <li>• S0202 Dwyrain y Stryd Fawr: 72.2%</li> <li>• S0205 Cwrt y Priordy: 85.7%</li> <li>• S0206 Gogledd Stryd y Priordy: 45.5%</li> <li>• S0207 De Stryd y Priordy: 64.3%</li> <li>• S0209 Pendre: 71.4%</li> <li>• Cyfun: 62.8%</li> </ul>	
--	--	--	---	--

			<p>Aberystwyth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• S0301 Dwyrain y Ffynnon Haearn: 53.3%</li> <li>• S0302 Ffordd y Môr/Lôn Cambria: 41.7%</li> <li>• S0303 De Ffordd y Môr: 52.9%</li> <li>• S0305 Dwyrain Heol y Wig: 44.4%</li> <li>• S0307 Gorllewin Heol y Wig: 30%</li> <li>• S0308 Gorllewin Stryd y Bont: 84.6%</li> <li>• S0309 Dwyrain Stryd y Bont: 50.0%</li> <li>• Cyfun: 52.4%</li> </ul>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Mae cyflwr prif ffryntiadau manwerthu Ceredigion a'i ffryntiadau manwerthu eilaidd, sy'n bodoli yn Aberystwyth ac Aberteifi yn unig, yn cynnig darlun amrywiol. Yn Aberystwyth mae canran defnyddiau manwerthu yn y Prif Ffryntiadau'n amrywio o 83.3% i 50%, ac o 84.6% i 30% yn y Ffryntiadau Eilaidd. Yn Aberteifi, mae canran defnyddiau manwerthu yn y Prif Ffryntiadau'n amrywio o 76% i 65.4%, ac o 85.7% i 42.9% yn y Ffryntiadau Eilaidd.</p> <p>Fodd bynnag, mae nifer o ffryntiadau manwerthu unigol sydd heb gyrraedd y targedau am 2 flynedd yn olynol.</p> <p>Yn Aberteifi, roedd Prif Ffryntiad P0201 heb gyrraedd y targed a disgynnodd y ganran o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Yn Aberystwyth, roedd Prif Ffryntiadau P0301, P0304, P0305 a P0308 i gyd heb gyrraedd y targed a disgynnodd y ganran o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd Prif Ffryntiad Aberystwyth P0303 wedi parhau yn is na'r targed a'r un peth â'r flwyddyn ddiwethaf, ac roedd P0307 wedi gwella canran ers y flwyddyn ddiwethaf, ond mae dal heb gyrraedd y targed.</p> <p>Yn Aberteifi, roedd Ffryntiadau Eilaidd S0201 a S0206 yn parhau i fethu â chyrraedd y targed, ond roedd S0206 wedi aros yr un fath, ac roedd S0201 wedi</p>				

gwella o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Yn Aberystwyth, roedd Ffryntiadau Eilaidd S0303, S0305 a S0307 i gyd wedi methu â chyrraedd y targed am yr ail flwyddyn, fodd bynnag, disgynnodd S0307, arhosodd S0305 yr un fath, a gwelodd S0303 o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Dylid nodi, fodd bynnag, fod y sefyllfa, o'i hystyried yn gyfan, yn fwy cadarnhaol. O drwch blewyn mae Prif Ffryntiadau Siopa Aberystwyth ac Aberteifi'n methu'r targed o 75% gyda chanran o 69.5% a 70.6% yn y drefn honno. Mae eu Ffryntiadau Siopa Eilaidd yn uwch na'r targed o 50%; yn Aberystwyth 52.4% o ddefnyddiau manwerthu yw'r ganran, ac yn Aberteifi, 62.8%. Oherwydd bod y cyfanswm canlyniadau ar gyfer Prif Ffryntiadau Manwerthu wedi methu â chyrraedd y targed o 75% am 2 flynedd yn olynol, cynhelir dadansoddiad i ddeall a gweithredu, lle y bo'n briodol, mesurau i gyfyngu colledion pellach. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gyfuno â diweddariad o'r Asesiad o Anghenion Manwerthu. Bydd rhaid ystyried a fydd angen newid y ffryntiadau manwerthu sy'n cael eu rhentu a/neu ymagwedd y polisi.

Nod y CDLI yw cadw defnyddiau manwerthu yn bennaf yn y ffryntiadau hyn. 75% yw'r ganran a ddymunir yn y Prif Ffryntiadau a 50% yn y Ffryntiadau Eilaidd. Fodd bynnag, mae'n ffaith fod llawer o ffryntiadau wedi cwmpo o dan y targedau hyn cyn i'r CDLI gael ei fabwysiadu ac felly nid oedd modd defnyddio Polisi LU21 i atal y newidiadau hyn. Felly mae'n bwysig cynnal safbwynt polisi cadarn ar ôl mabwysiadu'r cynllun ar geisiadau yn y manau hyn, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, yn enwedig pan gynnigir newid defnydd i swyddogaeth nad yw'n swyddogaeth fanwerthu.

### **Casgliadau**

Mae lefelau Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd yn Aberteifi ac Aberystwyth yn sefydlog neu'n cynyddu ar y cyfan. Fodd bynnag mae lefelau Prif Ffryntiadau Manwerthu ar gyfer Aberteifi ac Aberystwyth wedi gostwng ychydig o dan y trothwyon a nodir ym Mholisi LU21 am 2 flynedd yn olynol, felly cynhelir dadansoddiad er mwyn deall y sefyllfa a chymryd camau fel bo'n briodol i gyfyngu colledion pellach.

***Ansawdd Bywyd***

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ01 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Colli Mannau Agored a Chyfleusterau <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> LU22 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chantau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim colledion net o ran manau agored a chyfleusterau hamdden i ddatblygiadau ar hap-safleoedd a thir oedd heb ei neilltuo.	Maint y manau agored a chyfleusterau hamdden a gollir i ddatblygiadau (hectarau ac unedau) ar hap-safleoedd a safleoedd heb eu neilltuo.	Os bydd colledion net o ran manau agored a chyfleusterau neu ardaloedd hamdden, cynhelir ymchwiliad i'r rhesymau dros hynny.	Dim colled net o fannau agored anffurfiol.	+
<b>Dadansoddiad</b> Ni oedd unrhyw gofnodion o golli manau agored yn ystod y cyfnod monitro sy'n awgrymu bod Polisi LU22 yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.				
<b>Casgliadau</b> Cyrhaeddir y targed ac felly nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi ar hyn o bryd.				



<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ02 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Colli Tir Maes Glas <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> S02 - S04 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim mwy na: <ul style="list-style-type: none"> <li>75% o ddatblygu preswyl;</li> <li>70% o ddatblygu economaidd; a</li> <li>15% o bob math arall o ddatblygu</li> </ul> a ganiateir ac a gwblheir ar dir sydd heb ei neilltuo i'w leoli ar dir maes glas.	Maint y tir maes glas a gollir i ddatblygiadau (hectarau) ar hap-safleoedd neu safleoedd heb eu neilltuo.	Os caniateir neu os cwblheir mwy o ddatblygiadau ar dir maes glas na'r trothwyon uchod, cynhelir dadansoddiad i achosion y maint dros ben er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r mater.	Rhwng 2007 a 2015, cafwyd y datblygu canlynol ar dir maes glas.  <b>Datblygu Preswyl (Targed 75%)</b>  A ganiatawyd: 163.03ha (67%) A gwblhawyd: 99.56ha (82%)  <b>Datblygu Economaidd (Targed 70%)</b>  A ganiatawyd: 4.76ha (52%) A gwblhawyd: 1.8ha (42%)  <b>Pob math arall o ddatblygu (Targed 15%)</b>  A ganiatawyd: 41.4ha (73%) A gwblhawyd: 12.89ha (49%)	0

### **Dadansoddiad**

Gan mai sir wledig yw Ceredigion, ac nad oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir maes glas yn cyfrannu cyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu a lluniwyd targedau'r dangosydd i adlewyrchu hyn.

Cymysg yw'r canlyniadau. Cyrhaeddwyd y targedau ar gyfer datblygu economaidd yn rhwydd; dim ond oddeutu 52% o'r datblygu a ganiatawyd a dim ond oddeutu 42% a gwblhawyd, a leolwyd ar dir maes glas. Ar y llaw arall, aethpwyd gryn dipyn uwchben y targed ar gyfer y mathau eraill o ddatblygu. Fodd bynnag, yn nhermau datblygu a ganiatawyd, achos hyn yw rhoi un caniatâd mawr ar gyfer un datblygiad manwerthu a chymunedol mawr ar Fferm Tŷ'r Baddon, Aberteifi (A100717) ac o ran safleoedd a gwblhawyd, achos hyn gan fwyaf yw dau ddatblygiad ysgol mawr yn Synod Inn (A080200CD) a Brynhoffnant (A100731CD). Mae datblygiadau o'r fath o'u natur yn ddigwyddiadau anarferol ac felly ni fernir eu bod yn creu bygythiad i gyflawni amcanion y CDLI yn y tymor hir.

Cyrhaeddwyd y trothwy o 75% ar gyfer datblygu preswyl o ran datblygu a ganiatawyd, gyda ffigur o 67%, ond roedd datblygu a gwblhawyd yn uwch, gydag 82% o'r unedau a gwblhawyd ar dir maes glas. Yr anhawster â'r dangosydd hwn yw nad oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw reolaeth dros y caniatadau cynllunio ar ôl iddynt gael eu rhoi. Byddai llawer o'r caniatadau sydd wrthi'n cael eu cwblhau wedi cael eu rhoi cyn mabwysiadu'r CDLI, ac felly cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu dylanwadu ar y lleoliad datblygu a ffafrio safleoedd tir llwyd.

O ganlyniad, bernir, er na chyrhaeddir un o dargedau'r dangosydd, ac mae un o'r targedau dim ond yn cael ei gyrraedd yn rhannol, fod natur fach y gwahaniaeth o ran y ffigur ym maes tai (yn enwedig o gofio'r rhesymu a nodwyd yn y paragraff blaenorol), a'r budd cymunedol/economaidd a geir o ran y 'mathau eraill o ddatblygu' yn golygu nad oes achos i bryderu ar hyn o bryd.

### **Casgliadau**

Er y methir rhai o dargedau'r dangosydd, ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad polisiâu'r CDLI. Bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar ganiatadau a dderbyniwyd a sut y maent yn trosi'n ganiatadau yn fwy nag unedau a gwblhawyd sydd y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn bennaf, ac wedi'u caniatáu o dan gyfres wahanol o bolisiau cynllunio i raddau helaeth na'r rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ03 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Ennill Mannau Agored <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> LU24 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Champau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Darparu manau agored yn unol â Pholisi LU24.	Ceisiadau cynllunio perthnasol a nodir ym Mholisi LU24.	Os bydd llai nag 85% o safleoedd yn cyflenwi'r manau agored sy'n ofynnol o dan Bolisi LU24, cynhelir ymchwiliad i weld beth yw'r rhwystrau i gyflenwi'r safleoedd hyn.	Mae 50% o'r ceisiadau cynllunio perthnasol wedi bodloni'r gofynion o ran darparu manau agored yn unol â Pholisi LU24.	0
<b>Dadansoddiad</b> Ar yr olwg gyntaf, gallai'r ffaith fod llai nag 85% o safleoedd wedi cyflenwi'r manau agored sy'n ofynnol o dan Bolisi LU24 fod yn destun pryder ac felly'n creu angen i ymchwilio.  Yn gyntaf, dylid nodi mai dim ond 16 cais perthnasol a gyflwynwyd yn ystod cyfnod yr AMB hwn ac felly o gofio maint bach y sampl, gall y canlyniadau fod yn amrywiol iawn. Mae dadansoddiad o'r ceisiadau a fethodd â darparu manau agored yn unol â Pholisi LU24 yn dangos bod 7 cais wedi cael eu negodi cyn y CDLI.  Methodd caniatâd arall (A130510, tir cyfagos i Glaslyn, Horeb, Llandysul) oherwydd i'r cais gael ei gymeradwyo yn groes i argymhelliad y swyddogion. Roedd swyddogion wedi argymhell bod y cais yn cael ei wrthod ar sail strategaeth, felly nid oedd negodi pellach ar bolisiau fel manau agored wedi cael eu cynnal ac ni chawsant eu rhoi gerbron gan y pwyllgor a gymeradwyodd y cais yn groes i argymhelliad y swyddog.				
<b>Casgliadau</b> Roedd bron hanner y ceisiadau cynllunio perthnasol a gymeradwywyd yn ystod cyfnod yr AMB wedi cael eu caniatáu eisoes mewn egwyddor ac felly ni ellid cynhwysu'r CDLI iddynt. Felly bernir, er na chyrrhaeddwyd y targed, fod yna resymau i gyfiawnhau hyn ac nad oes pryder ynghylch gweithrediad y polisi.				

## Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ04 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth Leol <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> DM15, DM20 a DM22 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC a Cyfoeth Naturiol Cymru				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Peidio â chaniatáu mwy na 5% o ddatblygiadau lle tybir y byddai effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth leol.	% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Warchodfeydd Natur Lleol, Saffleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth;</li> <li>• Cysylltedd ecolegol;</li> <li>• Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol; neu</li> </ul> Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol	Os tybir y bydd mwy na 10% o'r datblygiadau a ganiateir yn cael effaith weddilliol hirdymor sylweddol ar yr uchod, cynhelir dadansoddiad o achosion y gormodedd er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r mater.	O'r 689 o geisiadau a ganiatwyd (heblaw hysbysebion), tybiwyd y gallai 517 ohonynt fod wedi bod yn berthnasol i ecoleg. O'r 517 hwnnw darparwyd ymgynghoriad ac ymateb ecolegol dilynol ar gyfer 209 o'r ceisiadau hyn. Roedd hyn yn nodi a oedd disgwyl iddynt gael effeithiau gweddilliol hirdymor sylweddol, ar ôl mesurau lliniaru, digolledu ac ati. Nid oedd unrhyw ymatebion wedi nodi effeithiau sylweddol, ond cafodd 2 gais (0.4%) eu cymeradwyo cyn i ymateb gael ei wneud a allai fod wedi arwain at effeithiau negyddol sylweddol. Yn ogystal, er na thybiwyd y byddai unrhyw effeithiau sylweddol ar y 209 o	0

			<p>ymatebion, nid oedd yr Hysbysiad o Benderfyniad ar gyfer bron 8% o'r 209 o geisiadau a gymeradwywyd yn cynnwys pob un neu rai o'r amodau a gynigiwyd gan yr ecolegydd er mwyn lleihau'r effeithiau. Felly mae posibilrwydd bod yr 8% hyn hefyd wedi cael effaith sylweddol yn absenoldeb yr amodau gofynnol, ac felly 8.4% yw canran y ceisiadau a allai gael effaith weddilliol hirdymor sylweddol, mewn gwirionedd.</p>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Fel y nodir uchod roedd 209 o geisiadau a ganiatawyd o 518 (ac eithrio caniatadau ar gyfer hysbysebion a cheisiadau amherthnasol eraill) yn destun ymateb ecolegol. O'r 209 hynny, caniatwyd oddeutu 0.4% lle'r oedd yr effaith naill ai'n anhysbys neu lle'r oedd yn debygol y byddai effaith sylweddol. Er enghraifft, cymeradwywyd un o'r ceisiadau cyn i arolwg gael ei gynnal (gan y methwyd ymateb yr ecolegydd ac felly ni ofynnwyd am yr arolwg). Ar yr olwg gyntaf, felly, ymddengys y cyrhaeddwyd y targed.</p> <p>Fodd bynnag, er na thybiwyd y byddai unrhyw effeithiau sylweddol ar weddill y 209 o geisiadau a gymeradwywyd, nid oedd yr Hysbysiad o Benderfyniad ar gyfer oddeutu 8% o'r 209 o geisiadau a gymeradwywyd yn cynnwys pob un neu rai o'r amodau a gynigiwyd gan yr ecolegydd fel rhai oedd yn ofynnol er mwyn lleihau effeithiau. Felly, mae posibilrwydd bod y ceisiadau hyn wedi cael effaith sylweddol ac felly dylid eu cynnwys yn y nifer a allai fod wedi cael effaith sylweddol, gan godi'r cyfanswm i 8.4%. Hefyd, yn achos y ceisiadau na ofynnwyd am farn ecolegydd y Cyngor arnynt, nid yw effaith sylweddol debygol yn hysbys ac ni ellir ei feintioli (hynny yw, y 308 sy'n weddill).</p> <p>Er bod nifer y ceisiadau yr ymatebwyd iddynt a allai gael effaith anhysbys/sylweddol ychydig y tu allan i'r targed o 5%, mae'n is na'r ysgogydd o 10%. Mae hefyd yn welliant o 14% ers y flwyddyn ddiwethaf ac felly'n dangos bod yr addasiadau a roddwyd yn eu lle ar gyfer gweithdrefnau mewnol a deall polisi ymysg Swyddogion wedi gwneud gwahaniaeth.</p>				

Er ei fod o fewn yr ysgogydd, mae i'w weld yn ddoeth i barhau i wneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod amodau'n cael eu hymgorffori. Mae trafodaethau pellach eisoes wedi cael eu cynnal dros y misoedd diwethaf ac mae gwelliannau eraill wedi cael eu gwneud a ddylai olygu ein bod o fewn y 5%.

Fodd bynnag, mae pryderon pellach o ran y 308 o geisiadau lle na cheisiwyd cyngor ecolegol. Mae trafodaethau ar y ffordd orau o ystyried y rhain yn ofynnol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol mewn mannau eraill.

### **Casgliadau**

Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cyflawni'r dangosydd hwn yn ystod 2015/16 ond nid yw wedi rhagori ar yr ysgogydd. Felly bu gwelliant arwyddocaol ers AMB y flwyddyn ddiwethaf, ond mae angen i hynny barhau.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ05 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Gwelliannau Amgylcheddol <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> DM14, DM15, DM20 a DM22 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC a Cyfoeth Naturiol Cymru				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Bydd o leiaf 85% o'r datblygu a ganiateir yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol yn unol â gofynion Polisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22.	% y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth;</li> <li>Cysylltedd ecolegol;</li> <li>Coed, gwrychoedd a choetiroedd, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol; neu</li> <li>Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol</li> </ul> fel bo'n ofynnol yn unol â Pholisiâu DM14, DM15, DM20 a DM22	Os bydd llai nag 80% o'r datblygiadau a ganiateir yn ymgorffori rhyw fath o welliant lle bo hynny'n ofynnol o dan bolisi, yna cynhelir dadansoddiad i'r achosion er mwyn gweld a all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r mater.	Dim ond 32% o'r ceisiadau perthnasol a ganiatawyd sydd wedi ymgorffori rhyw fath o welliant fel amod. Nid yw ceisiadau lle nad yw gwelliant yn berthnasol, e.e. blychau BT, neu lle mae modd darparu gwelliannau mewn Materion a Gadwyd yn Ôl, wedi cael eu cyfrif.	-

### Dadansoddiad

Fel y nodir uchod, dim ond 32% o geisiadau sydd wedi ymgorffori amod a fydd yn arwain at welliannau. Lle cafwyd mewnbwn ecolegol, mae'r ffigur hwn yn codi i 49%. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos nad yw dros hanner yr ymatebion ecolegol mewn perthynas â gwelliannau yn cael eu hymgorffori; bu cynnydd o 18% o'i gymharu â chanlyniad y flwyddyn ddiwethaf, ond mae dal yn bell o gyrraedd y targed o 85%.

Mae trafodaethau blaenorol yn awgrymu bod sawl rheswm dros fethu â chyrraedd y targed neilltuol hwn:

- Cred nad yw'r gwelliannau'n berthnasol i ddeiliaid tai, er nad oes unrhyw eiriad o'r fath yn DM15 nac yn y polisiau eraill i eithrio ei ystyried mewn perthynas â cheisiadau gan ddeiliaid tai. Mae rhai deiliaid tai wedi gwrthwynebu brics/blychau ystumod/adar. Mae angen awgrymu dewisiadau amgen yn hytrach na pheidio ag ymgorffori unrhyw amodau o gwbl;
- Mae fformat y ffurflen ymateb ecolegol a ddefnyddir yn nodi'r gwelliannau ar wahân yn fwriadol (at ddibenion monitro) sy'n peri dryswch i'r Swyddog Achos; nid yw'n glir a yw'r amodau a awgrymir yn orfodol;
- Cysyniad newydd yw hwn ac mae swyddogion achos yn codi cwestiynau ynghylch y gallu i'w orfodi;
- Cyfyngedig iawn yw'r gwelliannau ar safleoedd tyrbinau gwynt oherwydd ni ddylid annog ystumod ac adar ar y safle, ac felly ar hyn o bryd nid yw unrhyw welliannau'n cael eu cynnig ar gyfer ceisiadau am dyrbinau.

Mae nifer o'r problemau hyn wedi cael sylw yn ystod y flwyddyn, ond bydd yn cymryd amser i weld y newidiadau yn dod trwyddo - yn enwedig gan fod y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu gweithredu hanner ffordd trwy'r flwyddyn, sef pan oedd canlyniadau llawn yr AMB y flwyddyn ddiwethaf ar gael gan nodi bod angen gweithredu. Gwelwyd gwelliant eisoes ers y flwyddyn ddiwethaf a thbyr bod newidiadau mwy diweddar yn y misoedd diwethaf yn gwella'r broblem hefyd. Mae hyn yn cynnwys symud y gwelliannau i'r maes amodau, cael mwy o amodau gwelliannau generig a gwell deialog â'r swyddogion.

Er mwyn cyrraedd ein targed ar gyfer 2015/16 cynigir fel a ganlyn:

- Cysylltu â swyddogion gyda manylion am ganlyniadau'r flwyddyn hon ac atgoffa am drafodaethau. Os oes angen, cwrdd â Swyddogion Map Diffiniol i gael trafodaethau pellach.
- Esbonio ymhellach i asiantau sut i gynnwys cyflawniadau yn rhwydd.

### Casgliadau

Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cyflawni'r dangosydd hwn yn ystod 2014/15, er bod ychydig o welliant wedi digwydd yn rhan olaf y cyfnod monitro. Felly cynigir camau gweithredu pellach er mwyn sicrhau bod hyn yn gwella ar gyfer 2015/16.



<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ06 <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Seilwaith <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> DM12 <b>Lefel:</b> Lleol <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	<p>Os darganfyddir bod materion seilwaith na ellir eu goresgyn yn ystod cyfnod y cynllun, cynhelir ymchwiliad i'r atebion posibl.</p> <p>Gall nifer o ffactorau effeithio ar ddarpariaeth y seilwaith carthffosiaeth a dŵr. Felly, os na chaiff y ddarpariaeth seilwaith ei gwella, bydd angen cymryd camau ar y cyd gyda darparwyr gwasanaethau cyfleustodau. Gallai hynny gynnwys yr isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Penderfynu a fyddai modd ei gynnwys yn rownd nesaf y Cynllun Rheoli Asedau er mwyn sicrhau cyflenwad safleoedd;</li> <li>• Sicrwydd y gellir mynd i'r afael â phroblemau yn y Cynllun Rheoli Asedau</li> </ul>	<p>Mae trafodaethau â Dŵr Cymru'n mynd rhagddynt ynghylch sicrhau cyllid trwy raglen y Cynllun Rheoli Asedau.</p> <p>Mae 6 Chanolfan Gwasanaethau a gyfyngir yn rhannol gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aberaeron (Llwyncelyn)</li> <li>• Llanarth</li> <li>• Llanon</li> <li>• Llanrhystud</li> <li>• Pontarfynach</li> <li>• Pontrhydfendigaid</li> </ul> <p>Ar hyn o bryd mae Dŵr Cymru wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer cynlluniau gwella capasiti</p>	?

		<p>cyfredol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Os oes problemau'n bod gyda safleoedd lle dibynnir ar gyfraniadau datblygwyr, archwilio'r posibiliadau (Cynllun Rheoli Asedau, safleoedd eraill ac ati); ac</li> </ul> <p>Os nad yw'n bosibl goresgyn materion sy'n ymwneud â chapasiti, dylid ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu yn y dyfodol yn y Ganolfan Gwasanaethau neilltuol honno.</p>	<p>Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff o fewn dwy flwyddyn gyntaf y rhaglen AMP6, ond nid yw unrhyw aneddiadau Ceredigion wedi'u cynnwys yn y cyfnod cyntaf.</p>	
--	--	--	---	--

**Dadansoddiad**

Mae trafodaethau â Dŵr Cymru yn parhau a hyd yma maent wedi bod yn gadarnhaol ynghylch canfod safleoedd a neilltuwyd sydd o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol neu Ganolfannau Gwasanaethau Gwledig. O ganlyniad cafwyd gostyngiad yn nifer y cyfyngiadau o'r 9 Canolfan Gwasanaethau a adroddwyd y flwyddyn ddiwethaf yn yr AMB i 6 yn adroddiad y flwyddyn hon.

Cwblhawyd gwelliannau i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Aberporth yn yr Hydref 2013 fel rhan o raglen fuddsoddi AMP5. Felly mae digon o gapasiti yn y gweithfeydd i ddarparu ar gyfer y twf a nodir yn CDLI Ceredigion. Felly mae hwn yn welliant o'i gymharu â'r hyn a adroddwyd y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Dŵr Cymru wedi nodi nad yw'r cyfyngiadau hydraulig sydd yn eu lle yn Bow Street a Phenrhyncoch yn bodoli mwyach a daeth ymchwiliadau pellach yn Nhalybont a'r Borth i'r casgliad nad oedd unrhyw uwchraddio/atgyfnerthu yn ofynnol i ddarparu ar gyfer y twf a gynigir yn y CDLI. Felly mae hwn yn welliant o'i gymharu â'r hyn a adroddwyd y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag, mae Dŵr Cymru wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer dwy flynedd gyntaf Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn unig fel rhan o gynig AMP6 sy'n canolbwyntio ar Ganolfannau Gwasanaethau'r CDLI lle mae problemau seilwaith wedi cael eu nodi. Nid yw unrhyw un o'r 6 Chanolfan Wasanaethau a restrir uchod ar y rhaglen ar gyfer y cam cyntaf hwn a byddwn yn aros i'r rhan olaf o AMP6 gael ei chymeradwyo. Os nad yw'r Canolfannau Gwasanaethau yn rhan o'r cam olaf yna cânt eu bwrw ymlaen i'r AMP7 (2020-2025); os nad ydynt wedi'u cynnwys yn AMP6 mae'n bosib y bydd rhaid datblygu fesul cam yn y Canolfannau

Gwasanaethau a effeithir hyd nes y gellir cadarnhau AMP7.

**Casgliadau**

Mae'r ymgysylltu â Dŵr Cymru'n gadarnhaol a deallir y bydd y cynnig o dan y Cynllun Rheoli Asedau, lle bo modd, yn canolbwyntio ar y safleoedd hynny y mae problemau gyda seilwaith yn effeithio arnynt.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ07 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Lleihau Perygl Llifogydd <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> Polisi Cenedlaethol a DM11 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Dim caniatâd cynllunio o gwbl i ddatblygiadau sy'n cael eu categorio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 na fyddant yn bodloni'r holl brofion a nodir o dan baragraff 6.2 i-v Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a roddir ar ardaloedd gorlifdir C1 ac C2.	% y datblygiadau sy'n cael eu categorio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad ydynt yn bodloni pob un o'r profion a nodir o dan baragraff 6.2 i-v Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15.	<p>1 uned y caniateir ei datblygu sy'n cael ei chategorio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 nad yw'n bodloni pob un o'r profion a nodir o dan baragraff 6.2 i-v.</p> <p>Os rhoddir caniatâd i unrhyw geisiadau cynllunio sy'n cael eu categorio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion a osodir o dan baragraff 6.2 i-v Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15, cânt eu dadansoddi i weld sut y penderfynwyd eu cymeradwyo.</p>	<p>Cymeradwywyd 27 o geisiadau (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ym mharth llifogydd C2.</p> <p>Cymeradwywyd 11 o geisiadau (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ym mharth llifogydd C1.</p> <p>Nid oedd 33 o'r caniatadau hyn yn bodloni profion TAN 15.</p>	0
<b>Dadansoddiad</b> Cymeradwywyd 27 o geisiadau ym mharth llifogydd C2 ac nid oedd 5 ohonynt wedi dangos bod profion TAN 15 wedi'u bodloni. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru. O'r 5 cais, dim ond 2 ohonynt oedd ar gyfer datblygu preswyl newydd, a dim ond 1 oedd ar gyfer newid defnydd i annedd.				

Cymeradwywyd 11 gais ym mharth llifogydd C1. Dim ond 1 cais oedd heb ystyried profion TAN 15, fodd bynnag roedd hwn ar safle tir llwyd ar gyfer uned dosbarthu rhannau ceir. Ni wrthwynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru'r cais hwn.

Camau gweithredu a gyflawnwyd: O gofio'r newidiadau staff diweddar, hyfforddwyd swyddogion Map Diffiniol newydd i ddangos iddynt sut i gwblhau'r gwaith monitro a gwiriadau perthnasol sy'n ofynnol er mwyn adrodd canlyniadau'r AMB. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cofnodi a yw'r profion TAN15 wedi cael eu bodloni yn ystod y cyfarfod hwn.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd targed y dangosydd ar gyfer 2015/16 cynigir felly:

- Y trefnir cyfarfod gyda'r swyddogion i drafod pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gais sydd i'w gymeradwyo ar barthau C1 neu C2 yn bodloni'r profion a nodir yn TAN 15
- Y trefnir cyfarfod gyda'r Pwyllgor Cynllunio i drafod pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gais sydd i'w gymeradwyo ar barthau C1 neu C2 yn bodloni'r profion a nodir yn TAN 15
- Os rhoddir caniatâd ar gyfer cais ym mharthau llifogydd C1 neu C2, rhaid rhoi cyfiawnhad ynghylch sut mae'n bodloni profion TAN 15 yn unigol. Ymddengys hyn mewn adroddiadau dirprwyedig a hefyd rhaid iddo gael ei gofnodi mewn unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Cynllunio.

### **Casgliadau**

Cymeradwyodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol 3 chais yn unig ar gyfer unedau preswyl, ac mae'r rheswm dros hynny wedi cael ei ymchwilio ers hynny er mwyn gwneud gwelliannau a sicrhau cysondeb, a chynigir camau gweithredu er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wella ar gyfer 2015/16. Er nad yw 6 o'r ceisiadau a gymeradwywyd ym mharth llifogydd C1/2 wedi dangos sut y maent yn bodloni profion TAN 15, ni chafwyd gwrthwynebiad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru i unrhyw un ohonynt. Mae'r penderfyniadau wedi cael eu seilio ar wybodaeth a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a lle'r oedd yn briodol, mae amodau wedi cael eu gosod i sicrhau diogelwch y preswylwyr.

<b>Cyfeirnod Monitro:</b>	AMRQ08 (Dangosydd Statudol)			
<b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b>	Capasiti MW gosodedig yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D			
<b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b>	Polisi Cenedlaethol a DM11			
<b>Lefel:</b>	Craidd			
<b>Pa mor aml:</b>	Bob blwyddyn			
<b>Ffynhonnell:</b>	CSC			
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Mae'r capasiti MW gosodedig o ran datblygiadau ynni adnewyddadwy'n unol â gofynion Llywodraeth Cymru yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D.	Y capasiti MW gosodedig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a gymeradwyir yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) D	Cymerir camau parthed y targed hwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru gydag adroddiad blynyddol.	Ni ddaeth unrhyw gais i law.	?
<b>Dadansoddiad</b>				
Er mwyn cysylltu datblygiad fferm wynt yn SSA D â'r Grid Cenedlaethol, mae angen gosod llinellau pŵer newydd yn Awdurdod Lleol cyfagos Powys. Mae'r Awdurdod Cynllunio (Powys) wedi gwrthod ffermydd gwynt a fyddai wedi arwain at greu'r llinellau pŵer newydd. Mae'r ceisiadau hyn a wrthodwyd yn desun ymchwiliad cyhoeddus ar hyn o bryd a hyd nes y gwyddys canlyniad yr ymchwiliad, a hyd nes, yn ôl SSA D datblygwyr SSE, mae dyfodol ynni adnewyddadwy yn gliriach yng Nghymru, mae buddsoddiad pellach yn SSA D wedi'i atal.				
<b>Casgliadau</b>				
Os na chyflwynir cais ar gyfer SSA D, ni ellir cyflawni capasiti MW SSA D. Mae hyn yn gyfan gwbl y tu allan i reolaeth neu ddylanwad ALI Ceredigion a'r CDLI.				

<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ09 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Gwastraff <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> LU31 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynhonnell:</b> CSC a Cyfoeth Naturiol Cymru				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Sicrhau bod tir digonol ar gael ar gyfer unrhyw ofynion sy'n sefyll ar gyfer cyfleusterau rhanbarthol i reoli gwastraff i wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol.	Maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.	Os bydd newid yn yr amgylchiadau sy'n arwain at newid yn arwynebedd y tir mae ei angen ar gyfer unrhyw gyfleusterau rhanbarthol i wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol neu os bydd newid sy'n arwain at ddiddymu'r angen hwnnw (e.e. pe câi'r cyfleusterau rhanbarthol mae eu hangen i wasanaethu Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru eu lleoli y tu allan i Geredigion), cynhelir ymchwiliad ynghylch a ddylid lleihau'r arwynebedd tir a neilltuir ar gyfer gwastraff.	Hyd yma nid yw'r diwydiant wedi cyflwyno unrhyw geisiadau am unrhyw gyfleusterau gwastraff rhanbarthol yng Ngheredigion.	?
<b>Dadansoddiad</b> Mae TAN 21 yn cydnabod bod y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol (a osododd y gofynion o ran capasiti mae'r dangosydd yn ymdrin â hwy) wedi dyddio ac y dylid eu diddymu erbyn hyn. Roedd neilltuad tir E0301 wedi cael ei wneud er mwyn bodloni gofynion y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ond roedd maint y neilltuad wedi'i seilio ar y tir y gellid rhagweld y byddai ei angen i fodloni'r gofynion ar gyfer cyfleuster rhanbarthol i ddiwallu anghenion rhanbarthol ardal Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys) gan wybod, o gofio natur wasgaredig a meintiau bach y gwastraff a gynhyrchir ar draws Ceredigion a Phowys, na fyddai'r diwydiant gwastraff byth yn barnu bod cefn gwlad gorllewin Cymru'n lleoliad ymarferol ar gyfer unrhyw gyfleusterau				

rhanbarthol i wasanaethu ardal Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Mae capasiti E0301 yn dal i fod yn briodol ar gyfer unrhyw angen rhagweladwy am unrhyw gyfleuster trin rhanbarthol a allai fod ei angen yng Ngheredigion i wasanaethu ardal Partneriaeth Canolbarth Cymru, neu fel rhan o ateb ehangach hirdymor o ran gwastraff gweddilliol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Ynghyd â Chyngor Sir Penfro, mae Cyngor Sir Ceredigion newydd arwyddo contract gwastraff gweddilliol 15 mlynedd (gyda chymal optio allan 10 mlynedd) a ddechreuodd ar 1 Mawrth 2015, lle y caiff holl wastraff gweddilliol Ceredigion ei brosesu mewn safleoedd yn Llanbedr Pont Steffan a Phorthladd Penfro i symud defnyddiau y gellir eu hailgylchu, cyn cael eu rhwygo, eu bwndelu a'u lapio ym Mhorthladd Penfro i greu Tanwydd yn Deillio o Sbwriel, a gaiff ei gludo ar long i orsaf bŵer Ynni o Wastraff effeithlonrwydd uchel yn Sweden. Disgwyliwyd i'r llwyth cyntaf gael ei gludo ar ddechrau Mehefin 2015. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na fydd angen safle Glanyrafon. Efallai y bydd angen y safle ar gyfer rheolaeth gwastraff rhanbarthol a chyfleusterau trin gwastraff i leihau maint y defnyddiau y mae'n rhaid eu hallforio fel gwastraff gweddilliol, ac i'r diben hwnnw mae'r safle yn parhau i fod ar gael.

### **Casgliadau**

Mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch a fydd byth angen y tir a neilltuwyd yng Nglanyrafon (E0301) i ddarparu Cyfleuster Gwastraff Rhanbarthol, ond mae'n bwysig iddo gael ei gadw fel safle o dan reolaeth yr awdurdod i gael ei gadw yn unswydd i fodloni unrhyw ofynion yn y dyfodol am gyfleusterau gwastraff rhanbarthol hyd nes y gellir dangos nad oes angen ei gadw at y diben hwn.



<b>Cyfeirnod Monitro:</b> AMRQ10 (Dangosydd Statudol) <b>Yr Hyn a Gaiff ei Fonitro:</b> Agregau <b>Y Polisiâu a Gaiff eu Monitro:</b> LU27 ac LU30 <b>Lefel:</b> Craidd <b>Pa mor aml:</b> Bob blwyddyn <b>Ffynonellau:</b> Arolygon ac Adroddiadau Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru				
Targed	Dangosydd	Ysgogyddion a Chamau Gweithredu	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint yr agregau a gloddir o'r tir yn bennaf a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.	Maint yr agregau a gloddir o'r tir yn bennaf a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau fel canran o'r holl gapasiti sy'n ofynnol fel y'i nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.	<p>Os bydd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a ganiateir, y lefelau allbwn a ganiateir a'r lefelau allbwn gwirioneddol ar draws yr holl safleoedd agregau'n cwmpo o dan y lefelau sy'n ofynnol i gynnal lefel allbwn o 0.3mt/y flwyddyn (neu'n cwmpo o dan gyfradd flynyddol a fyddai'n galluogi cyflawni targed allbwn cyffredinol 4.5Mt yn ystod cyfnod y cynllun) yna cynhelir ymchwiliad i'r sefyllfa i ganfod y rhesymau dros hynny.</p> <p>Os mai diffyg cronfeydd wrth gefn a ganiateir yw'r broblem bydd angen ystyried a oes angen neilltuo mwy o dir neu ddynodi 'Ardaloedd a Ffafir' ai peidio.</p>	Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd mwynau newydd, nac estyniadau i'r safleoedd mwynau sy'n bodoli eisoes.	0

		<p>Os mai'r lefelau allbwn a ganiateir yw'r broblem, ystyrir a oes lle i gefnogi ceisiadau i amrywio'r amodau sy'n cyfyngu ar y lefelau allbwn.</p> <p>Os mai'r lefelau allbwn gwirioneddol yw'r broblem, cynhelir ymchwiliad ynghylch a yw hynny'n adlewyrchu galw isel, ynteu a oes cyfyngiad ar lefel yr allbwn gan unrhyw beth y gellid mynd i'r afael ag ef drwy'r CDLI.</p>		
--	--	---	--	--

**Dadansoddiad**

Mae ystadegau ar werthiannau a chronfeydd wrth gefn agregau yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiadau blynyddol gan Weithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru, ond dim ond ar ffurf gyfunol, sy'n diogelu cyfrinachedd masnachol. Yn hanesyddol, mae'r ystadegau ar gyfer Ceredigion wedi cael eu dangos ar y cyd â'r rhai ar gyfer cyn awdurdodau Dyfed, gan greu ychydig o anhawster wrth ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr AMB o ran monitro lefel gwerthiannau a chronfeydd wrth gefn ar lefel Sirol. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Blynyddol diweddaraf, AM2013 a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2014, sy'n cwmpasu'r flwyddyn 2013 yn cynnwys ychydig o ddata gwerthiannau a banc tir ar wahân ar gyfer Ceredigion (presennol a gorffennol). DS Nid yw'r data ar gyfer 2014 ymlaen ar gael eto.

Maint y gwerthiannau blynyddol o greigiau wedi'u malu yng Ngheredigion ar gyfartaledd dros y cyfnod o dair blynedd 2011-2013 oedd 0.2Mt. Gan ddefnyddio'r ffigur cyfartalog hwn fel sail ar gyfer pennu'r banc tir sy'n weddill ar gyfer creigiau wedi'u malu yng Ngheredigion, y banc tir ar ddiwedd 2013 oedd 29 o flynyddoedd. Mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal banc tir 10 mlynedd o agregau creigiau wedi'u malu dros gyfnod y cynllun, felly rhaid cael banc tir deng mlynedd yn ei le yn 2022 (h.y. mae'n rhaid iddo fod ar gael hyd at 2032). Yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog y 3 blynedd diwethaf, byddai'r banc tir 29 mlynedd, fel ar ddiwedd 2013, yn ymestyn tan ddiwedd 2042. Mae defnyddio ffigur gwerthiannau cyfartalog o 3 blynedd i bennu banciau tir yn deillio o Bolisi Cynllunio Mwynau Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN1), ond mae defnyddio gwerthiannau cyfartalog 10 mlynedd yn cael ei argymhell bellach yn Adolygiad 1af Datganiad Technegol Rhanbarthol Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru 2014 (Adolygiad 1af DTRh), oherwydd ystyrir ei fod yn ddangosydd mwy dibynadwy (yn enwedig o gofio'r dirwasgiad diweddar). Felly mae AM2013 hefyd yn darparu'r ffigurau banc tir sy'n deillio o ddefnyddio gwerthiannau cyfartalog o 10 mlynedd. Mae hyn yn cynhyrchu ffigur gwerthiannau cyfartalog 10 mlynedd o 0.21Mta a ffigur banc tir o 28 o flynyddoedd (sy'n

gyson yn fras â'r hyn a gafwyd drwy ddefnyddio gwerthiannau cyfartalog 3 blynedd).

Boed yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog o 3 blynedd neu 10 mlynedd, roedd y banc tir o greigiau wrth gefn wedi'u malu yng Ngheredigion ar ddiwedd 2013 yn fwy na digon i fodloni anghenion MPPW a MTAN1. Er nad yw unrhyw ddata ar gael eto ar gyfer gwerthiannau 2014, ni chafwyd unrhyw beth tebyg i brosiect seilwaith mawr yn ardal Ceredigion a allai fod wedi arwain at unrhyw gynnydd sylweddol mewn gwerthiannau ers diwedd 2013. At hynny, hyd yn oed pe byddai prosiect seilwaith mawr wedi digwydd, mae'n annhebygol iawn y byddai wedi newid y sefyllfa hirdymor yn sylweddol o'i gyfartalu dros 3 blynedd ac yn sicr o'i gyfartalu dros 10 mlynedd. Felly, nid oes angen diwygio'r CDLI a neilltuo unrhyw safleoedd ar gyfer agregau creigiau wedi'u malu er mwyn sicrhau bod digon o gronfeydd wrth gefn i fodloni gofynion MPPW a MTAN1.

Nid yw gwerthiannau tywod a graean yng Ngheredigion wedi'u dangos ar wahân yn adroddiad 2013. Yn hytrach cânt eu cyfuno â'r ffigurau o holl gyn awdurdodau Dyfed a rhai Castell-nedd Port Talbot. Gwerthiannau blynyddol cyfartalog o dywod a graean ar draws ardal De-orllewin Cymru am y cyfnod o 3 blynedd rhwng 2011-2013 oedd 0.27Mt. Fodd bynnag, rhoddir ffigurau banc tir ar wahân ar gyfer pob un o'r awdurdodau hyn gan ddefnyddio gwerthiannau cyfartalog o'r tair blynedd flaenorol (2011-2013) fel sail ar gyfer pennu'r banc tir sy'n weddiill. Ac ar y sail hon roedd y banc tir tywod a graean yng Ngheredigion yn 12 mlynedd ar ddiwedd 2013.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal banc tir 7 mlynedd o dywod a graean dros gyfnod y cynllun, felly rhaid cael banc tir o 7 mlynedd yn ei le yn 2022 (h.y. mae'n rhaid iddo fod ar gael hyd at 2029). Byddai'r banc tir 12 mlynedd ar ddiwedd 2013 (yn seiliedig ar werthiannau cyfartalog y 3 blynedd diwethaf) yn ymestyn tan ddiwedd 2025. Maint y gwerthiannau blynyddol o dywod a graean yng Ngheredigion ar gyfartaledd dros y cyfnod o 10 mlynedd 2011-2013 oedd 0.25Mt. Mae hyn yn cynhyrchu ffigur banc tir o 15 mlynedd, felly ar y sail honno byddai'r banc tir yn ymestyn tan ddiwedd 2028. Gan ddefnyddio'r ffigur cyfartalog 3 blynedd byddai diffyg o bedair blynedd yn y banc tir o gronfeydd wrth gefn ar gyfer tywod a graean sy'n ofynnol erbyn diwedd cyfnod y cynllun, ond byddai defnyddio'r ffigur cyfartalog 10 mlynedd yn rhoi diffyg o un flwyddyn yn unig. Y naill ffordd neu'r llall, mae lefel y cronfeydd wrth gefn o dywod a graean yn golygu efallai y bydd angen rhagor o gronfeydd wrth gefn, tua diwedd cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mae hyn eisoes wedi cael sylw yn y CDLI drwy neilltuo estyniadau i ddau o'r safleoedd tywod a graean sy'n bod (cyfeirnodau MNA0201 a MNA0701). Felly, nid oes angen diwygio'r CDLI a neilltuo unrhyw safleoedd pellach ar gyfer echdynnu tywod a graean er mwyn sicrhau bod digon o gronfeydd wrth gefn i fodloni gofynion MPPW a MTAN1.

Roedd y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2008) wedi gosod lefel targed o gyflenwad mwynau agregau y dylai CDLI pob awdurdod allu ei chyrraedd. Roedd hyn yn gyfuniad o'r ffigurau creigiau wedi'u malu a thywod a graean, heb unrhyw ddadansoddiad ar gyfer pob un ohonynt. 0.3Mta oedd y targed a osodwyd ar gyfer Ceredigion. Fel y nodir uchod ni chyhoeddir gwerthiannau tywod a graean ar gyfer Ceredigion ar wahân ond wedi'u cyfuno â'r rhai ar gyfer awdurdodau eraill De-orllewin Cymru (a restrir uchod). Fodd bynnag, bydd cyfran uchel o werthiannau tywod a graean wedi dod o Geredigion. O gofio'r ffigurau gwerthiannau cyfartalog 10 mlynedd ar gyfer creigiau wedi'u malu, sef 0.21Mta, mae hynny'n gadael 0.9MT fel targed ar gyfer cynhyrchu tywod a graean. Nid

yw'n glir a yw'r targed yn cael ei gyrraedd neu beidio. Fodd bynnag, os nad yw'r targed yn cael ei gyrraedd, mae hyn yn broblem o alw a chyflenwi ac nid methiant yng nghapasiti'r awdurdod i ddarparu oherwydd mae mwy na chapasiti digonol o fewn y safleoedd mwynau gweithredol presennol i gyrraedd y targed allbwn blynyddol o 0.3Mt ar gyfer cyfnod y cynllun (a thu hwnt pe bai ceisiadau cynllunio yn cael eu derbyn a'u rhoi ar gyfer y safleoedd tywod a graean a neilltuwyd).

Er gwaetha'r dosraniad o 0.3Mta a osodwyd ar gyfer Ceredigion yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2008), roedd Adolygiad 1af y DTRh yn ffafrio addasu'r dyraniadau a'r dosraniadau mewn rhai ardaloedd, gan felly addasu rhyw ychydig y patrwm o gyflenwi yn y dyfodol er mwyn gwella cynaliadwyedd a/neu osgoi barhau ag anghydraddoldebau heb eu cyfiawnhau ym mhattrwm hanesyddol cyflenwi rhwng awdurdodau cyfagos sy'n rhannu adnoddau tebyg (ac sy'n tueddu i barhau oherwydd y fethodoleg gymeradwy a ddefnyddir ar gyfer pennu banciau tir). O ganlyniad nododd yr Adolygiad un ardal benodol (De-orllewin Cymru) lle y dylai dosraniadau a dyraniadau ar gyfer tywod a graen gael eu rhoi dim ond ar gyfer grŵp o awdurdodau cyfagos, tra bo'r ymchwiliadau pellach sydd eu hangen drwy gydweithredu ar y lefel honno yn mynd rhagddynt. Yn achos creigiau wedi'u malu mae'r dosraniad blynyddol yn parhau i gael ei osod ar lefel sirol.

Mae grŵp Ardal De-orllewin Cymru ar gyfer dosraniad tywod a graean yn cynnwys yr ardal a gwmpesir gan gyn awdurdodau Dyfed (Sir Caerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro). Un ffactor y tu ôl i'r drafodaeth yw bod Ceredigion yn hanesyddol wedi cyflenwi llawer mwy o dywod a graean o'i gymharu â Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, sy'n dibynnu'n helaeth ar fewnforio tywod a graean morol yn y de a mewnffudo tywod a echdynnwyd yng Ngheredigion a Sir Benfro yn y gogledd a'r gorllewin. Eto i gyd ni fu unrhyw bwysau ar Sir Gaerfyrddin i neilltuo unrhyw safleoedd newydd oherwydd mae gan yr awdurdod banc tir o 204 o flynyddoedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu lefel helaeth o gronfeydd wrth gefn a ganiateir; yn hytrach mae'n adlewyrchu lefel isel iawn o allbwn o'u safle(oedd) presennol, ac felly mae maint gwirioneddol o gronfeydd wrth gefn a ganiateir yn Sir Gaerfyrddin yn llawer llai na'r rhai yng Ngheredigion. Ffactor arall yw er bod tywod a graen yn cael eu hechdynnu o fewn Parc Cenedlaethol Sir Benfro, mae MPPW yn ei gwneud hi'n ofynnol i symud i ffwrdd o echdynnu mwynau o fewn parciau cenedlaethol, felly dros amser bydd rhaid i un neu ragor o'r awdurdodau cyfagos wneud darpariaeth i gyflenwi tywod a graean sy'n cael eu cyflenwi o fewn y parciau cenedlaethol ar hyn o bryd.

Y dosraniad blynyddol ar gyfer y cyflenwad o greigiau wedi'u malu yng Ngheredigion a osodwyd yn Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw 0.2Mts. Mae hyn yn cymharu â ffigur gwerthiannau blynyddol cyfartalog o 0.21Mta ar gyfer y deng mlynedd hyd at ddiwedd 2013, gan awgrymu bod lefel y dosraniad yn cael ei bodloni'n llawn. Ac mae mwy na digon o gapasiti o fewn y safleoedd mwynau gweithredol presennol i gyrraedd y targed allbwn blynyddol o 0.2Mt am weddill cyfnod y cynllun a thu hwnt.

Erbyn hyn mae Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn gosod dosraniad blynyddol ar gyfer yr ardal gyfunedig a gwmpesir gan gyn awdurdod Dyfed o 0.33Mta. Mae Ceredigion eisoes yn cyfrannu cyfran sylweddol o'r tywod a graean a gyflenwir o fewn ardal Dyfed ac felly ar hyn o bryd dyma'r unig awdurdod sydd â safleoedd ychwanegol wedi'u neilltuo. Nid yw'r lefel cyflenwi yng Ngheredigion wedi'i chyfyngu gan y capasiti i gyflenwi, ond yn hytrach gan

lefel y galw ac mae mwy na chapasiti digonol o fewn y safleoedd mwynau gweithredol presennol i alluogi Ceredigion i barhau i ddarparu cyfran anghymesur o'r dosraniad tywod a graean ar gyfer cyfnod y cynllun.

Ysgrifennwyd y Polisiâu Mwynau yn y CDLI gyda dosraniad 0.3Mta Datganiad Technegol Rhanbarthol (2008) mewn golwg. Fodd bynnag, er bod hyn wedi cael ei ddisodli bellach gan y dosraniad o greigiau wedi'u malu ar wahân ar lefel Sirol a'r dosraniad tywod a graean ar lefel Sirol a osodwyd o fewn Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol, mae'r polisiâu yn darparu'r hyn sy'n ofynnol ac yn parhau i fod yn hollol briodol.

### **Casgliadau**

Mae lefelau allbwn creigiau wedi'u malu yng Ngheredigion yn cydymffurfio â dosraniad Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol a osodwyd ar gyfer Ceredigion, ac mae lefelau allbwn tywod a graean Ceredigion yn gwneud cyfraniad sylweddol at y dosraniad rhanbarthol a osodwyd ar gyfer cyn ardal awdurdod Dyfed. Mae lefel y cyflenwad wedi'i rheoli gan lefel y galw a heb ei chyfyngu gan y capasiti o safleoedd o fewn Ceredigion i gynyddu cyflenwad. Nid yw'r newidiadau yn y dosraniad o Datganiad Technegol Rhanbarthol (2008) i Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn ei gwneud hi'n ofynnol i newid Polisiâu'r CDLI sy'n parhau i allu bodloni'r dosraniad gofynnol.

## 5. Fframwaith Monitro Dangosyddion AAS/AG

- 5.0 Mae dangosyddion, targedau a throthwyau wedi cael eu nodi er mwyn asesu perfformiad polisïau ac amcanion. Mae dylanwadau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod yn cael eu nodi hefyd. Bydd yr ysgogyddion sydd wedi'u cynnwys yn y drefn monitro yn rhoi awgrym cynnar o berfformiad y Cynllun ac o bosibl pa mor eang y bydd angen i gwmpas adolygiad o'r Cynllun fod.
- 5.1 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Arwyddocâd perfformiad	Disgrifiad
+	Mae'r targedau'n cael eu cyrraedd.
?	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.
0	Nid yw'r targedau wedi cael eu cyrraedd ond nid oes pryderon ynghylch gweithrediad y polisi / polisïau.
-	Nid yw'r targedau'n cael eu cyrraedd ac mae pryderon ynghylch gweithrediad y polisi / polisïau.

- 5.2 Mae'r fframwaith monitro'n cynnwys cyfeiriadau at sefydliadau eraill a chynlluniau a strategaethau eraill a all fod â dylanwad rhagweithiol ar weithrediad y polisïau.
- 5.3 Mae'r broses fonitro'n dibynnu ar amrywiaeth fawr o wybodaeth ystadegol a ddaw o ffynonellau'r awdurdod lleol a ffynonellau allanol. Er y gall y cyngor reoli'r wybodaeth y mae'n ei chyflenwi, mae risg sylweddol y bydd newid yn achos data allanol gan fod y wybodaeth honno y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol. Wrth gyflawni gwaith monitro'r CDLI, felly, canfuwyd bod angen ychwanegu, tynnu allan neu newid rhai dangosyddion am wahanol resymau. Felly cymerwyd un o dri cham gweithredu:

- Newid: Caiff y Dangosydd ei newid i'w adlinio â'r data perthnasol. Ni fydd y newid yn newid natur neu gwmpas y Dangosydd/Ffactor yn fawr, ond bydd yn caniatáu ei ystyried yn ôl set ddata wahanol neu ddiwygiedig.
- Disodli: Ni fydd y Dangosydd yn cael ei ddefnyddio mwyach a bydd yn cael ei ddisodli gan ddangosydd sy'n monitro mater tebyg i'r un gwreiddiol.
- Hepgor: Mae'r Dangosydd yn peidio â chael ei arfer mwyach ac yn cael ei hepgor gan nad oes unrhyw ffactorau neu setiau data tebyg eraill ar gael i fonitro'r mater hwnnw. Cam pan fetho popeth arall yw hwn a bydd Dangosyddion sy'n cael eu hepgor yn cael eu hadolygu bob blwyddyn er mwyn canfod a oes setiau data newydd ar gael bellach y gellid eu defnyddio i fonitro ei bolisi.

5.4 Gellir gweld manylion sy'n esbonio'r newid a'r rhesymau drosto yn Atodiad 1.

<b>Amcan Cynaliadwyedd:</b> 1a Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau cyfredol a newydd.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Allyriadau blynyddol nwyon tŷ gwydr y fased (fesul sector).	Llywodraeth y DU <a href="https://www.gov.uk/government/statistics/">https://www.gov.uk/government/statistics/</a>	Bob blwyddyn	<p>Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2014-2015 ar gael. Mae'r allyriadau a gofnodwyd ddiwethaf yn 2013 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trydan Diwydiant a Masnach: 95.6 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Nwy Diwydiant a Masnach: 14.9 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Safleoedd Diwydiannol Mawr: 30.2 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Tanwyddau Eraill Diwydiant a Masnach: 37.1 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Llosgi Amaethyddol: 62.4 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Trydan Domestig: 78.3 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Nwy Domestig: 22.2 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Tanwyddau Eraill Domestig: 102.4 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Ffyrdd (Dosbarth) A): 87.4 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Traffyrdd): 0 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Trafnidiaeth ar y Ffyrdd (Is-</li> </ul>	?



			<p>ffyrdd): 61.4 CO<sub>2</sub> (Kt)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheilffyrdd Diesel: 2.4 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Trafnidiaeth - Mathau Eraill: 1.5 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Allyriadau net LULUCF: -67.1 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> <li>• Cyfanswm ar gyfer yr holl sectorau: 528.8 CO<sub>2</sub> (Kt)</li> </ul>	
Ôl-troed ecolegol byd-eang Ceredigion.	Llywodraeth Cymru <a href="https://statscymru.cymru.gov.uk">https://statscymru.cymru.gov.uk</a> Ol-troed Carbon ac Ecolegol Cymru, Diweddariad i 2011, Stockholm Environment Institute a GHD, Gorffennaf 2015	Bob blwyddyn	<p>Ffigurau newydd eu rhyddhau yn 2015 yn dangos y canlynol:</p> <p>Ol-troed Ecolegol o 3.59 hectar byd-eang y pen (gha/c) (o'i gymharu ag Ol-troed Ecolegol Cymru o 3.28 (gha/c))</p>	-
Capasiti MW gosodedig ynni adnewyddadwy a gymeradwyir.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	<p>10636.152 MW yw'r ynni adnewyddadwy a ganiatawyd. Gellir rhannu hwn i'r categorïau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwynt: 0.385 MW</li> <li>• Solar: 7000.064 MW</li> <li>• Biomas/Anaerobig: 3636.510 MW</li> <li>• Dŵr: 0.193 MW</li> </ul>	+
Defnydd cyfartalog (i) Trydan Domestig Cyffredin, (ii) Trydan Domestig Economy 7, a (iii) Nwy Domestig.	Ystadegau Cymdogaethau <a href="http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/">http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/</a>	Bob blwyddyn	Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2014-2015 ar gael. Mae'r defnydd a gofnodwyd diwethaf yn 2011 fel a ganlyn:	?

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnydd Trydan Domestig Cyffredin: 92,371 MWh</li> <li>• Defnydd Trydan Domestig Economy 7: 73,135 MWh</li> <li>• Defnydd Nwy Domestig: 107,871 MWh</li> <li>• Cyfanswm Defnydd Trydan a Nwy Domestig: 273,377 MWh</li> </ul>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Y ffigur o 10636.152MW ar gyfer capasiti ynni adnewyddadwy yw'r ffigur ar gyfer y cynlluniau hynny yr oedd angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn unig. Bernir bod maint yr ynni a gynhyrchir yng Ngheredigion yn llawer mwy mewn gwirionedd na'r ffigur hwn oherwydd y technolegau hynny a ganiateir o dan hawliau datblygu a ganiateir (sydd wrth gwrs heb eu cynnwys yn y ffigur uchod).</p> <p>Roedd AMB y flwyddyn ddiwethaf yn edrych ar ffigurau sylfaen o 2011 mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol. Mae'r data a gasglwyd yn 2013 yn dangos er y bu ychydig o gynnydd mewn rhai sectorau, mae eraill wedi parhau i weld gostyngiad mewn allyriadau. Mae data 2011 yn datgan bod cyfanswm allyriadau o 666 CO<sub>2</sub> (Kt) yng Ngheredigion. Mae data 2013 yn dangos gostyngiad o 20.6% yn yr allyriadau CO<sub>2</sub> (Kt) a ryddhawyd yng Ngheredigion.</p> <p>Roedd ffigur ôl-troed ecolegol Ceredigion yn 2015 yn uwch na chyfartaledd Cymru, felly mae angen lleihau'r ôl-troed. Fodd bynnag, roedd ôl-troed ecolegol Ceredigion wedi lleihau gan 1.1 (gha/c), sy'n cyfateb â chyfartaledd Cymru, drwy leihau gan 1.11 hectar byd-eang y pen (gha/c). Bydd natur wledig Ceredigion yn effeithio ar yr ôl-troed ecolegol gan mai cyfyngedig yw'r gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ac felly mae mwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth breifat. Fodd bynnag, mae'r ffigur a ddyfynnwyd yn 2015 yn ddiweddaradwy newydd ar ffigur sydd heb gael ei ddiweddaradu ers 2006.</p> <p><b>Casgliadau</b></p> <p>Mae Ceredigion yn darparu rhywfaint o ynni adnewyddadwy gan helpu Cymru i gyrraedd ei tharged cenedlaethol o ran ynni adnewyddadwy ac mae'n mynd ati i leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil.</p>			

<b>Amcan Cynaliadwyedd:</b>		1b Sicrhau mesurau digonol i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu preswyl newydd (unedau a chanran) a adeiledir i gyrraedd o leiaf Lefel 4 y Cod Cartrefi Cynaliadwy.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Unedau: 0 Canran: 0%	?
Maint y datblygiadau masnachol neu berthnasol eraill (unedau a chyfran) 1,000m <sup>2</sup> / 1 hectar neu fwy sy'n cyrraedd safon ardderchog BREEAM.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Unedau: 1 Canran:66%	+
<p><b>Dadansoddiad</b> Mae cyrraedd lefel 4 o'r Cod uwchben y gofynion cenedlaethol; oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, nid yw'n annisgwyl nad yw unrhyw anheddau wedi cyrraedd lefel uwch.</p> <p>Cafodd cais Materion a Gadwyd yn ôl A140552 ar gyfer Ysgol Fro yn Llandysul Safon Rhagorol BREEAM. Mae hyn yn cynrychioli 66% o'r holl ddatblygu sy'n destun gofynion BREEAM. Roedd y datblygu arall yn cynnwys dau gais a gafodd safon Da lawn BREEAM.</p> <p>O 1 Awst 2014 ni fydd y Cod Cartrefi Cynaliadwy a safonau BREEAM yn berthnasol i ddatblygiadau newydd mwyach oherwydd datganoli Rheoliadau Adeiladu i Lywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau uchod yn dangos nifer yr unedau a gwblhawyd i fodloni Cod Cartrefi Cynaliadwy lefel 4 a safon rhagorol BREEAM oherwydd cawsant eu caniatáu ac roedd gwaith adeiladu wedi dechrau cyn dileu'r gofynion polisi hyn o'r System Gynllunio. Felly bydd y dangosydd hwn yn cael ei adolygu ar gyfer AMB y flwyddyn nesaf.</p>				
<p><b>Casgliadau</b> Dim goblygiadau o ran polisi. Nid yw polisiâu'r CDLI yn mynnu bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd fod uwchben safon y gofynion cenedlaethol, felly lles yn unig fyddai datblygiadau a gyrhaeddai safon uwch, nid gofyniad.</p>				

Amcan Cynaliadwyedd:		1c Lleihau'r perygl o lifogydd		
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Maint y datblygu (unedau a hectarau) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdiroedd C1 a C2 fel y'u diffinnir gan TAN 15.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	5 uned breswyl sy'n gyfystyr â 0.11ha o dir wedi'u nodi fel rhai a ganiateir o fewn parth llifogydd C2.  Cafodd 1 uned wyliau, estyniad gwesty 45 ystafell wely a thŷ amfeddiannaeth 7 ystafell wely eu caniatáu hefyd ym mharth llifogydd C2.  Cymeradwywyd 5 uned breswyl (0.07ha) ym mharth llifogydd C1 (roedd un uned yn annedd cyfenwid).	0
Maint y datblygu preswyl newydd (unedau) a ganiateir gyda SDCau.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Caniatawyd 75 o unedau gyda SDCau.	+
Maint y datblygu dibreswyl newydd (unedau) dros 500m <sup>2</sup> a ganiateir gyda SDCau.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Caniatawyd 5 uned ag arwynebedd llawr o 500m <sup>2</sup> neu fwy gyda SDCau.	+
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys yr holl safleoedd sydd mewn parth llifogydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol. O ganlyniad, ychydig iawn o arwynebedd llawer o'r safleoedd fydd yn y parthau hyn.</p> <p>Mae 8 cais preswyl ym mharthau C1 neu C2 yn dangos bod profion TAN 15 wedi cael eu bodloni. Nid oedd 3 chais preswyl ym mharth C2 yn cyfiawnhau sut roedd profion TAN 15 wedi cael eu bodloni, fodd bynnag, nid oedd Cyfoeth Naturiol wedi eu gwrthwynebu.</p>				

Mae'r gwaith o weithredu SDCau yn cael ei rwystro gan y ffaith fod yr Awdurdod yn dal i aros am wybodaeth am y safonau cenedlaethol swyddogol y mae'n rhaid i unrhyw SDCau eu bodloni ac am weithrediad Corff Cymeradwyo SDCau. Hyd nes i hyn ddigwydd mae'n anodd iawn hyrwyddo SDCau cynhwysfawr a'u gwneud yn ofynnol.

**Casgliadau**

Er nad yw unrhyw un o'r ceisiadau a gymeradwywyd ym mharth llifogydd C2 wedi bodloni profion TAN 15, ni wrthwynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw un ohonynt. Mae'r penderfyniadau wedi cael eu seilio ar wybodaeth a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a lle'r oedd yn briodol mae amodau wedi cael eu gosod i sicrhau diogelwch y preswylwyr.

Bydd gweithrediad SDCau yn gwella ar ôl i safonau cenedlaethol gael eu gweithredu ac iddi ddod yn glir pwy fydd y Corff Cymeradwyo.

<b>Amcan Cynaliadwyedd:</b> 2a Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a maint y pridd.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Ers dechrau cyfnod y CDLI, mae'r ganran ganlynol o'r ceisiadau a ganiatawyd wedi bod ar dir llwyd:  27.9% (119.9ha)	+
Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Ers dechrau cyfnod y CDLI, mae'r ganran ganlynol o'r datblygiadau a gwblhawyd wedi bod ar dir llwyd:  25.4% (40.4ha)	+
Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd datblygu a neilltuwyd yn y cynllun.	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd H13)	Bob blwyddyn	21 uned yr hectar yw dwysedd cyfartalog datblygiadau tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.  23 uned yr hectar yw dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI.	+
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Gan mai sir wledig yw Ceredigion, ac nad oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir maes glas yn cyfrannu cyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae canran o dir llwyd wedi cael ei ddatblygu ac wedi creu gwelliant ers y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer datblygu a ganiatawyd ac a gwblhawyd ac ystyrir bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol. Mae dwysedd datblygu ar safleoedd CDLI a neilltuwyd wedi cynyddu ers y flwyddyn ddiwethaf ac yn agos iawn i'r dwysedd canllaw a argymhellir. (Gweler dadansoddiad ar gyfer H13).</p>				

### **Casgliadau**

Er mai ychydig o ddatblygiadau a fu ar dir llwyd, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithrediad polisiau'r CDLI gan eu bod yn hybu datblygu tir llwyd lle bo'n briodol a chafwyd gwelliant ers y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o ganiatadau'n cydymffurfio â'r dwysedd canllaw, neu'n uwch nag ef, yn unol â Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd neu Ddatganiad y Grŵp Aneddiadau. Er bod 3 chaniatâd yn methu â chydymffurfio â'r dwysedd canllaw a bod y dwysedd cyfartalog a ganiatawyd yn is na dwysedd canllaw cyfartalog y CDLI, ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi hwn.

Amcan Cynaliadwyedd: 2b Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Lefelau llygryddion aer allweddol (e.e. NO <sub>2</sub> , PM <sub>10</sub> , bensen, oson)	Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion 2014	Bob blwyddyn	<p><b>NO<sub>2</sub>:</b> Ni ragorwyd ar safon gymedr flynyddol yn 2013 o 40µg/m<sup>3</sup> mewn unrhyw un o'r lleoliadau monitro allweddol yng Ngheredigion yn 2013. Nid oedd unrhyw lefelau misol cymedr yn fwy na 60 µg/m<sup>3</sup> - y lefel lle y gallai'r perygl bod yr amcan 1 awr wedi'i ragori. Cofnodwyd y safon gymedr fisol fwyaf yn Stryd Thespis Aberystwyth ar 38.16 µg/m<sup>3</sup> sydd dal yn is na'r safon gymedr flynyddol.</p> <p>Mae crynodiadau o nitrogen deuocsid a gofnodwyd yn 2013 yn parhau i gydymffurfio â'r Epil Gyfarwyddeb Ansawdd Aer Ewrop Gyntaf i'w bodloni erbyn y dyddiad amcan targed yn 2010.</p> <p><b>PM<sub>10</sub></b> Ni wnaethpwyd unrhyw fonitro newydd yn 2013. Roedd y data blaenorol yn dangos cymedr</p>	<b>0</b>



		<p>blynyddol rhwng 7 a 9µg/m<sup>3</sup> mewn lleoliadau monitro strategol allweddol yn y tair prif dref yn y sir ac mewn lleoliad monitro gwledig. Mae hyn yn awgrymu bod crynodiadau sylffwr deuocsid yn yr ardaloedd trefol pwysicaf yng Ngheredigion yn agos at y lefelau cefndirol.</p> <p><b>Bensen</b> Cydymffurfiwyd â 3.25µg/m<sup>3</sup> fel cymedr blynyddol cyfredol ar gyfer bensen mewn lleoliadau achos gwaethaf yn y tair prif dref yng Ngheredigion</p> <p><b>Oson</b> Dylai safon 8 awr, 100µg/m<sup>3</sup>, gadw ffigurau uchaf oson yn is na'r lefel o oddeutu 200µg/m<sup>3</sup> lle gellir cael effeithiau andwyol ar unigolion sydd fel arall yn iach. Yn 2013 roedd y crynhoad cymedr blynyddol o 52.66100µg/m<sup>3</sup> oddeutu 40% yn is na'r cymedr blynyddol mwyaf a welwyd. Y crynhoad misol uchaf a gofnodwyd oedd 86.6100µg/m<sup>3</sup>.</p>	
--	--	--	--

		<p>Mae'n debyg bod y safon 8 awr ddangosol ar gyfer oson wedi cael ei thorri mewn nifer o leoliadau yng Ngheredigion, gan gynnwys mewn rhai o'r prif drefi a phentrefi.</p>	
<p><b>Dadansoddiad</b>                  Roedd AMB y flwyddyn ddiwethaf yn nodi lefelau tebyg o lygryddion â'r flwyddyn hon, gan gydymffurfio â phob safon ar wahân i oson. Ni ragorwyd ar unrhyw lefelau cymedr ar gyfer NO<sub>2</sub>, PM<sub>10</sub> neu Bensen.</p> <p>Oson yw'r unig lygrydd o'r rhai a gynhwysir yn y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol a all fod yn fwy o broblem mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol. Oherwydd bod heulwen yn ysgogi'r adweithiau sy'n cynhyrchu oson, deellir pam y mae oson fel arfer yn fwy o broblem yn yr haf ac yn ne'r sir (yn hytrach nag yn y gogledd). Mae'n fwy tebygol y ceir y lefelau uchaf yn ystod diwrnodau heulog, poeth ac mae'r lefelau'n codi yn ystod cyfnodau pan fo llawer o fygdarth ceir yn cael ei gynhyrchu, a phan fo'n gwasgaru'n araf. Hyn sy'n angenrheidiol er mwyn i'r adweithiau ffotogemegol rhagflaenol ddigwydd. Roedd y lefel uchaf o Oson a gyrhaeddwyd yn 2013 yn dal yn 40% yn is na'r lefel uchaf a gofnodwyd erioed yng Ngheredigion.</p> <p><b>Casgliadau</b>                  Er bod y safon ar gyfer lefelau oson wedi cael ei thorri, ni fernir bod hyn wedi cael ei achosi gan bolisiau'r CDLI. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod safonau oson yn cael eu torri, ac y byddant yn dal i gael eu torri, a bod yr achosion hyn yn digwydd yn amlach yn ne'r Deyrnas Unedig ac mewn ardaloedd gwledig yn hytrach nag mewn dinasoedd a threfi mawr. Gallai cynhesu byd-eang waethygu'r broblem hon, gan gynyddu pryderon ynghylch llygredd oson o ran iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.</p>			

<b>Amcan Cynaliadwyedd:</b>		2c Lleihau effeithiau andwyol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.		
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Ansawdd dŵr ymdrochi	Adnoddau Naturiol Cymru	Bob blwyddyn	<p>Mae gan 14 o draethau a gafodd eu monitro yn 2014 safonau ansawdd fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Aberporth: Ardderchog</li> <li>2. Aberystwyth - Gogledd: Ardderchog</li> <li>3. Aberystwyth - De: Da</li> <li>4. Y Borth: Ardderchog</li> <li>5. Cilborth: Ardderchog</li> <li>6. Clarach - De: Da</li> <li>7. Llangrannog: Ardderchog</li> <li>8. Llanrhystud: Ardderchog</li> <li>9. Mwnt: Ardderchog</li> <li>10. Harbwr Ceinewydd: Ardderchog</li> <li>11. Ceinewydd - Gogledd: Digonol.</li> <li>12. Penbryn: Ardderchog</li> <li>13. Ceinewydd Traeth Gwyn: Ardderchog</li> <li>14. Tresaith: Ardderchog</li> </ol>	+
<b>Dadansoddiad</b>				
Mae ansawdd dŵr yn cael ei brofi 20 gwaith yn ystod y tymor ymdrochi o 15 Mai i 30 Medi bob blwyddyn. Caiff y samplau hyn eu dadansoddi yn ôl y safonau a bennir yn y Gyfarwydeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. Felly byddwn yn adrodd ar safon flynyddol y flwyddyn flaenorol. Dim ond 14 traeth sy'n cael eu harolygu				

bellach oherwydd ni asesir Ceinewydd mwyach.

Mae newid terminoleg ers AMB y flwyddyn ddiwethaf oherwydd newidiadau yn y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi. Y flwyddyn ddiwethaf cafodd pob traeth ei ddsbarthu'n Uwch neu Leiafswm. Mae'r Gyfarwyddeb newydd yn dosbarthu ansawdd dŵr ymdrochi yn Wael, Digonol, Da ac Ardderchog. Felly o'r 14 traeth a aseswyd yn 2014 mae 11 (78.6%) wedi'u hasesu fel rhai sydd â safon 'Ardderchog', 2 (14.3%) wedi'u hasesu fel 'Da' ac un (7.1%) wedi'i asesu fel 'Digonol'. Ni chafodd unrhyw un o'r traethau eu hasesu'n 'Wael'.

### **Casgliadau**

Bernir bod 92.9% o'r traethau a aseswyd yng Ngheredigion yn cyrraedd safonau gofynnol 'Ardderchog' neu 'Dda' y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd. Mae polisïau'r CDLI yn helpu i gefnogi hyn trwy geisio sicrhau nad yw datblygiadau'n llygru cyrff dŵr.

<b>Amcan Cynaliadwyedd:</b> 3a Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)</b>	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Cyfanswm tunelledd gwastraff trefol a pherfformiad yn ôl: Targedau Adennill Awdurdodau Lleol (LART) h.y. y lefelau gofynnol i gael eu cyrraedd wrth baratoi ar gyfer aildefnyddio neu ailgylchu/compostio (neu Dreulio Anaerobig) mewn perthynas â gwastraff trefol (fel canran). 52% yw'r targed ar hyn o bryd	Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru WMT10 (CSC)	Bob blwyddyn	<p>Cyfanswm y gwastraff trefol ar gyfer 2012/13 oedd 34,584.46 o dunelli ac ar gyfer 2013/14 y cyfanswm oedd 33,827.78 o dunelli ac ar gyfer 2014/15 roedd yn 34,102,56 o dunelli.</p> <p>Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15 yn gyfan cyrhaeddodd yr awdurdod lleol ganran o 59.26% o'i chymharu â tharged Adennill Awdurdodau Lleol sef 52%.</p> <p>Rhagorwyd ar y targed ym mhob chwarter: Ch1: 62.38% Ch2: 64.81% Ch3: 55.62% Ch4: 54.08%</p>	+
Perfformiad yn ôl targedau Lwfansau Tirlenwi h.y. terfynau lwfansau ar gyfer y tunelledd Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Wedi'u pennu fel 11,635 o dunelli ar gyfer 2012/13, 11,140 o dunelli ar gyfer 2013/14 a 10,645 o dunelli	Adroddiad Cynllun Lwfansau Tirlenwi Cymru 2013/14, (Cyfoeth Naturiol Cymru, Medi 2014). (Dyma'r data perfformiad a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar).	Bob blwyddyn	Anfonwyd 3063.51 o dunelli o Wastraff Trefol Pydradwy i safleoedd tirlenwi yn y flwyddyn ariannol 2014/15. Mae hyn yn gyfystyr â 28.79% o'r lwfans a ddefnyddiwyd.	+

ar gyfer 2014/15			5249.03 o dunelli oedd cyfanswm maint yr holl wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn 2014/15.	
Cyfanswm y gwastraff o gartrefi / gwastraff diwydiannol a masnachol a gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.	Gwastraff a Ddychwelwyd (Cyfoeth Naturiol Cymru) 2013 (data diweddaraf sydd ar gael).	Bob blwyddyn	Cyfanswm allbwn gwastraff o gartrefi/gwastraff diwydiannol ar gyfer cyfleusterau yng Ngheredigion am y flwyddyn galendr 2013 oedd 47,321.67 o dunelli, ac anfonwyd 17,318.28 o dunelli ohono i safleoedd tirlenwi (pob un y tu allan i'r Sir); Cafodd 13,802.39 o dunelli ei adennill; Trosglwyddwyd 13,243.65 o dunelli ac anfonwyd 2,475.71 o dunelli i'w trin, ac ni wyddys tynged 481.64 o dunelli.	+
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Y flwyddyn ddiwethaf adroddwyd bod yr awdurdod yn cyrraedd targedau LART a thargedau *gwyro o safleoedd tirlenwi ond nid oedd unrhyw le i fod yn hunanfodlon oherwydd roedd angen gwneud gwelliannau pellach os oedd yr awdurdod am barhau i gyrraedd neu ragori ar dargedau LART a Lwfansau Tirlenwi sy'n fwyfwy anodd eu cyrraedd, bodloni gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff, a chyfrannu'n llawn at strategaeth wastraff uchelgeisiol Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Cynlluniau Sector ategol (yn enwedig Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd). I'r diben hwnnw mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran gwyro gwastraff gweddilliol (cymysg) o safleoedd tirlenwi. Mae Ceredigion a Phowys yn parhau i gydweithio fel Partneriaeth Canol Cymru i ystyried atebion hirdymor ar gyfer gwastraff gweddilliol, ond yn y cyfamser Ceredigion, ynghyd â Sir Benfro, yw'r ddau awdurdod cyntaf i osod contractau o dan gytundeb fframwaith gwastraff wedi'i redeg gan Gyngor Sir Penfro, gyda chymorth gan gwmni ymgynghori preifat, lle mae pob cyngor yng Nghymru yn gallu prynu gwasanaethau gwaredu gwastraff o un o saith cyflenwr, gan gynnwys dau gyflenwr o'r DU a phum cyflenwr sy'n allforio. O dan y contract a ddechreuodd ar 1 Mawrth 2015, caiff holl wastraff gweddilliol Ceredigion ei brosesu mewn safleoedd yn Llanbedr Pont Steffan a Phorthladd Penfro i symud defnyddiau y gellir eu hailgylchu, cyn cael eu rhwygo, eu bwndelu a'u lapio ym Mhorthladd Penfro i greu Tanwydd yn Deillio o Sbwriel, a gaiff ei gludo ar long i orsaf bŵer Ynni o Wastraff effeithlonrwydd uchel yn Sweden. Disgwylwyd i'r llwyth cyntaf gael ei gludo ar ddechrau Mehefin</p>				

2015. Mae'r contract am 15 mlynedd gyda dewis i optio allan ar ôl 10 mlynedd. Felly yn y dyfodol mae'r awdurdod yn hyderus y bydd pob targed gwro o safleoedd tirlenwi yn cael eu cyrraedd ar gyfer cyfnod y CDLI.

Fel y nodir yn AMB y flwyddyn ddiwethaf mae'r holl wastraff bwyd sy'n cael ei wahanu yn y tarddle a gesglir gan yr awdurdod yng Ngheredigion (a chan Gyngor Sir Powys ym Mhowys) yn cael ei anfon i gyfleuster treulio anaerobig y tu allan i'r sir, sy'n cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant presennol yr awdurdod o ran cyrraedd targedau LART a thargedu gwro o safleoedd tirlenwi. Nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o newid yn y dyfodol agos gan nad yw'r contract yn dod i ben tan 2027.

Mae'r awdurdod wrthi'n cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff yn unol â'r Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd a gafodd ei mabwysiadu yn Chwefror 2014. Mae gan y tir a neilltuwyd o dan E0301 y capasiti i ddiwallu unrhyw angen rhagweladwy yn y dyfodol am gyfleuster trin gwastraff gweddilliol rhanbarthol i wasanaethu ardal Partneriaeth Canol Cymru, neu i fod yn rhan o ateb ehangach mwy hirdymor ar gyfer gwastraff gweddilliol i ardal Canol a Gorllewin Cymru. P'un a fydd safle E0301 byth yn cael ei ddewis fel safle cyfleuster gwastraff gweddilliol rhanbarthol neu beidio, dylai defnyddio safle E0301, neu argaeledd barhaus safle E0301, o'i ystyried ar y cyd ag unrhyw dir arall a allai fod ar gael ar gyfer cyfleusterau adennill adnoddau a gwastraff o dan bolisiau gwast esgeulus y CDLI, alluogi Ceredigion i ddarparu ar gyfer yr ystod lawn o seilwaith adennill adnoddau a gwastraff a allai fod ei angen, boed ar gyfer y gwastraff trefol mae'r awdurdod yn gyfrifol amdano neu wastraff masnachol a diwydiannol a reolir gan y sector preifat, i raddau digonol i gyrraedd neu ragori ar yr holl dargedau gwastraff yn awr ac yn y dyfodol agos.

\*\* Mae cyfanswm y gwastraff o gartrefi/diwydiannol a masnachol yn cynnwys gwastraff trefol.

### **Casgliadau**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effaith y CDLI ar allu Ceredigion i gadw o fewn y Targedau Lwfansau Tirlenwi.

<b>Amcan Cynaliadwyedd:</b> 3b Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith amgylcheddol gyfeillgar o ansawdd uchel.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd Q06)	Bob blwyddyn	Mae 6 Chanolfan Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr).	<b>0</b>
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Yn ystod proses y CDLI, nodwyd naw Canolfan Gwasanaethau fel rhai a gyfyngir ac sydd angen arian trwy raglen y Cynllun Rheoli Asedau. Mae trafodaethau â Dŵr Cymru yn parhau ynghylch sicrhau'r arian hwn.</p> <p>Cwblhawyd gwelliannau i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Aberporth yn yr Hydref 2013 fel rhan o raglen fuddsoddi AMP5. Felly mae digon o gapasiti yn y gweithfeydd i ddarparu ar gyfer y twf a nodir yn CDLI Ceredigion.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau â Dŵr Cymru nodwyd nad yw'r cyfyngiadau hydraulig oedd yn eu lle yn Bow Street/Penrhyncoch yn bodoli mwyach, a dim ond achosion o lifogydd lleol sy'n parhau. At hynny, mae ymchwiliadau wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw uwchraddio/atgyfnerthu i'r rhwydwaith cyflenwi dŵr yn Nhalybont/y Borth i ddarparu ar gyfer y twf a gynigir yn y CDLI. Ar hyn o bryd nid yw unrhyw Ganolfannau Gwasanaethau Ceredigion wedi'u cynnwys ar gyfer gwelliannau o dan gam cyntaf AMP6 o gynlluniau gwella capasiti Dŵr Cymru.</p> <p>Cafwyd gwelliant felly ers AMB y flwyddyn ddiwethaf gyda nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir wedi'u lleihau o 9 i 6.</p> <p><b>Casgliadau</b></p> <p>Hyd nes bod cam olaf AMP 6 wedi'i gymeradwyo nid oes modd dod i gasgliad ynghylch a fydd arian ar gael i wella'r Canolfannau Gwasanaethau. Fodd bynnag mae ymchwiliadau pellach a gwelliannau i ddwy ardal wedi symud y cyfyngiadau ar y Borth, Talybont, Penrhyncoch a Bow Street.</p>				



Amcan Cynaliadwyedd: 4a Gwerthfawrogi, cadw a gwella bioamrywiaeth.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
<p>% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth;</li> <li>Cysylltedd ecolegol;</li> <li>Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol; neu</li> <li>Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol</li> </ul>	Cyngor Sir Ceredigion a Cyfoeth Naturiol Cymru	Bob blwyddyn	<p>O'r 689 o geisiadau a ganiatawyd (heblaw hysbysebion), tybiwyd y gallai 517 ohonynt fod yn berthnasol i ecoleg. O'r 517 hwnnw, darparwyd ymgynghoriad ac ymateb ecolegol dilynol ar gyfer 209 o'r ceisiadau hynny a nododd a oedd effeithiau gweddilliol hirdymor sylweddol i'w disgwyl ar ôl mesurau lliniaru a digolledu ac ati. Nid oedd unrhyw ymatebion wedi nodi effeithiau sylweddol, ond cafodd 2 gais (0.4%) eu cymeradwyo cyn i ymateb gael ei wneud a allai fod wedi arwain at effeithiau negyddol sylweddol. Yn ogystal, er na thybiwyd y byddai unrhyw effeithiau sylweddol gan y 209 o'r ceisiadau a gymeradwywyd, nid oedd yr Hysbysiad o Benderfyniad ar gyfer bron 8% o'r 209 o geisiadau a gymeradwywyd yn cynnwys pob un neu rai o'r amodau a</p>	-

			gynigiwyd gan yr ecolegydd er mwyn lleihau'r effeithiau. Felly mae'n bosibl bod yr 8% hyn wedi cael effaith sylweddol yn absenoldeb yr amodau gofynnol, ac felly 8.4% yw cyfanswm canran y ceisiadau a allai gael effaith weddilliol hirdymor sylweddol, mewn gwirionedd.	
Canran y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth;</li> <li>• Cysylltedd ecolegol;</li> <li>• Coed, gwrychoedd a choetiroedd,; neu</li> <li>• Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol</li> </ul>	Cyngor Sir Ceredigion a Cyfoeth Naturiol Cymru	Bob blwyddyn	Dim ond 32% o'r ceisiadau perthnasol a ganiatawyd sydd wedi ymgorffori rhyw fath o welliant fel un o'r amodau. Nid yw ceisiadau lle nad yw gwelliant yn berthnasol, e.e. blychau BT, neu lle mae modd darparu gwelliannau mewn Materion a Gadwyd yn Ôl, wedi cael eu cyfrif.	-
Colled cynefin â blaenoriaeth (hectarau) oherwydd datblygu newydd.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	O'r 16 (8%) o geisiadau a allai fod wedi cael effaith negyddol sylweddol yn dilyn hepgor amodau, mae un ohonynt yn debygol o arwain at golled net o gynefinoedd â blaenoriaeth. Mae hyn tua 1660m o wrychoedd sy'n rhywogaeth gyfoethog. Yn ogystal mae 1 o'r 2 gais a gafodd	-

			eu cymeradwyo cyn i ymateb ecolegol gael ei wneud wedi arwain at golled net o tua 60m o wrychoedd. At hynny, nid yw maint y golled yn hysbys mewn perthynas â'r 89% o geisiadau a gymeradwywyd (ac eithrio hysbysebion a cheisiadau amherthnasol eraill) gan na chafwyd/cheisiwyd unrhyw ymateb gan Ecolegydd y Cyngor.	
Colled safleoedd (hectarau) sy'n bodloni meini prawf SoBiGN oherwydd datblygu newydd	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	<p>Fel y nodwyd eisoes, cymeradwywyd 16 (8%) o'r ceisiadau a gymeradwywyd gyda'r rhagdybiaeth nad oedd unrhyw effeithiau sylweddol wedi cael eu rhagweld mewn ymateb ecolegol, ond bod angen gosod amodau er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw effaith sylweddol. Fel y nodwyd cafodd yr amodau hyn (am ba reswm bynnag) eu hepgor o'r Hysbysiad o Benderfyniad terfynol.</p> <p>Fodd bynnag, o edrych ar y ceisiadau dan sylw, yn yr achos hwn nid yw hyn yn debygol o fod wedi arwain at golled net o gynefin SoBiGN.</p>	0

		<p>O ran yr 89% o geisiadau a gymeradwywyd (llai hysbysebion a cheisiadau amherthnasol eraill) lle na ofynnwyd i'r ecolegwyr ddarparu ymateb, nid yw'n glir beth oedd maint unrhyw golled o ran SoBiGN, os o gwbl.</p>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>O'r ceisiadau lle mae ecolegwyr yn ymateb, nid yw ceisiadau lle rhagwelir effeithiau sylweddol, neu lle maent yn anhysbys, yn cael eu cymeradwyo yn gyffredinol, ac felly ymddengys fod yna lwyddiant da o ran diogelu bioamrywiaeth. Fodd bynnag, yn achos 8% o'r ceisiadau a gymeradwywyd lle roedd Ecolegydd y Cyngor wedi rhagweld na fyddai unrhyw effaith sylweddol (ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu cynnwys gyda'r caniatâd cynllunio) nid oedd yr amodau perthnasol wedi'u cynnwys, naill ai'n rhannol neu'n llawn. Er bod hyn yn welliant o'i gymharu â 2013/14, bydd gwelliannau pellach yn cael eu ceisio i sicrhau bod amodau yn cael eu hymgorffori. Mae trafodaethau pellach eisoes wedi digwydd dros y misoedd diwethaf a gwelwyd gwelliannau pellach a ddylai olygu ein bod o fewn 5% erbyn 2016/17 fan bellaf. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw fewnbwn ecolegol o gwbl yn achos 60% o'r ceisiadau a gymeradwywyd (llai hysbysebion) ac felly ni wyddys beth yw effeithiau'r datblygiadau hynny. Rhaid cael trafodaethau ar y ffordd orau o ystyried y rhain er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol mewn manau eraill.</p> <p>Gan fod yr effeithiau tebygol yn ymwneud â rhywogaethau a warchodir yn bennaf, mae'r effeithiau ar gynefinoedd â blaenoriaeth yn llawer llai. Mae'n debygol mai'r effeithiau hysbys yw cael gwared ar 1720m o wrychoedd. Nid oes unrhyw effeithiau hysbys ar safleoedd sy'n debygol o fodloni meini prawf SoBiGN.</p> <p>Mae cynnwys gwelliannau o fewn ceisiadau a gymeradwywyd yn 32% yn unig (er bod hynny'n gynydd o 18% o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf). Mae hyn yn un o ofynion polisïau DM06, DM14, DM15, DM20 a DM22. Felly mae hyn yn nodyn negyddol sylweddol o dan y dangosydd hwn gan nad yw rhan o'r amcan yn cael ei chyflawni'n ddigonol.</p>			
<p><b>Casgliadau</b></p> <p>Mae rhan o'r amcan yn cael ei chyflawni trwy, at ei gilydd, werthfawrogi a diogelu bioamrywiaeth, er bod yna bryderon ynghylch y ffaith nad yw amodau a argymhellir gan Ecolegydd y Cyngor yn cael eu cynnwys mewn hysbysiadau o benderfyniad.</p> <p>Nid yw rhan o'r amcan yn cael ei chyflawni'n ddigonol ac felly bydd angen mynd i'r afael â hyn (gweler Amcanion AMB AMRQ04 a 05).</p>			

<b>Amcan Cynaliadwyedd:</b> 5a Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth a hynodedd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Rhwng 1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015	+
			<b>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd:</b> Hectarau: 3.5 (5.3%) Unedau: 46 (18.5%)	
			<b>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd:</b> Hectarau: 1.9 (26.4%) Unedau: 33 (26.4%)	
			<b>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd:</b> Hectarau: 12/6 (48.2%) Unedau: 8 (27.6%)	
			<b>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd:</b> Hectarau: 0.1 (2.1%) Unedau: 5 (14.3%)	

<p>Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir mewn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyrdd LANDMAP gydag arfarniad cyffredinol o Eithriadol.</p>	<p>Cyngor Sir Ceredigion</p>	<p>Bob blwyddyn</p>	<p>Rhwng 1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015</p> <p><b>Datblygu Preswyl a Ganiatawyd:</b> Hectarau: 0 (0%) Unedau: 2 (0.8%)</p> <p><b>Datblygu Preswyl a Gwblhawyd:</b> Hectarau: 0.1 (0.7%) Unedau: 1 (0.8%)</p> <p><b>Datblygu Amhreswyl a Ganiatawyd:</b> Hectarau: 0.2 (0.7%) Unedau: 2 (6.9%)</p> <p><b>Datblygu Amhreswyl a Gwblhawyd:</b> Hectarau: 0.02 (0.2%) Unedau: 2 (5.7%)</p>	<p>+</p>
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Mae gan Geredigion dirwedd gyfoethog ac amrywiol a werthfawrogir yn fawr. O ganlyniad, barnwyd bod oddeutu 45% o'i harwynebedd tir o ansawdd digon uchel i gael ei ddynodi fel rhan o Ardaloedd Tirwedd Arbennig, y mae tair ar ddeg ohonynt. Hefyd dynodwyd bod oddeutu 15% o'i thir o werth Eithriadol yn ôl Pennod Fethodolegol Weledol a Synhwyrdd LANDMAP, sy'n golygu ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol neu hyd yn oed rhyngwladol.</p> <p>Dylid nodi nad yw'r dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig na'r arfarniadau eithriadol LANDMAP yn atal datblygu, o angenrheidrwydd, ac na fydd llawer o fathau o ddatblygu'n cael unrhyw effaith ar y dirwedd. Dylid hefyd nodi, lle ceir datblygu mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig a thirweddau eraill a werthfawrogir yn fawr, gellir defnyddio polisiau'r CDLI i fynnu ansawdd gwell o ran dylunio a thirweddu.</p>				

Ar hyn o bryd, mae'r datblygiadau preswyl a'r rhai amhreswyl a gwblhawyd yn ymwneud â chaniatadau a roddwyd cyn mabwysiadu'r CDLI ac felly ychydig iawn o reolaeth y gellir ei chael drostynt. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r ceisiadau cynllunio perthnasol yn dangos bod oddeutu hanner (45.5%) y caniatadau preswyl mewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn Ardal 7: Dyffryn Teifi. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod y dyffryn hwn nid yn unig yn un o Ardaloedd Tirwedd Arbennig mwyaf Ceredigion, ond dyma'r ardal fwyaf poblog hefyd, gan ei bod yn cynnwys tair Canolfan Gwasanaethau (Adpar, Tregaron a Chenarth). Mae bron hanner (43.7%) y caniatadau eraill wedi'u lleoli yn Ardal 8: Dyffryn Aeron, sydd unwaith eto yn Ardal Tirwedd Arbennig weddol boblog, o fewn datblygu arwyddocaol a ganiateir yn Felin-fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r caniatadau eraill wedi'u rhannu rhwng dwy Ardal Tirwedd Arbennig arall. O ran datblygu amhreswyl a ganiatawyd, mae'r arwynebedd tir a ddatblygir yn llai ac wedi'i wasgaru'n fwy cyfartal rhwng pedwar o'r tair ar ddeg o Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae'r mwyafrif ohonynt yn Ardal 7: Dyffryn Teifi (tua 98.4%), oherwydd y datblygu sy'n creu llety gwyliau. O gofio dosbarthiad a maint bach y datblygiadau yn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig, felly, mae'n glir bod effeithiau negyddol sylweddol ar eu cymeriad yn annhebygol.

O gofio bod yr arwynebedd tir a gafodd arfarniad cyffredinol o Eithriadol yn ôl Pennod Fethodolegol Weledol a Synhwyrdd LANDMAP yn llai nag arwynebedd yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig, nid yw'n syndod gweld bod nifer y datblygiadau a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn llawer llai yn yr ardaloedd hynny. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o'r tir a werthfawrogir fwyaf yn wyllt ac anghysbell ac felly'n anaddas ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ddatblygu. Dim ond un Ganolfan Wasanaethau, Aberaeron, sydd wedi'i chynnwys o fewn yr Ardal Tirwedd Arbennig. Felly gellir barnu bod yr ymagwedd bolisi yn y maes hwn yn gweithredu'n llwyddiannus.

### **Casgliadau**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon am effeithiau'r CDLI ar dirweddau Ceredigion a werthfawrogir fwyaf.

<b>Amcanion Cynaliadwyedd:</b> 6a Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu hadlewyrchu; a 6b Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Nifer y cartrefi fforddiadwy (unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir o dan o dan bolisi cynllunio Cartrefi Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion.	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd H10)	Bob blwyddyn	Ers mabwysiadu'r CDLI, ymrwymwyd i'r cartrefi fforddiadwy canlynol:  A ganiatawyd: 686 (22.3%)  A gwblhawyd: 292 (18.9%)	+
Nifer y 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd pentref, ysgol gynradd) mewn Canolfan Gwasanaethau.	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd E06)	Bob blwyddyn	Gweler Atodiad 9	?
Nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y 30% mwyaf amddifad.	Llywodraeth Cymru <a href="https://statscymru.cymru.gov.uk">https://statscymru.cymru.gov.uk</a>	Bob blwyddyn	Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) (2014), o'r 46 ACEHI dim ond 7 (12.5%) oedd yn y 30% mwyaf amddifad, sef Capel Dewi (W01000522), Tref Llandysul (W01000533), Aberporth 2 (W01000508), Aberystwyth Penparcau 2 (W01000516), Aberystwyth Penparcau 1 (W01000515), Aberteifi/Cardigan - Rhyd-y-Fuwch (W01000510) ac Aberteifi/Cardigan - Teifi	?



			(W01000511).	
Troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math.	Ystadegau Cymdogaethau <a href="http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/">http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/dissemination/</a>	Bob blwyddyn	Nid yw ystadegau ar gyfer troseddau hysbysadwy am y flwyddyn 2014-2015 ar gael. Y ffigurau diweddaraf ar gyfer Ebrill 2012 - Mawrth 2013 yw: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trais gydag anaf (Troseddau): 261</li> <li>• Trais heb anaf (yn cynnwys Aflonyddu ac Ymosod) (Troseddau): 171</li> <li>• Lladrad (Troseddau): 6</li> <li>• Dwyn oddi ar y person (Troseddau): 5</li> <li>• Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol (Troseddau): 434</li> <li>• Byrgleriaeth o annedd (Troseddau): 56</li> <li>• Byrgleriaeth heb fod o annedd (Troseddau): 90</li> <li>• Troseddau Cerbyd (yn cynnwys Dwyn cerbydau a Dwyn o gerbydau) (Troseddau): 96</li> <li>• Troseddau Cyffuriau (Troseddau): 440</li> <li>• Troseddau Rhywiol (Troseddau): 47</li> </ul>	?

### **Dadansoddiad**

O ran Cartrefi Fforddiadwy, a ganiatawyd ac a gwblhawyd, mae'r ganran yn rhesymol o agos at y targed tai cyffredinol a ganiatawyd/gwblhawyd. Fodd bynnag, o ran nifer yr unedau, mae twf cyffredinol tai wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol ac mae hyn wedi effeithio ar allu'r polisi i ddarparu tai i ddiwallu'r anghenion dynodedig. Gan fod nifer tai'r farchnad gyffredinol a gwblhawyd o flwyddyn i flwyddyn i lawr o darged y CDLI, felly hefyd mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd. Y targed yw cwblhau 70 o unedau tai fforddiadwy bob blwyddyn (ar sail cyflenwi 400 o unedau'r farchnad gyffredinol bob blwyddyn yn y CDLI). Yr hyn mae'r ffigurau hyn yn ei ddangos yw bod 292 o unedau tai fforddiadwy wedi cael eu cwblhau, sy'n gyfwerth, o'i gyfartaleddu dros 7 mlynedd, â chwblhau 42 o unedau tai fforddiadwy bob blwyddyn. Mae'n debygol na fydd y targed, sef cwblhau 70 o unedau tai fforddiadwy bob blwyddyn, yn cael ei gyrraedd hyd nes i gyfradd cwblhau tai'r farchnad gyffredinol wella. Mae grymoedd y farchnad allanol yn milwrio yn erbyn cyrraedd y targed a nodir sef 400 o unedau bob blwyddyn, gan effeithio yn ei dro ar y targed tai fforddiadwy.

O ran gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau, gan mai ers mis Ebrill 2013 mae'r CDLI wedi bod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r strategaeth hon yn cael effaith ar eu cadw neu eu gwella. Felly yn yr adroddiad hwn mae canlyniadau'r dangosydd hwn yn rhoi llinell sylfaen ar gyfer gwaith monitro yn y dyfodol ac felly ni wyddys beth yw eu harwyddocâd.

O ran nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 30% mwyaf amddifad, nododd AMB y flwyddyn ddiwethaf fod 4.3% o'r Ardaloedd hyn yng Ngheredigion wedi'u cynnwys o fewn y grŵp hwn. Fodd bynnag, y flwyddyn hon nodwyd bod 12.5% (7 mewn nifer) o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Ceredigion wedi'u cynnwys o fewn y 30% mwyaf amddifad yng Nghymru. Yn dilyn rhyddhau WIMD 2014 yng Ngorffennaf 2015 derbyniwyd hysbysiad gan Lywodraeth Cymru yn datgan bod camgymeriadau wedi digwydd wrth fewnbynnu data i'r WIMD ac felly bod angen ei ddiwygio. Er na dderbyniwyd unrhyw fersiwn diwygiedig hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd dros 90% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is wedi'u rhestru'n wahanol ar ôl cywiro'r camgymeriadau. Felly, nid oes modd asesu'n gywir arwyddocâd y data eto nes bod y fersiwn diwygiedig o'r WIMD wedi'i ryddhau.

O ran troseddau hysbysadwy a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl math, ni chafodd unrhyw ddiweddariad i'r data hwn ac felly bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer monitro yn y dyfodol.

### **Casgliadau**

Mae'r AMB yn awgrymu bod canran y cartrefi fforddiadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol y Sir mewn ffordd sy'n ymateb i amrywiaeth o anghenion trwy alluogi pobl leol y mae angen tai fforddiadwy arnynt i gael tai yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol.

Ni all yr AMB ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effeithiau'r CDLI ar hyn o bryd mewn perthynas â'r amcan i adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.

<b>Amcanion Cynaliadwyedd:</b> 7a Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Canran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig (400m) o wasanaethau iechyd allweddol.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Oherwydd problemau yn cyrchu ac yn prosesu'r set ddata hon, ni fu modd mesur y dangosydd hwn yn ystod y cyfnod hwn. Os yw hyn yn parhau, bydd yr ACLI yn ystyried a oes opsiynau eraill i ddisodli'r mesur arbennig hwn yn barod ar gyfer AMB 2016.	<b>Amh.</b>
Canran yr anheddau newydd sydd o fewn 300m i'r man gwyrdd naturiol agosaf.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Mae pob annedd newydd o fewn 300m o'r man gwyrdd naturiol agosaf yn ôl data Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'fannau gwyrdd naturiol sydd o bosibl yn hygyrch'.	<b>+</b>
Maint y cyfleusterau manau agored newydd (hectarau) a ddarperir.	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd Q01 a Q03)	Bob blwyddyn	Ennill 0.04 hectar o gyfleuster man agored ffurfiol yng Nghanolfan Gwasanaethau Trefol Aberystwyth.	<b>+</b>
<p><b>Dadansoddiad</b> Mae llawer o'r ceisiadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod monitro hwn yn ymwneud â safleoedd y rhoddwyd caniatâd amlinellol iddynt eisoes o dan y Cynllun Datblygu Unedol (UDP) ac o'r herwydd ni fu modd ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiadau ddarparu manau agored yn unol â Pholisi LU24.</p> <p>Oherwydd natur wledig Ceredigion, mae pob annedd o fewn 300 metr i fan gwyrdd naturiol yn ôl data Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'fannau gwyrdd naturiol sydd o bosibl yn hygyrch'. Mae angen mireinio'r wybodaeth am fannau gwyrdd naturiol oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn darparu ateb mwy manwl yng nghyfnodau cynlluniau yn y dyfodol.</p>				
<p><b>Casgliadau</b> Mae'r data'n adlewyrchu'r ffaith bod llawer o'r ceisiadau a ddaeth i law yn ymwneud mewn rhyw ffordd â chaniatadau a roddwyd o dan y CDU. Wrth i'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLI gael eu datblygu, bydd maint y manau agored newydd yn cynyddu.</p>				

<b>Amcanion Cynaliadwyedd:</b> 8a Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2013)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Dyddiau twristiaid a nifer twristiaid fesul (i) Llety â Gwasanaeth, (ii) Llety heb Wasanaeth, (iii) Aros gyda chyfeillion neu berthnasau a (iv) Ymwelwyr Dydd.	Cyngor Sir Ceredigion <a href="http://www.discoverceredigion.co.uk/Cymraeg/Pages/default.aspx">http://www.discoverceredigion.co.uk/Cymraeg/Pages/default.aspx</a>	Bob blwyddyn	Dim ond ar sail blwyddyn galendr mae'r wybodaeth ganlynol ar gael. Mae'r wybodaeth isod ar gyfer y flwyddyn 2013 (gwybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael); <ul style="list-style-type: none"> <li>• 216,700 o bobl a arhosodd mewn Llety â Gwasanaeth</li> <li>• 956,600 a arhosodd mewn Llety heb Wasanaeth</li> <li>• 117,400 a arhosodd gyda chyfeillion neu berthnasau</li> <li>• 1.3 miliwn o ymwelwyr dydd</li> </ul>	<b>0</b>
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>O'u cymharu â'r data o 2012, mae'r data o 2013 yn dangos gostyngiad yn nifer y bobl a arhosodd mewn llety o bron pob math. Yr eithriad oedd aros gyda chyfeillion neu berthnasau, lle cafwyd cynnydd bach. Nid yw hyn yn unigryw i Geredigion ac mae'r sefyllfa yr un fath yn nifer o'r awdurdodau cyfagos i Geredigion.</p> <p>Dangosodd y ffigur cymharol o ganolbarth a de Cymru bod y sector heb wasanaeth (yn enwedig carafanau a gweryslla) wedi perfformio'n wael iawn yn 2013. Mae'r mwyafrif o'r gwelyau twristiaeth yn y math hwn o lety ac felly gall hyn gael effaith gryfach ar agweddau eraill ar economi twristiaeth Ceredigion.</p> <p>Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad hwn yn nifer yr ymwelwyr, mewn gwirionedd bu 0.3% o gynnydd yn yr effaith economaidd. O'r herwydd, bernir nad yw'r Cynllun wedi cael llawer o effaith ar nifer y twristiaid ac mai niwtral yw'r newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn gyffredinol.</p> <p>Gwneir gwaith dadansoddi pellach ar ôl cyhoeddi adroddiad STEAM y disgwylir iddo fod ar gael yn yr Hydref 2015.</p> <p><b>Casgliadau</b></p> <p>Er y bu gostyngiad amlwg yn nifer y twristiaid, nid ymddengys fod hyn yn benodol i Geredigion. Bernir y bydd polisi'r CDLI sy'n cyfyngu ar ddatblygu safleoedd carafanau newydd ac ati o fudd i Geredigion yn y tymor hir trwy ei gwneud yn llai dibynnol ar un sector llety penodol.</p>				

Amcanion Cynaliadwyedd: 9a Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl 16-64 oed sydd ag o leiaf gymhwyster NVQ lefel 2 neu gymhwyster cyfwerth.	NOMIS - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur <a href="http://www.nomisweb.co.uk/">http://www.nomisweb.co.uk/</a>	Bob blwyddyn	Ar gyfer y cyfnod Ionawr 2014-Rhagfyr 2014 fel a ganlyn:	?
Nifer a chanran y bobl 16-64 oed sydd ag o leiaf gymhwyster NVQ lefel 4 neu gymhwyster cyfwerth.	NOMIS - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur <a href="http://www.nomisweb.co.uk/">http://www.nomisweb.co.uk/</a>	Bob blwyddyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• NVQ4 ac uwch: 16,300 (34.1%)</li> <li>• NVQ3 ac uwch: 30,500 (63.6%)</li> <li>• NVQ2 ac uwch: 39,100 (81.7%)</li> <li>• NVQ1 ac uwch: 43,100 (89.8%)</li> <li>• Cymwysterau eraill: 1,500 (3.2%)</li> <li>• Dim cymwysterau: 3,300 (6.9%)</li> </ul>	?
Canran y bobl 16-24 oed sydd o fewn trothwyau amser teithio 30, 60, 90 munud o 'Ddarparwyr Dysgu' drwy (i) gerdded (ii) trafndiaeth gyhoeddus a (iii) car.	Cyngor Sir Ceredigion	2011-13 a 2021-23	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cerdded <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 71.6%</li> <li>o 60 munud: 4.1%</li> <li>o 90 munud: 6.5%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 17.8%</li> </ul> </li> <li>• Trafndiaeth Gyhoeddus <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 86.1%</li> <li>o 60 munud: 8%</li> <li>o 90 munud: 2.2%</li> </ul> </li> </ul>	+

			<ul style="list-style-type: none"> <li>o Mwy na 90 munud: 2.8%</li> <li>• Car             <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 100%</li> <li>o 60 munud: 0%</li> <li>o 90 munud: 0%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 0%</li> </ul> </li> </ul>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>I raddau helaeth caiff y ffigurau hyn eu defnyddio fel ffigur llinell sylfaen ar gyfer AMB yn y dyfodol, yn arbennig o ran y pellter o ddarparwyr dysgu.</p> <p>Fodd bynnag, cesgkir data ar gymwysterau'n amlach a gellir eu cymharu â data cenedlaethol eraill. O gymharu'r data â chyfartaledd Cymru gwelir bod Ceredigion yn cyflawni lefelau uwch o gymwysterau na chyfartaledd Cymru. Mae gan 81.7% o boblogaeth Ceredigion gymhwyster NVQ Lefel 2 ac uwch o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 72.5%. Dim ond 6.9% o boblogaeth Ceredigion sydd heb unrhyw gymhwyster, ond 10% yw cyfartaledd Cymru.</p>				
<p><b>Casgliadau</b></p> <p>Ni all yr AMB ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar fynediad at ddarparwyr dysgu a chymwysterau ar hyn o bryd. Mae hyn oherwydd bod y ffigurau a roddir yn ddata llinell sylfaen y caiff AMB yn y dyfodol eu hasesu yn eu hôl.</p>				

Amcanion Cynaliadwyedd: 10a Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl blwyddyn Cyfrifiad.	Swyddfa Ystadegau Gwladol <a href="http://www.ons.gov.uk/ons/index.html">http://www.ons.gov.uk/ons/index.html</a>	2011-13 a 2021-23	31 Mawrth 2011:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pawb 3 oed a hŷn: 73,847</li> <li>• Pobl a all siarad Cymraeg: 34,964</li> <li>• Pobl na allant siarad Cymraeg: 38,883</li> <li>• Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 47%</li> </ul>	0
Canran y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg yn ôl amcangyfrifon Arolwg Poblogaeth Blynnyddol.	Llywodraeth Cymru <a href="https://statscymru.cymru.gov.uk">https://statscymru.cymru.gov.uk</a>	Bob blwyddyn	31 Rhagfyr 2014, pobl 3 oed a hŷn:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pawb 3 oed a hŷn: 74,500</li> <li>• Pobl a all siarad Cymraeg: 39,900</li> <li>• Pobl na allant siarad Cymraeg: 34,600</li> <li>• Canran y bobl sy'n dweud y gallant siarad Cymraeg: 53.6%</li> </ul>	?
Nifer a chanran disgyblion Ceredigion sy'n siarad Cymraeg gartref.	Cyngor Sir Ceredigion Cyfrifiad Ysgolion	Bob blwyddyn	Mae'r data ar gyfer blwyddyn academaidd 2014-2015:  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn siarad Cymraeg gartref: 3,679 (38.3%)</li> <li>• Nid yw'n siarad Cymraeg</li> </ul>	?

			gartref: 4,142 (43.1%) • Amherthnasol (ni all siarad Cymraeg): 1,781 (18.6%)	
Nifer a chanran y disgyblion sy'n cael Asesiad Athro drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.	Llywodraeth Cymru <a href="https://statswales.gov.uk">https://statswales.gov.uk</a> (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol)	Bob blwyddyn	Data ar gyfer y flwyddyn 2013/2014  Aseswyd 461 o ddisgyblion yn Gymraeg o gyfanswm o 734 o ddisgyblion (62.8%)	?
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Ers cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011 mae'r Gymraeg wedi bod yn destun cryn dipyn o drafod academaidd a gwleidyddol. Mae rhan sylweddol o'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar y ffaith y gwelwyd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru rhwng 2001 a 2011, o ryw 582,000 i ryw 562,000 o unigolion. Yn ôl data'r Cyfrifiad gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer a chanran y bobl oedd yn honni y gallent siarad Cymraeg yng Ngheredigion, o ryw 38,000 (oddeutu 52%) i ryw 35,000 (oddeutu 47%). O gofio'r twf a welwyd rhwng 1991 a 2001 mae'r fath newid yn nifer y siaradwyr yn arbennig o annymunol. Fodd bynnag, er y bwriedir i'r Cyfrifiad fesur yr holl boblogaeth ac er gwaethaf ymdrech helaeth i sicrhau bod pob un unigolyn ac annedd yn cael ei gyfrif, mae elfen o ansicrwydd yn rhagamcanion y Cyfrifiad. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi darparu mesur o'r ansicrwydd hwn ar gyfer rhai o'r canlyniadau allweddol yn nhermau cyfyngau hyder e.e. roedd gan ragamcan cyffredinol y Cyfrifiad ar gyfer poblogaeth Cymru a Lloegr led cyfwng hyder 95 y cant o blws neu finws 0.15 y cant (plws neu finws 83,000 o bobl). Er na ddarperir cyfwng hyder ar gyfer ffigurau'r Gymraeg, mae meintiau sampl bach yn arwain at gyfyngau lletach oherwydd bod llai o sicrwydd, yn naturiol, ar gyfer poblogaethau llai. O ganlyniad, dylid bod yn eithaf gofalus wrth ddod i gasgliadau o'r data ar yr iaith, yn enwedig wrth edrych ar yr ardaloedd lleiaf ac yn arbennig wrth ystyried y newidiadau cymharol fân dan sylw. Fodd bynnag, mae'r Cyfrifiad yn darparu'r rhagamcanion mwyaf dibynadwy ar gyfer y boblogaeth a'i nodweddion.</p> <p>Mae'n ddefnyddiol ystyried fffynonellau data eraill ac mae'r AMB hefyd yn cymryd sylw o ganlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae rhagamcanion yr Arolwg yn awgrymu bod Ceredigion, ym mis Rhagfyr 2014, yn gartref i ryw 39,600 o bobl 3 oed a hŷn (oddeutu 53.4%) a allai siarad Cymraeg, sydd oddeutu 6.5% yn uwch na rhagamcan y Cyfrifiad o fis Mawrth 2011. Fodd bynnag, oherwydd bod maint sampl yr Arolwg yn llawer iawn llai, dylid trin ffigurau'r Arolwg yn llawer mwy gofalus. Maent yn dangos cryn amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn yn nifer a chanran y siaradwyr (er enghraifft, 57.1% ar ddiwedd 2011 a dim ond 52.5% yn 2012) sy'n dangos yn glir pa mor anwadal yw rhagamcanion a ddeillir o samplau bach. Ni ddarperir cyfyngau hyder gyda'r data.</p> <p>Yn olaf, mae'r AMB hefyd yn ystyried data addysg a gymerir o Gyfrifiad Ysgolion blynyddol Ceredigion a Dangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth</p>				



Cymru. Mae'r cyntaf yn dangos bod mwyafrif helaeth y disgyblion yn ysgolion Ceredigion yn gallu siarad Cymraeg, gan mai dim ond 18.6%, sef cynnydd o 2.2% ers y flwyddyn ddiwethaf sy'n honni na allant siarad yr iaith. Mae'r data o'r Cyfrifiad hwn ar gael mor bell yn ôl â blwyddyn academiaidd 2009/10 ac yn dangos bod nifer a chanran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref wedi bod yn gymharol gyson ers yr adeg honno, gan amrywio rhwng 3,914 (39.2%) yn 2009/10 a 3,679 (38.3%) yn 2014/15. Efallai y byddai'n ddymunol i'r nifer a chanran hon godi, er bod hyn y tu hwnt i gylch gwaith y CDLI. Dylid nodi bod nifer a chanran y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd yn aros yn gymharol gyson, gan amrywio rhwng 1,949 (19.5%) yn 2009/10 i 1,356 (14.2%) yn 2012/13. Caiff data Cyfnod Allweddol 3 Llywodraeth Cymru eu cyhoeddi flwyddyn ar ei hôl ac felly ni wyddys eto sut mae'r nifer siaradwyr a gofnodir yng Nghyfrifiad Ysgolion Ceredigion yn trosi'n nifer asesiadau, mae'r Dangosydd Strategol Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn 2013/2014 ar gael ac yn datgan bod dros 62% o ddisgyblion yn y garfan addysgol honno wedi cael Asesiad Athrawon yn Gymraeg (iaith gyntaf). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, sef 17%.

Mae gweld cysylltiadau achosol rhwng newid ieithyddol a chynllunio gofodol yn anodd tu hwnt, ac nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol i awgrymu bod perthynas o'r fath yn bodoli yng Ngheredigion. At hynny, yn achos Cyfrifiad 2011, mabwysiadwyd y CDLI ar ôl iddo gael ei gynnal ac felly ni fyddai modd honni bod y CDLI wedi bod yn ffactor sylweddol wrth sbarduno newid dros y cyfnod rhwng Cyfrifiadau. Fodd bynnag, nid dadl dros anwybyddu'r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol yw hyn, a bydd yr AMB yn parhau i fonitro newidiadau ieithyddol dros gyfnod y Cynllun. Ar yr adeg hon yng nghyfnod y CDLI, fodd bynnag, nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar y Gymraeg.

#### **Casgliadau**

Ni all yr AMB ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar y Gymraeg ar hyn o bryd.

<b>Amcanion Cynaliadwyedd:</b> 11a Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio; a 11b Gwella hygyrchedd at wasanaethau i gymunedau, a chysylltedd er budd yr economi.				
<b>Dangosydd</b>	<b>Ffynhonnell</b>	<b>Pa mor aml</b>	<b>Perfformiad</b> (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			<b>Natur y perfformiad</b>	<b>Arwyddocâd</b>
Canran yr aelwydydd sydd o fewn trothwyau amser teithio 30, 60 a 90 munud o amwynderau, gan gynnwys (i) archfarchnad, (ii) swyddfa bost a (iii) meddygfa a/neu ysbyty; trwy gerdded, neu drwy ddefnyddio car neu drafnidiaeth gyhoeddus.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	<b>Archfarchnad</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Car: <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 99.94%</li> <li>o 60 munud: 0.05%</li> <li>o 90 munud: 0%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 0.01%</li> </ul> </li> <li>• Trafnidiaeth Gyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 64.06%</li> <li>o 60 munud: 9.61%</li> <li>o 90 munud: 2.50%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 23.83%</li> </ul> </li> <li>• Cerdded: <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 36.81%</li> <li>o 60 munud: 8.65%</li> <li>o 90 munud: 11.79%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 42.75%</li> </ul> </li> </ul> <b>Swyddfa Bost</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Car: <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 99.99%</li> <li>o 60 munud: 0%</li> </ul> </li> </ul>	?

			<ul style="list-style-type: none"> <li>o 90 munud: 0%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 0.01%</li> <li>• Trafnidiaeth Gyhoeddus:             <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 76.42%</li> <li>o 60 munud: 4.52%</li> <li>o 90 munud: 0.50%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 18.56%</li> </ul> </li> <li>• Cerdded:             <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 60.85%</li> <li>o 60 munud: 18.40%</li> <li>o 90 munud: 12.14%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 8.61%</li> </ul> </li> </ul> <p><b>Meddygfa a/neu ysbyty</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Car:             <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 99.99%</li> <li>o 60 munud: 0%</li> <li>o 90 munud: 0%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 0.01%</li> </ul> </li> <li>• Trafnidiaeth Gyhoeddus:             <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 70.51%</li> <li>o 60 munud: 7.51%</li> <li>o 90 munud: 1.09%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 20.89%</li> </ul> </li> </ul>	
--	--	--	---	--

			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cerdded:             <ul style="list-style-type: none"> <li>o 30 munud: 44.37%</li> <li>o 60 munud: 12.50%</li> <li>o 90 munud: 15.81%</li> <li>o Mwy na 90 munud: 27.32%</li> </ul> </li> </ul>	
Maint y traffig ar y ffordd.	Llywodraeth Cymru <a href="https://statscymru.cymru.gov.uk">https://statscymru.cymru.gov.uk</a>	Bob blwyddyn	<p>Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2013-2014 ar gael. Cofnodwyd maint y traffig ddiwethaf yn 2013 fel a ganlyn:</p> <p>0.7 biliwn o gilometrau cerbydau.</p>	?
Prif dull o deithio i'r gwaith.	Swyddfa Ystadegau Gwladol <a href="http://www.ons.gov.uk/ons/index.html">http://www.ons.gov.uk/ons/index.html</a>	2011-13 a 2021-23	<p>31 Mawrth 2011:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pob categori: Dull teithio i'r gwaith (amgen): 57,405</li> <li>• Gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref: 6,780 (11.8%)</li> <li>• Trên tanddaearol, metro, tram, neu reilffordd ysgafn: 32 (0.1%)</li> <li>• Trên: 125 (0.2%)</li> <li>• Bws, bws mini neu goets: 910 (1.6%)</li> <li>• Tacsï: 98 (0.2%)</li> <li>• Beic modur, moped neu sgwter: 148 (0.3%)</li> <li>• Gyrru car neu fan: 17,917</li> </ul>	?

			<p>(31.2%)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Teithiwr mewn car neu fan: 1,652 (2.9%)</li> <li>• Beic: 361 (0.6%)</li> <li>• Cerdded: 4,266 (7.4%)</li> <li>• Dull arall o deithio i'r gwaith: 157 (0.3%)</li> <li>• Ddim mewn cyflogaeth: 24,959 (43.5%)</li> </ul>	
Nifer y ceir neu faniau i bob aelwyd.	Swyddfa Ystadegau Gwladol <a href="http://www.ons.gov.uk/ons/index.html">http://www.ons.gov.uk/ons/index.html</a>	2011-13 a 2021-23	<p>31 Mawrth 2011:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pob aelwyd: 31,562</li> <li>• Aelwydydd heb unrhyw gar neu fan: 5,803 (18.4%)</li> <li>• Aelwydydd ag 1 car neu fan: 13,627 (43.2%)</li> <li>• Aelwydydd â 2 gar neu fan: 8,677 (27.5%)</li> <li>• Aelwydydd â 3 gar neu fan: 2,449 (7.8%)</li> <li>• Aelwydydd â 4 car neu fan neu fwy: 1,006 (3.2%)</li> <li>• Cyfanswm yr holl geir neu faniau: 42,905</li> </ul>	?

**Dadansoddiad**

At hynny, mae effaith datblygiadau preswyl newydd fel cyfran o'r stoc tai presennol wedi'u gwasgaru dros y Sir yn debygol o fod yn anodd iawn ei gweld o flwyddyn i flwyddyn ac o ran rhywfaint o'r data, nid yw'n hawdd gweld perthynas achosol rhwng amserau teithio a datblygiadau preswyl. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dadansoddi'r data dros gyfnod hirach yn cynnig rhyw awgrym ynghylch effeithiau'r CDLI.

O ran amserau teithio i gyfleusterau allweddol, mae'r canlyniadau yn parhau heb eu newid at ei gilydd o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ar gyfer gyrru a

cherdded o gofio'r nifer isel o breswylwyr a gyflwynodd wybodaeth. Mae'r ganran mwy na 90 munud o gyfleusterau allweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu oherwydd newidiadau yn y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ac amllder gwasanaethau, fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn parhau o fewn amser teithio 30 munud.

### **Casgliadau**

Ni all yr AMB ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y CDLI ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd senario 'dim newid' o flwyddyn i flwyddyn yn parhau ac na fydd modd gweld effeithiau sylweddol tan adeg ddiweddarach yng nghyfnod y Cynllun. Dylai unrhyw newidiadau sylweddol fod yn destun dadansoddiad o'r achosion posibl y tu hwnt i effaith y CDLI.

Amcanion Cynaliadwyedd: 12a Hybu economi fywiog ac amrywiol.				
Dangosydd	Ffynhonnell	Pa mor aml	Perfformiad (1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015)	
			Natur y perfformiad	Arwyddocâd
Nifer a chanran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth	NOMIS - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur <a href="http://www.nomisweb.co.uk/">http://www.nomisweb.co.uk/</a>	Bob blwyddyn	Ebrill 2014 i Fawrth 2015:  <ul style="list-style-type: none"> <li>Economaidd Weithgar: 35,100 (67.2%)</li> <li>Mewn cyflogaeth: 33,700 (64.5%)</li> <li>Cyflogeion: 25,300 (50.1%)</li> <li>Hunangyflogedig: 8,100 (14%)</li> <li>Di-waith (ar sail model): 1,700 (4.8%)</li> </ul>	+
Tâl wythnosol gros cymedrig ar gyfer preswylwyr yng Ngheredigion.	NOMIS - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur <a href="http://www.nomisweb.co.uk/">http://www.nomisweb.co.uk/</a>	Bob blwyddyn	Ebrill 2014 i Fawrth 2015:  <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithwyr amser llawn: £435.30</li> <li>Gweithwyr amser llawn gwryw: £457.60</li> <li>Gweithwyr amser llawn benyw: £389.2</li> </ul>	+
Nifer y cyflogeion fesul sector economaidd bras.	Stats Cymru: <a href="https://statswales.wales.gov.uk">https://statswales.wales.gov.uk</a>	Bob blwyddyn	Cyflogaeth yn y gweithle fesul diwydiant:  <ul style="list-style-type: none"> <li>Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota: 3,600</li> <li>Cynhyrchu: 2,000</li> <li>Adeiladu: 2,300</li> </ul>	+

			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd: 9,100</li> <li>• Gwybodaeth a chyfathrebu: 400</li> <li>• Gweithgareddau ariannol ac yswiriant: 400</li> <li>• Gweithgareddau eiddo tiriog: 600</li> <li>• Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth: 2,600</li> <li>• Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd: 12,300</li> <li>• Gweithgareddau gwasanaeth eraill: 2,700</li> <li>• Pob diwydiant: 36,200</li> </ul>	
Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd E03)	Bob blwyddyn	Maint y datblygu economaidd a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau) = 52.2% (60 o unedau)	+
Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd E03)	Bob blwyddyn	Maint y datblygu economaidd a gwblhawyd ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau) = 55.6% (40 o unedau)	+



Canran yr adeiladau sy'n wag yng nghanol trefi Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Chwefror 2015: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aberaeron: 7.8%</li> <li>• Aberteifi: 9.8%</li> <li>• Aberystwyth: 2.3%</li> <li>• Llanbedr Pont Steffan: 3.9%</li> <li>• Llandysul: 14.3%</li> <li>• Tregaron: 16.7%</li> </ul>	+
Canran y defnyddiau manwerthu ar brif ffryntiadau manwerthu.	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd E07)	Bob blwyddyn	• Gweler canlyniadau Dangosydd E07 AMB	0
Canran y defnyddiau manwerthu ar ffryntiadau manwerthu eilaidd.	Cyngor Sir Ceredigion (AMB Dangosydd E07)	Bob blwyddyn	Gweler canlyniadau Dangosydd E07 AMB	+
Nifer ymwelwyr yn Aberystwyth.	Cyngor Sir Ceredigion	Bob blwyddyn	Nifer yr ymwelwyr a gofnodwyd ar ddydd Gwener 14 Tachwedd 2014, rhwng 10am a 5pm: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Stryd Fawr: 2,513</li> <li>• Sgwâr Owain Glyndwr: 1,547</li> <li>• Sgwâr Owain Glyndwr: 1,322</li> <li>• Ffordd y Môr (Gogledd): 1,777</li> <li>• Ffordd y Môr (De): 1,883</li> <li>• Y Ffynnon Haearn: 1,256</li> <li>• Tŵr y Cloc - Stryd y Bont: 551</li> <li>• Tŵr y Cloc - Y Stryd Fawr Uchaf: 680</li> <li>• Promenâd - pen Ffordd y Môr: 602</li> </ul>	?

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Promenâd - pen Ffordd y Môr: 592</li> <li>• Y Porth Bach (pen uchaf): 406</li> <li>• Heol y Wig (Cardigan House): 733</li> <li>• Cyfanswm: 13,862</li> </ul>	
<p><b>Dadansoddiad</b></p> <p>Er gwaethaf y ffaith fod llai o bobl economaidd weithgar yng Ngheredigion yn 2015 nag yn 2007 (pan ddechreuodd cyfnod y CDLI), bu twf yn nifer ac felly canran y bobl mewn cyflogaeth. Yn 2007 roedd yna ryw 32,000 (61.1%) o bobl mewn cyflogaeth, ac yn 2015 mae'r nifer wedi codi i oddeutu 33,700 (64.5%). Er yr achosodd y dirwasgiad economaidd i'r nifer mewn cyflogaeth ostwng o uchafbwynt o 35,400 (69.6%) yn 2010 i isafbwynt o 31,700 (61.3%) yn 2011/2012, ers hynny bu codiad graddol yn nifer y bobl mewn cyflogaeth. Efallai bod canran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth yn ymddangos yn fach, gan ei bod yn is na chyfartaledd Cymru (69.3%) a'r Deyrnas Unedig (72.7%), ond mae gan Geredigion boblogaeth gymharol fawr o fyfyrwyr, oedd yn cyfrannu yn 2015 oddeutu 50.9% o'r unigolion nad oeddent mewn cyflogaeth.</p> <p>Mae data Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y tâl wythnosol gros i gyflogeion amser llawn wedi codi oddeutu 2.8% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y cyfnod o 2007 i 2013 sy'n fwy na'r lefel gyffredinol yng Nghymru (oddeutu 2.4%) a'r Deyrnas Unedig (oddeutu 2.2%). Mae'r tâl wythnosol gros ar gyfer gweithwyr amser llawn wedi cynyddu gan £20 pellach ym Mawrth 2015. Fodd bynnag, o gofio bod ffigurau Ceredigion yn deillio o ddata arolwg ar gyfer ardal fach, mae'n bosibl bod y newid i'w briodoli'n fwy i amrywioldeb sampl nag i dystiolaeth o newid gwirioneddol mewn incwm (y cyfernod amrywiad ar gyfer data dros dro 2013 yw 5-10% ar gyfer yr holl gyflogeion ac ar gyfer dynion, a 10-15% ar gyfer menywod). Fodd bynnag, mae cyflogau yng Ngheredigion yn gyson is na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig ac mae'r twf a ragdybir hefyd yn is na'r gyfradd chwyddiant flynyddol gyfartalog ar gyfer y cyfnod hwn a oedd, yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, ychydig dros 3%. Mae gwahaniaeth sylweddol hefyd rhwng y cyflogau a delir i weithwyr gwryw a benyw yn nhermau tâl wythnosol gros. Rhwng 2007 a 2013 ymddengys fod tâl gweithwyr gwryw wedi cynyddu oddeutu 3.2% ar gyfartaledd, a dim ond oddeutu 1.5% y cododd tâl gweithwyr benyw. Ysyaeth, noder y rhybudd uchod ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r rhagamcanion sampl. Mae'r data'n awgrymu bod tâl gweithwyr gwryw wedi gweld lefelau twf uwch na chyfartaleddau Cymru a'r Deyrnas Unedig (oddeutu 2% oedd y ddau) ond bod tâl gweithwyr benyw wedi gweld twf is na'r ddau (oddeutu 2.7% oedd y ddau). Yn ystod y cyfnod 2013-2015 roedd gostyngiad yn y tâl wythnosol gros ar gyfer gweithwyr gwryw a chynnydd i weithwyr benyw sy'n awgrymu newid yn y duedd.</p>			

Mae data ar gyflogaeth fesul sector economaidd ar gael ar gyfer 2013. O'i gymharu â data 2012 a adroddwyd y flwyddyn ddiwethaf bu gostyngiad mewn cyflogaeth ar gyfer y sector cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnoleg, gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth, ond roedd cynnydd ym mhob sector arall gyda chyfanswm cyflogaeth ym mhob diwydiant wedi cynyddu o 34,900 yn 2012 i 36,200 yn 2013.

O ran datblygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI, erbyn hyn mae 52.2% o'u harwynebedd wedi'i ymrwymo ar gyfer datblygu, er mai dim ond 55.6% o'r unedau sydd wedi cael eu cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r safleoedd a gwblhawyd a gofnodwyd eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLI gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI wedi cael eu dynodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu a/neu ad-drefnu eu defnyddiau presennol mewn modd cydgysylltiedig. Mae hon yn sefyllfa foddhaol ar yr adeg hon yng nghyfnod y Cynllun.

Mae cyfraddau siopau gwag yn amrywio'n fawr rhwng canol trefi; mae 9.8% o siopau'n wag yn Aberteifi a 7.8% yn Aberaeron. 9.1% yw cyfradd gyfartalog siopau gwag yng nghanol trefi Ceredigion. Mae hyn yn is na chyfartaledd siopau gwag y Deyrnas Unedig a oedd, yn ôl y Local Data Company (2014) yn 13.9% ym mis Rhagfyr 2013. Felly, er bod yna bryder o bosibl mewn canol trefi fel Aberteifi a Thregaron, mae canol trefi eraill Ceredigion yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac, yn gyffredinol, mae'r sefyllfa'n obeithiol, yn enwedig gan fod gan Aberystwyth, canolfan siopa fwyaf Ceredigion o bell ffordd, gyfradd siopau gwag o ddim ond 2.3%.

Mae prif ffryntiadau manwerthu Ceredigion a'i ffryntiadau manwerthu eilaidd, sy'n bodoli yn Aberystwyth ac Aberteifi yn unig, hefyd yn cynnig darlun amrywiol. Yn Aberystwyth mae canran defnyddiau manwerthu yn y Prif Ffryntiadau'n amrywio o 50% i 83.3%, ac o 30% i 84.6% yn y Ffryntiadau Eilaidd. Yn Aberteifi mae canran defnyddiau manwerthu yn y Prif Ffryntiadau'n amrywio o 65.4% i 76%, ac o 42.9% i 85.7% yn y Ffryntiadau Eilaidd. Nod y CDLI yw cadw defnyddiau manwerthu yn bennaf yn y ffryntiadau hyn. 75% yw'r ganran a ddymunir yn y Prif Ffryntiadau. Mae'n glir, felly, er bod Amcanion y Cynllun yn cael eu bodloni mewn rhai mannau, mewn mannau eraill maent yn methu. Felly mae'n bwysig cadw safbwynt polisi cadarn ar geisiadau yn y mannau hyn, yn enwedig pan gynnigir newid defnydd i swyddogaeth nad yw'n fanwerthu.

Mae arolygon nifer ymwelwyr wedi cael eu cynnal yn Aberystwyth bob blwyddyn ers 2012. Ers yr arolwg cyntaf cofnodwyd cynnydd bach yn nifer yr ymwelwyr yn y rhan fwyaf o fannau yn Aberystwyth. Fodd bynnag, o gofio natur gyfyngedig y cynnydd a'r cyfnod byr mae'r arolwg wedi'i gynnal drosto, nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau o'r ffaith hon. Mae'n debygol felly y bydd y dangosydd hwn yn dod yn fwy defnyddiol yn rhan olaf cyfnod y Cynllun, yn enwedig ar ôl datblygu prosiectau manwerthu mawr fel siopau arfaethedig Tesco a Marks & Spencer ar safle a neilltuwyd M0302 (Dan Dre).

### **Casgliadau**

Mae yna arwyddion bod yr economi a'r farchnad swyddi'n gwella yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud ai tuedd hirdymor yw hon ac a oes cysylltiad achosol rhyngddi a gweithrediad y CDLI. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y CDLI yn cael effaith negyddol ar yr economi leol ac felly, yng nghyd-destun yr AG/AAS, nid yw effaith gyffredinol y CDLI yn codi unrhyw bryderon ar hyn o bryd.

### 6. Casgliadau ac Argymhellion

6.1 Mae paragraff 4.43 o'r ddogfen 'Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru' yn nodi saith cwestiwn mae angen i'r AMB geisio eu hateb. Er yr ystyrir ac y rhoddir sylw i'r holl faterion yn yr adroddiad hwn trwyddo draw fel rhan o'r dadansoddiad o'r data monitro, nid ydynt wedi'u gosod allan yn benodol i roi sylw uniongyrchol i'r cwestiynau hyn. Er mwyn sicrhau bod yr Adroddiad yn cydymffurfio â'i ofynion statudol, mae'n briodol nodi'r casgliad ac argymhellion er mwyn ateb y saith cwestiwn yn uniongyrchol.

#### A yw'r strategaeth sylfaenol yn parhau'n gadarn?

6.2 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd trwy broses yr AMB yn dangos bod:

- Y strategaeth datblygu ar gyfer Ceredigion yn parhau'n gadarn ac nid oes angen ymyrraeth bellach ar yr adeg hon yng nghyfnod y cynllun.

#### Pa effaith y mae'r polisiau yn ei chael yn fyd-eang, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol?

6.3 Mae'r AAS yn nodi bod newid cadarnhaol yn yr amgylchedd yn gyffredinol, ac mae fframwaith monitro'r CDLI yn dangos bod y CDLI yn cyfrannu at gyflawni amcanion datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, ers dechrau cyfnod y Cynllun, rhoddwyd caniatâd cynllunio i brosiectau ynni adnewyddadwy gyda chapasiti gosodedig o fwy na MW.

6.4 Yn genedlaethol, mae'r fframwaith CDLI yn cyflawni mewn modd sy'n bodloni gofynion ac yn diwallu anghenion cenedlaethol (er enghraifft, trwy hwyluso darparu cyfleoedd economaidd ac ym maes tai, gan gynnwys tai fforddiadwy).

6.5 Mae'r CDLI yn cynorthwyo â'r gwaith o gyflawni amcanion rhanbarthol. Er enghraifft, mae rôl Aberystwyth fel canolfan ranbarthol a chenedlaethol yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy'r CDLI, sy'n cyflawni ymrwymadau datblygu fel datblygiad defnydd cymysg Dan Dre.

6.6 Yn lleol, mae ymyrraeth bolisi a'r gwaith o gyflawni dyraniadau yn cynorthwyo â'r gwaith adfywio ac yn diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd lleol. Er enghraifft, bydd rhoi caniatâd ar gyfer y Safle a Neilltuwyd M0302: Maes Parcio Dan Dre ar gyfer manwerthu (gydag elfen breswyl) yn rhoi hwb i economi Aberystwyth ac yn cyfrannu at adfywio'r dref. At hynny, ers dechrau cyfnod y Cynllun, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer mwy na 650 o dai fforddiadwy ar draws y Sir. Mae hyn yn darparu buddion cymdeithasol sylweddol, gan ddod â pherchentyaeth o fewn cyrraedd i lawer iawn o deuluoedd a fyddent fel arall yn cael eu cau allan o'r farchnad.

**A oes angen newid y polisiau i adlewyrchu newidiadau mewn polisi cenedlaethol?**

- 6.7 Nid yw unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn polisiau neu ddeddfwriaeth genedlaethol yn ystod 2014-15 yn cael effaith uniongyrchol ar weithrediad y CDLI. Felly nid oes angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.
- 6.8 Bydd Deddf Cynllunio Cymru yn cael effaith maes o law, yn enwedig o ran y polisiau Rheoli Datblygu, ac mae'n debygol o fod yn berthnasol pan fydd y cynllun yn cael ei adolygu am y tro cyntaf.
- 6.9 Mae'r Cyngor wedi ystyried y goblygiadau o ran gweithredu'r CDLI mewn perthynas â TAN 20 ac wedi penderfynu parhau i weithredu Polisi DM01 a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol Asesiad Cymunedol ac Ieithyddol i gefnogi'r polisi hwn.

**A yw'r polisiau a thargedau cysylltiedig wedi'u cyflawni neu a wneir cynnydd tuag at eu cyflawni (gan gynnwys cyhoeddi'r canllawiau cynllunio ategol)?**

- 6.10 Mae'r canfyddiadau allweddol hyn wedi'u seilio ar gyfnod monitro byr yn unig ac felly mae'n anodd nodi unrhyw dueddiadau penodol. Bydd angen cymharu'r canfyddiadau â data monitro yn y dyfodol cyn y gellir dod i unrhyw gasgliadau pendant. Fodd bynnag, mae'r casgliadau ar gyfer yr adroddiad monitro hwn yn dangos bod polisiau'r cynllun yn cael eu cyflawni yn gyffredinol, a bod y cynllun yn symud tuag at ei dargedau cysylltiedig. O ran polisi'r CDLI, pennwyd dau bolisi i'w hystyried, ond mae gan bob un ohonynt amodau lliniarol ac nid ydynt wedi cael eu pennu o ganlyniad i fethiant y polisi.

6.11 Y polisiau yw:

- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
- DM15 Diogelu Bioamrywiaeth Leol

Trafodir y ddau bolisi hyn ymhellach o dan y cwestiwn nesaf.

- 6.12 Mae hefyd yn bwysig ystyried gweithredu Polisiau Strategol S01-S04 y CDLI a drafodir ymhellach isod.
- 6.13 Mae dyraniadau'r CDLI yn dangos cynnydd. Mae caniatâd gan rai, mae rhai newydd gael caniatâd ac mae llawer o rai eraill yn destun trafodaethau cyn gwneud cais. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrthi'n trafod â thirfeddianwyr/datblygwyr ynghylch symud ymlaen â'r holl safleoedd a neilltuwyd, nid yn unig fel rhan o'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai flynyddol, ond hefyd trwy gynnal trafodaethau ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn. Os yw meini tramgwydd wedi'u nodi fel rhan o'r trafodaethau hynny, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ceisio helpu i roi sylw i'r materion hynny lle

y gall, ac wedi recriwtio Swyddog Cyflenwi Tai i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Fodd bynnag ni fydd y swyddog yn dechrau tan Fedi 2015, felly mae'r cynnydd posibl yn y ddarpariaeth yn debygol o gael ei weld yn iawn yn 2016/17, er gobeithir y bydd rhywfaint o welliant i'w weld yn hwyr yn y cyfnod 2015/16. Mae statws dyraniadau'r CDLI wedi'u nodi yn Atodiad 4.

- 6.14 Mae Adran 5 yn nodi canlyniadau proses monitro'r AG/AAS, sy'n dod i'r casgliad bod effaith gadarnhaol ar y cyfan wedi cael ei gwireddu. Yr unig nodyn o rybudd yw bod canfyddiadau gwaith monitro'r AG/AAS yn adlewyrchu sefyllfa yn y tymor byr a bydd angen ystyried cyfnod hirach er mwyn cadarnhau patrwm gwirioneddol.
- 6.15 Yn ystod y flwyddyn ymgynghorwyd ar 1 Canllaw Cynllunio Atodol (Cymuned a'r Iaith Gymraeg). Mabwysiadwyd 5 o Ganllawiau Cynllunio Atodol (Yr Amgylchedd Adeiledig, Cadwraeth Natur, Ynni Adnewyddadwy, Safonau Parcio ac Aseidiadau Cludiant) yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn dod â chyfanswm y Canllawiau Cynllunio Atodol i 10. Mae natur y Canllaw Cynllunio Ategol cyhoeddedig ar Ynni wedi newid o'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r Archwiliad Ynni Adnewyddadwy wedi cael ei gwblhau eto a'r angen am Ganllaw Cynllunio Ategol yn y cyfamser i lywio datblygiadau o ran cynlluniau ynni gwynt a solar, oherwydd y nifer fawr o geisiadau sy'n dod i law ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, credir nad oes angen Canllaw Cynllunio Ategol ar Rwymedigaethau Cynllunio mwyach oherwydd bod polisi DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio wedi cael ei newid yn sylweddol yn ystod yr archwiliad, gan olygu nad oes angen Canllaw Cynllunio Ategol ar hyn o bryd. Gweler Atodiad 5 am restr lawn o'r Canllawiau Cynllunio Ategol a'u statws.

### Lle na wnaed cynnydd, y rhesymau dros hyn a pha effeithiau canlyniadol a allai fod?

- 6.16 Hwn yw'r ail AMB i'w baratoi ar gyfer CDLI Ceredigion.
- 6.17 Mae Adran 4 yn rhoi dadansoddiad manwl o lwyddiant y cynllun hyd yma yn ôl y dangosyddion monitro a'r ffactorau o ran cyflawni'r Strategaeth yn ystod 2014/15. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn y tabl isod ac yn Atodiad 2:

Tabl Crynodeb Monitro'r CDLI	
Polisi*	Statws
S01, S02, S03, S04, S05, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21, LU22, DM20 DM22,	Cyflawnwyd y polisi, neu rhagorwyd arno. Nid oes angen ymyrraeth.
S01, S02, S03, S04, S05, LU02, LU05, LU06, LU11, LU12, LU13, LU19, LU21, LU22, LU24, LU27, LU30, DM11, DM14, DM15, DM20,	Nid yw'r polisi'n cyflawni cystal â'r disgwyl, ond mae'n cyflawni'n ddigonol ac nid oes angen mesurau ymyrraeth

DM22	
SO2, SO4, DM11, DM15	Nid yw'r polisi'n cyflawni cystal â'r disgwyl a dylid ystyried mesurau ymyrraeth.
S01, S02, S03, S04, S05, LU12, LU13, LU18, LU19, LU20, LU21, LU22, LU31, DM12	Nid oes modd dod i unrhyw gasgliad ar hyn o bryd.

\*Gall polisiâu ymddangos mewn mwy nag un categori os ydynt yn destun mwy nag un dangosydd monitro'r CDLI.

6.18 Pennwyd dau bolisi i'w hystyried. Y polisiâu hyn yw:

- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd. Pennwyd y polisi hwn oherwydd bod datblygiadau wedi cael eu caniatáu sydd, er na chafwyd unrhyw wrthwynebiad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru, heb gael eu cyflwyno ynghyd â chyfiawnhad llawn o ran pob un o brofion TAN 15 fel sy'n ofynnol o dan y canllawiau cenedlaethol. Felly rhaid mai'r camau gweithredu ar gyfer 2014/15, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â tharged yr AMB, fydd sicrhau bod gan yr holl geisiadau a ganiateir ar y gorlifdir gyfiawnhad wedi'i gofnodi mewn perthynas â phob un o'r profion unigol a nodir yn TAN 15.
- DM15 Diogelu Bioamrywiaeth Leol. Pennwyd y polisi hwn oherwydd nid yw pob cais wedi cynnwys amodau gwella. Felly rhaid mai'r camau gweithredu ar gyfer 2015/16, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â tharged yr AMB, fydd sicrhau bod rhagor o hyfforddiant yn cael ei gynnal yn fewnol i wella'r ddealltwriaeth gyffredinol o'r angen am welliannau, a bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gosod ar ganiatadau cynllunio os cynghorir hynny.

6.19 Mewn perthynas â pholisiâu S01-S04, Dangosydd AMRH05 Strategaeth Anheddu a Grwpiau Aneddiadau, mae'r ysgogydd yn nodi "Os bydd y twf cymesurol yn uwch na'r disgwyl yn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', gwrthodir rhagor o ddatblygu preswyl yn y Grŵp Aneddiadau hwnnw, ar gyfer yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', nes bydd y caniatadau sy'n sefyll wedi darfod neu wedi cael eu dirymu ac y bydd yr ymrwymadau adlewyrchu'n neu'n dynesu at adlewyrchu'r rhaniad cymesurol a nodir yn Atodiad 2 o'r CDLI". Mae'r ysgogydd hwn wedi cael ei gyrraedd bellach ar gyfer y Grwpiau Aneddiadau canlynol. Felly ni ddylid caniatáu unrhyw ddatblygu pellach yn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill yn y grwpiau hynny hyd nes bod y cydbwysedd wedi cael ei adfer.

Y Grwpiau Aneddiadau yw:

- Aberaeron/Llwyncelyn,
- Castell Newydd Emlyn/Adpar,
- Llanbedr Pont Steffan,
- Llandysul,
- Cenarth,

- Llanilar,
- Llanon,
- Penrhyncoch.

6.20 At hynny, mae Dangosydd AMRH04: Strategaeth Anheddu a Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt yn datgan os yw'r terfyn 12% yn cael ei gyrraedd, ni chaniateir unrhyw ddatblygu pellach oni bai y cyfiawnheir hynny o dan Bolisi S04 yn yr Aneddiadau Cyswllt Unigol. Mae'r AMB yn dangos bod 42 wedi cael eu cyrraedd neu ragori ar y terfyn hwnnw. Mae'r AMB hefyd yn egluro bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi cyrraedd y terfyn hwnnw cyn mabwysiadu'r cynllun oherwydd ceisiadau a ganiatawyd o dan bolisi cynllunio blaenorol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn gallu sicrhau nad yw unrhyw ddatblygu pellach yn cael ei ganiatáu yn y 38 anedd a enwir oni bai neu hyd nes eu bod nhw'n disgyn o dan y terfyn 12% oherwydd bod caniatadau presennol wedi darfod, a sicrhau nad yw aneddiadau sydd heb gyrraedd eu terfyn o 12% eto yn gwneud hynny. Yr unig eithriadau yma fydd ceisiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas ag anghenion tai fforddiadwy neu TAN 6. Gweler Polisi S04 i gael manylion pellach am yr amgylchiadau eithriadol hynny (Maen Prawf 2b).

6.21 Caiff canfyddiadau ymarfer monitro'r AG/AAS eu nodi yn Adran 5 o'r AMB. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y cynllun, ar y cyfan, yn dilyn trywydd cadarnhaol.

### **Pa agweddau ar y CDLI y mae angen eu haddasu neu eu disodli os o gwbl am nad ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd neu am nad ydynt yn cyflawni amcanion y strategaeth a/neu amcanion datblygu cynaliadwy?**

6.22 Er bod strategaeth y CDLI yn parhau'n gadarn, mae'r dirywiad yn yr economi wedi cael effaith amlwg ar gyfraddau adeiladu tai. O edrych ar Adroddiadau Monitro Blynyddol eraill, ymddengys fod yr un lleihad o ran cyflenwi safleoedd i'w weld yn ardaloedd yr holl awdurdodau lleol. Mae yna ddarnau sylweddol o dir a neilltuwyd yn y CDLI a hefyd llawer o ganiatadau cynllunio eisoes wedi'u rhoi (dros ym mis Mawrth 2015 - rhai ohonynt yn ymwneud â safleoedd a neilltuwyd). Ymddengys felly nad yw'r broblem yn ganlyniad i ddiffyg argaeledd tir na chyfluoedd, ond yn hytrach i ddiffyg galw. Mae'n annhebyg bod y diffyg galw'n ganlyniad i ddiffyg angen am dai - mae'r angen yn bodoli, fel y mae'r dystiolaeth yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn dangos, a'r ymchwil wedi'i ddiweddarau a wnaed er mwyn diweddarau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol cyn diwedd 2015. Y prif reswm felly dros y diffyg cyflawniad yw diffyg gallu i gael benthyciadau/codi cyfalaf, nid yn unig i brynwyr, ond hefyd i'r datblygwr ariannu'r cynllun yn y lle cyntaf. Mae hefyd yn debygol bod elfen i'w phriodoli i'r ffaith fod Ceredigion yn dibynnu ar gwmnïau datblygu/adeiladu bach i gyflenwi'r safleoedd - sydd yn aml yn gweithio ar un safle ar y tro a thros gyfnod hir - a diffyg diddordeb yn y sir gan gwmnïau sy'n adeiladu niferoedd mawr o dai, felly bydd safleoedd yn cael eu cyflenwi'n arafach. Trwy fynd ati i drafod â



pherchnogion/datblygwyr safleoedd a neilltuwyd a rhai y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt eisoes, er mwyn cael mwy o fanylion am y rhwystrau, nod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw canfod a oes modd gwella cyfraddau cyflenwi yng Ngheredigion. Fodd bynnag, ychydig iawn y gall ei wneud ynghylch y rhwystr sy'n ymwneud â chyfalaf a chael benthyciadau: mater cenedlaethol yw hwn ac mae angen ymyrraeth ar y lefel honno er mwyn gwella cyflenwi safleoedd nid yn unig yng Ngheredigion, ond ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae argaeledd gweithwyr medrus yn y diwydiant adeiladu hefyd wedi cael ei nodi fel rhwystr i ddarparu tai yn y gwaith diweddar a wnaed ar yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.

- 6.23 Mae datblygu Ardal Chwilio Strategol D yn dibynnu ar osod neu sicrhau'r seilwaith perthnasol. Mae cyflenwi'r seilwaith yn dibynnu i raddau helaeth ar ganiatâd i gynlluniau eraill yn y sir gyfagos, sef Powys. Hyd yma, gwrthodwyd nifer o gynlluniau ym Mhowys a fyddai wedi hwyluso cyflenwi'r seilwaith hwn - disgwylir canlyniadau apeliadau ar nifer o'r cynlluniau hynny. Felly mae'n ansicr ar hyn o bryd a fydd Ardal Chwilio Strategol D yn cael ei datblygu, ond ni all Cyngor Sir Ceredigion ddatrys y sefyllfa.
- 6.24 Bydd rhaglen y Cyngor i wella ei darpariaeth addysgol yn cynnwys yr angen am ysgolion newydd mewn rhai achosion. Cydnabyddir nad yw rhai o'r safleoedd a gynigiwyd o bosibl yn cyflawni polisiau a strategaeth y CDLI. Er bod modd, o bosibl, cyfiawnhau penderfyniad ynghylch un safle sy'n groes i'r polisi, ni ellir gwneud hynny ar gyfer y rhaglen ysgolion gyfan. Felly mae angen ymagwedd gynaliadwy tuag at y ddarpariaeth addysgol gyfan sy'n unol â'r CDLI. Yn ddelfrydol, dylid pennu safleoedd ar gyfer y ddarpariaeth newydd trwy broses adolygu'r CDLI. Lle na fo modd gwneud hyn, bydd angen i'r adolygiad o'r CDLI ystyried unrhyw ddatblygiadau neu ymrwymadau diweddar ym maes addysg, ac asesu a oes angen newid unrhyw elfennau o'r Strategaeth er mwyn hwyluso a gwella cynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol y lleoliadau hynny.

**Os bydd angen newid polisiau neu gynigion, pa gamau yr awgrymir sydd eu hangen i gyflawni hyn.**

- 6.25 Nid oes angen newid unrhyw bolisiau neu gynigion ar yr adeg hon ym mhroses y cynllun.

### Casgliad

- 6.26 Nid oes angen newid unrhyw bolisiau neu gynigion ar yr adeg hon ym mhroses y cynllun.

## Atodiad 1: Newidiadau i'r Fframwaith Monitro

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
AMRH12: Mathau o Dai Fforddiadwy	Unedau a Gwblheir ac Ymrwymadau yn ôl eu math	<p>Newid geiriad y targed:</p> <p><del>59% o'r unedau fforddiadwy a drawsgludir ar 35% o werth y farchnad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar rent cymdeithasol.</del></p> <p><b>59% o'r unedau tai fforddiadwy ar gyfer rhenti cymdeithasol, a ddarperir gan y sector preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.</b></p>	<p>Gall y rheolau sy'n rheoli'r mathau o dai a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newid, ac felly hefyd y cyfyngiadau ariannol a chyllido maent yn gweithredu o danynt. Yn y CDLI, rhagdybiwyd y dylid ystyried unrhyw eiddo 'fforddiadwy' a drawsgludir i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn dai cymdeithasol ac y byddai anheddau a gwblhawyd a fyddai ar gael am 35% o werth y farchnad yn ddamcaniaethol yn ddeniadol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'w rhentu am rent cymdeithasol. Mewn gwirionedd, mae nifer o ddewisiadau rheoli tai ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a fyddai'n eu galluogi i sicrhau'r ddarpariaeth orau o dai fforddiadwy. Ni all y system cynllunio ragfynegi'r rhain ac ni ddylai chwaith gyfyngu ar y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Swyddogaeth yr Awdurdod Tai Lleol a rheolau</p>	2013-2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
			llywodraethu'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu hunain sy'n sicrhau bod y Landlordiaid yn cynnig darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion o ran tai cymdeithasol. Rôl cynllunio yw negodi cyfraniad at dai cymdeithasol gan y sector preifat ac egluro faint o unedau a drawsgludir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan ddatblygwyr preifat am bris sy'n eu gwneud yn ddeniadol i'r Landlordiaid, gan gyfrannu at y ddarpariaeth i ddiwallu'r 59% o'r angen o ran tai fforddiadwy sy'n angen o ran tai cymdeithasol.	
AMRH14: Cyflenwi Tai	Y gymhareb rhwng caniatadau a roddir ac unedau a gwblheir ar gyfer datblygiadau preswyl	Newid geiriad y dangosydd i:  Y gymhareb caniatadau a roddir rhwng <b>caniatadau unedau preswyl sy'n sefyll</b> ac unedau preswyl a gwblheir."	Roedd angen newid y geiriad i gyd-fynd â tharged y dangosydd.	2013-2014
AMRE02: Cyflenwad Tir Cyflogaeth	1. Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau): 75%	Newid geiriad y dangosydd i:  1. Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd	Nid oes modd monitro nifer yr unedau unigol presennol ar safleoedd cyflogaeth â digon o hyder i allu gwneud y mesuriad hwn yn bosibl.	2013-2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
		a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau <del>ac unedau</del> ): 75%		
AMRE06: Bywiogrwydd y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig	Faint o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd mewn Canolfan Gwasanaethau Wledig	Newid y dangosydd i:  Faint o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd mewn Canolfan Gwasanaethau <b>Wledig</b>	Mae'r dangosydd hwn wedi'i fwriadu i fesur y gwasanaethau a ddarperir mewn Canolfan Gwasanaethau Wledig. Mae newid y geiriad yn egluro mai hon yw'r sefyllfa.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 1c: Lleihau perygl llifogydd	Maint y datblygu dibreswyl (arwynebedd llawr a chanran) a ganiateir gyda SDCau.	Newid geiriad y dangosydd i:  Maint y datblygu dibreswyl newydd ( <b>unedau</b> ) <b>dros 500m<sup>2</sup></b> a ganiateir gyda SDCau.	Roedd angen y newid er mwyn i'r dangosydd adlewyrchu polisiau'r CDLI yn well.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 2b: Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion.	Lefelau llygryddion aer allweddol (e.e. NO <sub>2</sub> , PM <sub>10</sub> , SO <sub>2</sub> ) fesul sector.	Newid geiriad y dangosydd i:  Lefelau llygryddion aer allweddol (e.e. NO <sub>2</sub> , PM <sub>10</sub> , <b>oson</b> ).	Roedd angen y newid gan nad oedd y data ar gael mwyach mewn fformat a fyddai'n caniatáu i'r dangosydd gwreiddiol gael ei fesur.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 2b: Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion.	Lefelau llygryddion aer allweddol (e.e. NO <sub>2</sub> , PM <sub>10</sub> , SO <sub>2</sub> ) fesul sector.	Newid ffynhonnell y data i:  Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Sir Ceredigion	Newid yn adlewyrchu newid geiriad y dangosydd.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 2c: Lleihau effeithiau	Statws ecolegol cyrff dŵr (gwaith monitro'r Gyfarwyddeb Framwaith	Dileu'r dangosydd	Nid yw'r data ar gyfer Ceredigion yn cael ei gasglu mewn ffordd	2013-2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
andwyol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.	Dŵr).		ddibynadwy mwyach.  Mae dangosydd amgen wedi'i gynnwys, gweler isod.	
Amcan Cynaliadwyedd 2c: Lleihau effeithiau andwyol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.	Nifer yr achosion o lygru dŵr sydd wedi'u profi.	Dileu'r dangosydd	Nid yw'r data ar gyfer Ceredigion yn cael ei gasglu mewn ffordd ddibynadwy mwyach.  Mae dangosydd amgen wedi'i gynnwys, gweler isod.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 2c: Lleihau effeithiau andwyol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.	Nifer/canran y parthau adnoddau dŵr sy'n cyrraedd y targedau uchdwr.	Dileu'r dangosydd	Nid yw'r data ar gyfer Ceredigion yn cael ei gasglu mewn ffordd ddibynadwy mwyach.  Mae dangosydd amgen wedi'i gynnwys, gweler isod.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 2c: Lleihau effeithiau andwyol defnydd tir ar ansawdd a maint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol.	Ansawdd dŵr ymdrochi	Ychwanegu dangosydd newydd:  Ansawdd dŵr ymdrochi	Gan fod dangosyddion yr amcan hwn wedi cael eu dileu, roedd angen dod o hyd i ffordd arall o'i fonitro.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 3a: Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol	Y gwastraff trefol a gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.	Newid i (1):  Cyfanswm tunelledd gwastraff trefol a pherfformiad yn ôl: Targedau Adennill Awdurdodau Lleol (LART) h.y.	I alinio'r dangosydd â thargedau perfformiad cenedlaethol	2013 -2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
		<p>y lefelau gofynnol i gael eu cyrraedd wrth baratoi ar gyfer aildddefnyddio neu ailgylchu/compostio (neu Dreulio Anaerobig) mewn perthynas â gwastraff trefol (fel canran). 52% yw'r targed ar hyn o bryd</p> <p>A(2):</p> <p>Perfformiad yn ôl targedau Lwfansau Tirlenwi h.y. terfynau lwfansau ar gyfer y tunelledd Gwastraff Trefol Pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Wedi'u pennu fel 11,635 o dunelli ar gyfer 2012/13 ac 11,140 o dunelli ar gyfer 2013/14</p>		
Amcan Cynaliadwyedd Amcan Cynaliadwyedd 3a: Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol	Y gwastraff diwydiannol a masnachol a gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.	Cyfanswm y gwastraff o gartrefi / gwastraff diwydiannol a masnachol a gaiff ei gynhyrchu / ailgylchu / anfon i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.	Roedd angen y newid gan fod prinder data ynghylch gwastraff masnachol a diwydiannol, ond mae data ar gyfer gwastraff cartref/diwydiannol a masnachol ar gael trwy'r "Waste Interrogator" (er ar gyfer 2012)	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 4a: Gwerthfawrogi,	Colled cynefin â blaenoriaeth (hectarau) oherwydd datblygu	Newid geiriad y dangosydd i:	Y ffigur pwysig yw'r golled net gan y dylai mesurau cydbwysu wrthweithio	2013-2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
diogelu a gwella bioamrywiaeth.	newydd.	<b>Colled net</b> cynefin â blaenoriaeth (hectarau) oherwydd datblygu newydd.	rhywfaint o'r golled, neu'r golled i gyd.	
Amcan Cynaliadwyedd 4a: Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth.	Colled safleoedd (hectarau) sy'n bodloni meini prawf SoBiGN oherwydd datblygu newydd	Newid geiriad y dangosydd i: <b>Colled net</b> safleoedd (hectarau) sy'n bodloni meini prawf SoBiGN oherwydd datblygu newydd.	Y ffigur pwysig yw'r golled net gan y dylai mesurau cydbwysu wrthweithio rhywfaint o'r golled, neu'r golled i gyd.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 4a: Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth.	Statws rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.	Dileu'r dangosydd	Nid yw'r data ar gyfer Ceredigion ar gael mwyach. Mae'r system adrodd (System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth) wedi newid a dim ond y camau a gymerir ym maes bioamrywiaeth mae'n eu cofnodi, nid colledion ac enillion. Nid yw cylchoedd adrodd ffurfiol yn cael eu cynnal bellach.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 4a: Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth.	Llwyddiannau yn ôl targedau cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.	Dileu'r dangosydd	Nid yw'r data ar gyfer Ceredigion ar gael mwyach. Mae'r system adrodd (System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth) wedi newid a dim ond y camau a gymerir ym maes bioamrywiaeth mae'n eu cofnodi, nid colledion ac enillion. Nid yw cylchoedd adrodd ffurfiol yn cael eu cynnal bellach. Hefyd, nid yw llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynnu adrodd ar y targedau	2013-2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
			mwyach.	
Amcan Cynaliadwyedd 4a: Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth.	Lefelau o Waddodi Atmosfferig ar Safleoedd Ewropeaidd	Dileu'r dangosydd	Nid yw'r data ar gyfer Ceredigion ar gael mwyach.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 5a: Deall, gwerthfawrogi, gwarchod, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth a hynoded lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion.	Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir o fewn Ardaloedd Agwedd LANDMAP gydag arfarniad cyffredinol o Eithriadol.	Newid geiriad y dangosydd i:  Maint y datblygu (hectarau, unedau a chanran) a ganiateir ac a gwblheir o fewn Ardaloedd Agwedd <b>Gweledol a Synhwyrdd</b> LANDMAP gydag arfarniad cyffredinol o Eithriadol.	Canfuwyd bod ystyried yr holl benodau methodolegol ag arfarniad cyffredinol o 'Eithriadol' yn cynnwys dros 70% o'r Sir gan gynnwys nifer o Ganolfannau Gwasanaethau fel Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron. Felly barnwyd bod hon yn ardal rhy fawr, oedd yn cynnwys gormod o dir trefol, i fod yn ddangosydd defnyddiol. Felly barnwyd mai lleihau'r dangosydd i gynnwys y Bennod Fethodolegol ar agweddau Gweledol a Synhwyrdd yn unig oedd y dewis mwyaf priodol, yn arbennig o gofio'r ffactorau eang sy'n cyfrannu at ei harfarniadau.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 6a: Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu hadlewyrchu a 6b:	Nifer y cartrefi fforddiadwy (unedau a chanran) a adeiladir o dan bolisi cynllunio Tai Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion	Maint y tai fforddiadwy (unedau a chanran) a <b>ganiateir ac a gwblheir</b> adeiladir o dan bolisi cynllunio Tai Fforddiadwy Cyngor Sir Ceredigion.	Mae'r newid yn gwneud y dangosydd yn fesuriad gwell o bolisi tai fforddiadwy'r CDLI (S05).	2013-2014



Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.				
Amcan Cynaliadwyedd 6a: Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol benodol a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu hadlewyrchu a 6b: Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol.	Nifer y 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd pentref, ysgol gynradd) mewn Canolfan Gwasanaethau.	Newid y dangosydd i:  Faint o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd mewn Canolfan Gwasanaethau <b>Wledig</b>	Mae'r dangosydd hwn wedi'i fwriadu i fesur y gwasanaethau a ddarperir mewn Canolfan Gwasanaethau Wledig. Mae newid y geiriad yn egluro mai hon yw'r sefyllfa.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 7a: Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach	Cyfran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig o wasanaethau iechyd allweddol.	Newid geiriad y dangosydd i: Cyfran yr anheddau o fewn pellter cerdded/beicio cytunedig <b>(400m)</b> o wasanaethau iechyd allweddol.	Mae angen egluro beth yw'r pellter cerdded/beicio cytunedig.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd 7a: Hyrwyddo a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach	Cyfran yr anheddau nad ydynt o fewn 300m o'r man gwyrdd naturiol agosaf.	Newid geiriad y dangosydd i:  Cyfran yr anheddau <b>newydd sydd</b> o fewn 300m o'r man gwyrdd naturiol agosaf.	Nid oedd geiriad y dangosydd gwreiddiol yn ei gwneud hi'n bosib tynnu casgliadau ystyrion o'r data a gasglwyd. Mae'r geiriad newydd yn golygu bod y dangosydd bellach yn canolbwyntio ar fesur gweithredu'r cynllun ac felly'n llawer mwy perthnasol i nodau ac amcanion yr Adroddiad Monitro Blynyddol.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd	Canran y bobl 16-24 oed sydd o fewn	Newid amllder monitro'r	Yn adlewyrchu'r ffaith bod y	2013-2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
9a: Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion.	trothwyau amser teithio 30, 60, 90 munud o 'Ddarparwyr Dysgu' drwy (i) gerdded (ii) trafndiaeth gyhoeddus a (iii) car.	dangosydd o "yn flynyddol" i "2011-13 a 2021-23"	dangosydd yn dibynnu ar ddata poblogaeth nad yw'n cael eu casglu'n flynyddol.	
Amcan Cynaliadwyedd: 10a: Hybu'r defnydd o'r Gymraeg.	Nifer a chanran y teuluoedd â phlant ysgol lle mai'r Gymraeg yw iaith y cartref.	Newid geiriad y dangosydd i:  Nifer a chanran <b>disgyblion Ceredigion sy'n siarad Cymraeg gartref.</b>	Angen y newid i adlewyrchu'n well y cwestiwn a geir yn y cyfrifiad ysgolion.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd: 10a: Hybu'r defnydd o'r Gymraeg.	Amh.	Ychwanegu dangosydd newydd:  <b>Nifer a chanran y disgyblion sy'n cael Aseiad Athro drwy gyfrwng y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.</b>	Cofnodir y wybodaeth hon gan Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru bellach, ac ystyrir yn ddefnyddiol ei nodi at ddibenion monitro AS/AAS y CDLI.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd: 12a: Annog economi fywiog ac amrywiol.	Nifer a chanran y cyflogeion yn ôl sector.	Newid geiriad y dangosydd i:  Nifer y cyflogeion yn ôl <b>sector bras economaidd</b> amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.  Newid y ffynhonnell i:  <a href="https://statswales.wales.gov.uk">https://statswales.wales.gov.uk</a>	Caiff data Stats Cymru eu diweddarau'n fwy cyson na data NOMIS. Nid yw data Stats Cymru'n cynnwys %.	2013-2014
Amcan Cynaliadwyedd	Nifer yr ymwelwyr yn Aberystwyth ac	Newid geiriad y dangosydd i:	Mae cyfyngiadau ar staff wedi	2013-2014

Polisi/Amcan Cynaliadwyedd	Dangosydd	Newid	Rheswm	Cyfnod monitro pan ddigwyddodd y newid
12a: Annog economi fywiog ac amrywiol.	Aberteifi.	Nifer yr ymwelwyr yn Aberystwyth.	golygu nad oedd hi'n bosibl cynnal arolwg o nifer yr ymwelwyr yn Aberteifi ar gyfer y flwyddyn fonitro hon, ac nid yw'r sefyllfa'n debyg o newid yn y dyfodol agos.	

## Atodiad 2 Crynodeb o Ddangosyddion y CDLI

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
AMRH01	<ul style="list-style-type: none"> <li>Niferoedd cyffredinol y boblogaeth;</li> <li>Y rhai sydd mewn addysg uwch ac nad ydynt mewn addysg uwch;</li> <li>Ymfudo cyfartalog net</li> </ul>	Lleol	Amh.	Amh.							
AMRH02	O'r dyddiad mabwysiadu dylai'r gymhareb rhwng yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymiadau ledled y Sir gyfan fod yn dynesu at y rhaniad canrannol a geisir ledled y Sir erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.	Lleol	0	0							
AMRH03	O'r dyddiad mabwysiadu, yn y Grwpiau Aneddiadau unigol, dylai cymhareb yr unedau a gwblhawyd a'r ymrwymiadau rhwng y Ganolfan Gwasanaethau a'r 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' fod yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodiad 2 Cyfrol 1, neu'n gweithio tuag atynt.	Lleol	0	0							
AMRH04	O 1 Ebrill 2007, ar lefel y Grwpiau Aneddiadau, twf yr holl stoc dai a ymrwymwyd yn yr Aneddiadau Cyswllt unigol.	Lleol	0	0							
AMRH05	O'r dyddiad mabwysiadu, y math o ddatblygu a ganiateir.	Lleol	?	0							
AMRH06	Cyflenwad Tir ar gyfer Tai ar 1 Ebrill bob blwyddyn	Gorfodol	+	0							
AMRH07	1. Maint y datblygiadau tai sy'n cael	Craidd	0	0							

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	<p>caniatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a hectarau) fel a ganlyn:</p> <p>i. Ar 31 Mawrth 2015, 40%</p> <p>ii. Ar 31 Mawrth 2017, 60%</p> <p>iii. Ar 31 Mawrth 2019, 84%</p> <p>iv. Ar 31 Mawrth 2021, 100%</p> <p>2. Maint y datblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (unedau a ha) fel a ganlyn:</p> <p>i. Ar 31 Mawrth 2015, 20%</p> <p>ii. Ar 31 Mawrth 2017, 40%</p> <p>iii. Ar 31 Mawrth 2019, 64%</p> <p>Ar 31 Mawrth 2021, 88%</p>										
AMRH08	<p>1. Maint y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).</p> <p>2. Maint y datblygiadau tai a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir yn y Canolfannau Gwasanaethau (hectarau ac</p>	Craidd	0	0							

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	unedau ar ôl mabwysiadu'r CDLI).										
AMRH09	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir. 2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Craidd	+	+							
AMRH10	1. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a ganiatawyd ers (1 Ebrill) 2007 2. Nifer net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol a gwblhawyd ers (1 Ebrill) 2007.	Gorfodol	0	0							
AMRH11	1. Canran y ceisiadau preswyl lle cyflwynir her dichonoldeb. 2. Nifer y safleoedd lle cyflwynir her a hynny'n llwyddiannus i leihau nifer y Tai Fforddiadwy fel cyfran o nifer yr heriau.	Lleol	+	+							
AMRH12	Unedau a Gwblheir ac Ymrwymadau yn ôl eu math	Lleol	?	0							
AMRH13	Dwysedd cyfartalog datblygiadau tai	Craidd	0	0							

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd yn y cynllun datblygu										
AMRH14	Y gymhareb rhwng caniatadau unedau preswyl sy'n sefyll ac unedau preswyl a gwblhawyd	Lleol	0	0							
AMRH15	Nifer y Caniatadau Llawn neu Ganiatâd Materion a Gadwyd yn Ôl ar sail y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun.  Nifer yr unedau a gwblheir yn ôl y mathau o dai a nifer yr ystafelloedd gwely ers mabwysiadu'r cynllun.	Lleol	0	0							
AMRE01	Cyflenwad/datblygiad net y tir economaidd (hectarau/metrau sgwâr)	Craidd	+	+							
AMRE02	1. Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau). 2. Maint y datblygu economaidd a gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o ddyraniadau'r CDLI (hectarau ac unedau).	Craidd	+	+							
AMRE03	1. Maint y datblygu economaidd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir (hectarau ac unedau). 2. Maint y datblygu economaidd a	Craidd	+	+							

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	gwblheir ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir (hectarau ac unedau).										
AMRE04	1. Maint y datblygu newydd (hectarau) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a ganiateir. 2. Maint y datblygu newydd (hectarau) a gwblheir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (ailddatblygu tir llwyd a chyfaddasiadau) fel canran o'r holl ddatblygu a gwblheir.	Craidd	0	0							
AMRE05	Maint y datblygiadau mawr (datblygiadau mwy nag 800 o fetrau sgwâr gros) o ran swyddfeydd, manwerthu a hamdden a ganiateir yng nghanol trefi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir.	Craidd	+	?							
AMRE06	Faint o'r 6 chyfleuster allweddol (siop fwyd, swyddfa bost, gorsaf betrol, tafarn, neuadd bentref, ysgol gynradd) sydd mewn Canolfan Gwasanaethau Wledig	Lleol	?	+							
AMRE07	Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Cynradd Aberystwyth ac Aberteifi.	Lleol	0	0							



Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	Defnydd manwerthu sefydlog neu gynyddol ar Ffryntiadau Manwerthu Eilaidd Aberystwyth ac Aberteifi.										
AMRQ01	Maint y mannau agored a chyfleusterau hamdden a gollir i ddatblygiadau (hectarau ac unedau) ar hap-safleoedd a safleoedd heb eu neilltuo	Craidd	0	+							
AMRQ02	Maint y tir maes glas a gollir i ddatblygiadau (hectarau) ar hap-safleoedd neu safleoedd heb eu neilltuo	Craidd	0	0							
AMRQ03	Ceisiadau cynllunio perthnasol a nodir ym Mholisi LU24.	Lleol	0	0							
AMRQ04	% y datblygiadau a ganiateir lle tybir y bydd effeithiau hirdymor gweddilliol sylweddol ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth;</li> <li>• Cysylltedd ecolegol;</li> <li>• Coed, gwrychoedd a choetiroedd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol; neu Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol</li> </ul>	Lleol	+	0							
AMRQ05	% y ceisiadau lle mae gwelliannau sy'n ymwneud â'r isod:	Lleol	-	-							

Cyfeirnod Monitro	Dangosydd	Lefel	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bioamrywiaeth (gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur a chynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth);</li> <li>Cysylltedd ecolegol;</li> <li>Coed, gwrychoedd a choetiroedd, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol; neu</li> <li>Wasanaethau ecosystemau a phrosesau naturiol</li> </ul> <p>fel bo'n ofynnol yn unol â Pholisïau DM14, DM15, DM20 ac DM22</p>										
AMRQ06	Nifer y Canolfannau Gwasanaethau a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud â seilwaith (trin carthion a'r cyflenwad dŵr)	Lleol	?	?							
AMRQ07	% y datblygiadau sy'n cael eu categorio o dan baragraff 5.1 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad ydynt yn bodloni pob un o'r profion a nodir o dan baragraff 6.2 i-v Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15.	Craidd	-	0							
